**Memorandwm Esboniadol** ar gyfer Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gangen Penderfynyddion Iechyd Ehangach o fewn yr Is-adran Gwella Iechyd y Cyhoedd ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jeremy Miles AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
11 Chwefror 2025

**MEMORANDWM ESBONIADOL**

## 1. Disgrifiad

**1.** Bwriad y Rheoliadau hyn yw cyfyngu ar hyrwyddo cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen trwy leoliad a phris ar sail swmp yng Nghymru. Bydd y cyfyngiadau yn atal manwerthwyr canolig a mawr sy'n gwerthu bwyd neu ddiod yng Nghymru rhag arddangos cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen mewn lleoliadau allweddol mewn siop neu ar-lein a rhag cynnig y cynhyrchion hyn fel rhan o hyrwyddiad pris ar sail swmp. Hefyd, bydd busnesau cymwys yn y sector manwerthu a thu allan i'r cartref yn cael eu gwahardd rhag cynnig hyrwyddiad ail-lenwi am ddim ar gyfer diodydd sydd wedi'u melysu â siwgr. Nod y cyfyngiadau hyn yw lleihau gorfwyta cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen sy'n gallu cyfrannu at sefyllfa lle mae plant dros bwysau neu'n byw gyda gordewdra. Y bwriad yw gwella ein hamgylchedd bwyd ac felly helpu pobl i wneud dewisiadau iachach.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3. Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud o dan bwerau a roddir gan adrannau 6(4)(a), 16(1)(e) ac (f), 26(3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 ("Deddf 1990") ac adran 62(2) o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 ("Deddf 2008").

4. Mae Deddf 1990 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth ar gyfer gosod gofynion neu waharddiadau yn ymwneud â labelu, marcio, cyflwyno neu hysbysebu bwyd, a'r disgrifiadau y gellir eu cymhwyso i fwyd, neu reoleiddio'r gweithgareddau hyn fel arall. Hefyd, mae'n caniatáu iddynt wneud unrhyw ddarpariaeth arall yn ymwneud â bwyd neu ffynonellau bwyd, gan gynnwys yn benodol ddarpariaeth ar gyfer gwahardd neu reoleiddio cyflawni gweithredoedd masnachol mewn perthynas â bwyd neu ffynonellau bwyd, sy'n ymddangos iddynt fel darpariaeth angenrheidiol neu hwylus er budd iechyd y cyhoedd.

5. Rhoddwyd swyddogaethau perthnasol Deddf 1990, a oedd yn arferadwy gan "y Gweinidogion" gynt, i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 ("Deddf 1999"). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn, i'r graddau y gellir eu harfer o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.

1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999. Mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

6. Mae Deddf 2008 yn caniatáu i Weinidogion Cymru, wrth lunio is-ddeddfwriaeth sy'n creu trosedd, wneud unrhyw ddarpariaeth y gellid ei gwneud o dan Ran 3 o Ddeddf 2008. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cosbau ariannol penodedig.

7. Mewn perthynas ag adran 48(4A) o Ddeddf 1990, ymgynghorwyd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd, a gofynnwyd am eu cyngor ar y Rheoliadau hyn. Gwnaethant ddarparu gwybodaeth am waith yr Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n gymwys i'r Rheoliadau hyn, a chadarnhau eu cefnogaeth i'r cynigion.

8. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

9. Diben yr offeryn hwn yw cyfyngu ar hyrwyddo cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen trwy leoli a phris ar sail swmp mewn busnesau canolig a mawr sy'n gwerthu bwyd neu ddiod yng Nghymru (sydd â 50 neu fwy o weithwyr cyflogedig). Bydd cyfyngiadau ar leoliadau yn gymwys i fynedfeydd siopau, pen draw eil a chyfleusterau talu, a'r hyn sy'n cyfateb iddynt ar-lein (hynny yw, tudalennau mynediad, tudalennau glanio ar gyfer categorïau bwyd eraill, a thudalennau talu). Bydd cyfyngiadau pris ar sail swmp yn gwahardd busnesau canolig a mawr sy'n gwerthu bwyd neu ddiod yng Nghymru rhag cynnig hyrwyddiadau fel cynigion "prynu un eitem a chael un arall am ddim" neu "3 am bris 2" ar gyfer cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen.

10. Hefyd, y nod yw lleihau gorfwyta cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen sy'n gallu cyfrannu at orbwysau neu ordewdra ymysg plant. Mae'r mesur hwn yn bwriadu newid cydbwysedd hyrwyddiadau tuag at ddewisiadau iachach a sicrhau bod cynifer o gynhyrchion iachach â phosibl ar gael fel rhan o hyrwyddiadau. Gall y polisi hwn wella ein hamgylchedd bwyd yn sylweddol trwy sicrhau bod bwyd iachach ar gael yn ehangach, ei fod yn fwy hygyrch a'i fod yn fwy amlwg mewn siopau, gan gynorthwyo pobl i wneud dewisiadau iachach yn y pen draw.

<u>Y Cefndir Polisi</u>

11. Deietau gwael yw un o'r prif heriau iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae llai nag 1% o boblogaeth Prydain yn bwyta deiet sy'n adlewyrchu cyngor bwyta'n iach y llywodraeth, fel y'i dangosir yn y Canllaw Bwyta'n Iach,

gan arwain at ganlyniadau difrifol i iechyd y boblogaeth a'r blaned. O ganlyniad, mae tua 60% o oedolion yng Nghymru bellach dros eu pwysau neu'n ordew, gyda chwarter ohonynt yn cael eu hystyried yn ordew[1]. Mae cyfraddau gordewdra ymhlith plant yn y DU hefyd ymhlith yr uchaf yng Ngorllewin Ewrop, ac mae bron i chwarter o blant yn byw gyda gordewdra neu orbwysau erbyn iddynt ddechrau yn yr ysgol yng Nghymru[2]. Yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o'r wlad, mae cyfraddau marw cyn pryd a blynyddoedd o fywyd a gollir tua dwywaith yn fwy na'r cyfraddau yn yr ardaloedd mwyaf cefnog. Mae maethiad gwael a chyfraddau uwch o afiechyd sy'n gysylltiedig â deiet ymhlith grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn cyfrannu at y gwahaniaethau hyn[3]. Mae'r anghydraddoldeb mewn canlyniadau iechyd sy'n gysylltiedig â gordewdra i'w weld gydol oes, gyda'r Rhaglen Mesur Plant yn nodi bod plant sy'n byw yn y '*bumed amddifadedd*' lleiaf difreintiedig yn ôl cod post preswyl yn llawer llai tebygol yn ystadegol o fod yn ordew o'i gymharu â phob pumed amddifadedd arall[4].

12. Mae marchnata a hyrwyddo mewn siopau yn effeithiol iawn o ran dylanwadu ar ddewisiadau prynu bwyd. Mae 40% o'r bwyd a diod sy'n cael ei brynu mewn siopau yn y DU yn cael eu gwerthu fel rhan o gynnig arbennig, sef y ganran uchaf yn Ewrop[5], ac mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod y strategaethau hyrwyddo hyn yn fwyaf cyffredin ar gyfer cynhyrchion sy'n cynnwys lefelau uchel o fraster, siwgr neu halen, er enghraifft, bisgedi (33.9%) a melysion (36.1%)[6]. Er bod cynigion yn gallu rhoi'r argraff eu bod yn arbed arian i ddefnyddwyr, mae data yn dangos eu bod yn gallu cynyddu gwariant defnyddwyr tua 20% mewn gwirionedd%[7]. Mae'r cynhyrchion hyn yn annog pobl i brynu mwy nag yr oeddent wedi bwriadu ei brynu yn y lle cyntaf. Mae ymchwil yn dangos hefyd fod hyd at 83% o'r eitemau sy'n cael eu prynu fel rhan o gynnig arbennig yn enghreifftiau o brynu byrbwyll, gyda dim ond 17% wedi'u cynllunio[8]. Er enghraifft, mae tua hanner yr eitemau siocled sy'n cael eu prynu yn cael eu gwerthu fel cynnig arbennig.

13. Er bod pobl yn gallu prynu eitemau fel rhan o gynnig arbennig ar sail y rhagdybiaeth y bydd y swm ychwanegol a brynir yn cael ei wrthbwyso trwy brynu llai maes o law (gydag arbedion cost hirdymor), nid yw hyn yn ystyried y penderfyniad isymwybodol i fwyta mwy pan fydd mwy ar gael. Gall hyn arwain at gynnydd mewn amlder bwyta a'r swm sy'n cael ei fwyta, a allai arwain fwyta gormod o galorïau[9]. Mae defnyddwyr

[1] Gorbwysau a Gordewdra - Iechyd Cyhoeddus Cymru
[2] CMP 2022-23 - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)
[3] Blynyddoedd o Fywyd a Gollir - Iechyd Cyhoeddus Cymru
[4] Rhaglen Mesur Plant Cymru 2022-23 - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)
[5] Sugar reduction: from evidence into action - GOV.UK (www.gov.uk)
[6] Kantar Worldpanel Take Home Purchasing | data 52 wythnos hyd at 29 Rhagfyr 19
[7] An analysis of the role of price promotions on the household purchases of food and drinks high in sugar, a research project for Public Health England conducted by Kantar Worldpanel UK, 2020. Ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/sugar-reduction-from-evidenceinto-action
[8] Martin, L, Bauld, L ac Angus, K (2017) Rapid Evidence Review: The impact of promotions on high fat, sugar and salt (HFSS) food and drink on consumer purchasing and consumption behaviour and the effectiveness of retail environment interventions. Caeredin: GIG yr Alban.
[9] Chandon P, Wansink B. (2002) When are stockpiled products consumed faster? A convenience-salience framework of post-purchase consumption incidence and quantity. J. Mark. Res. 39:321–35

Cymru'n cydnabod dylanwad cynigion arbennig o'r fath ar eu harferion prynu - yn ôl arolwg barn Ymchwil Canser,[10] roedd 86% o'r ymatebwyr yn credu bod bargeinion sy'n cynnig bwyd ychwanegol yn dylanwadu ar faint o fwyd nad yw'n iach y maent yn ei brynu.

14. Mae'r amgylchedd siopa yn ffactor arall sy'n gallu dylanwadu'n fawr ar ein dewisiadau bwyd. Canfu astudiaeth ddiweddar gan y Gynghrair Gordewdra fod 43% o'r holl gynhyrchion bwyd a diod a leolir mewn mannau amlwg, megis arddangosfeydd wrth fynedfeydd siopau, mannau talu, pen yr eil, neu unedau arddangos ar wahân yn fwydydd a diodydd llawn siwgr[11]. Defnyddir y math hwn o farchnata yn eang yn y DU i hyrwyddo bwydydd â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen, ac mae'n cael dylanwad mawr ar blant a phobl ifanc[12]. Mae'n annog pobl i brynu'n fyrbwyll, sy'n gyfrifol am rhwng 45% a 70% o'r holl fwyd sy'n cael ei brynu, ac 80% o'r hyn a brynir mewn rhai categorïau[13]. Hefyd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gosod cynhyrchion mewn lle amlwg yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd pobl yn eu prynu yn annibynnol ar unrhyw ostyngiadau mewn prisiau[14]. Mae hyn yn dangos bod gosod cynnyrch mewn lle amlwg yn golygu bod pobl yn rhagdybio'n anghywir eu bod yn cael gwell gwerth am arian. Mae gweithgynhyrchwyr bwyd yn talu premiwm i osod eu cynnyrch yn y mannau hyn am y rheswm hwn.

15. Yn yr un modd, mae cynigion ail-lenwi am ddim ar gyfer diodydd llawn siwgr, sydd ar gael yn aml yn y sector oddi allan i'r cartref, yn cael eu prisio i ymddangos fel opsiwn sy'n cynnig gwerth da am arian o'i gymharu â phrynu un eitem, fel potel o ddiod feddal, sy'n debygol o annog pobl i'w prynu. Hefyd, mae'n bosibl y bydd plant yn cael eu denu gan y cyfle i nôl eu diodydd eu hunain, ynghyd a'r dewis eang o fathau a blasau. Yn 2015, cyhoeddodd y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faetheg (SACN) adroddiad ar garbohydradau ac iechyd[15], a oedd yn argymell y dylid haneru faint o siwgr y mae pobl yn ei fwyta fel rhan o'u cyfanswm calorïau dyddiol o 10% i 5%, a lleihau faint o ddiodydd melys llawn siwgr sy'n cael eu hyfed. Nododd yr adroddiad fod yfed diodydd llawn siwgr yn arwain at gynnydd mewn pwysau nad yw'n iach ymysg plant a phobl ifanc, a'i fod yn gysylltiedig â risg uwch o bydredd dannedd, gyda 28% o blant yn dioddef o bydredd dannedd erbyn iddynt droi'n bump oed. Ymysg oedolion, mae gormod o siwgr yn arwain at fwyta gormod o galorïau, magu pwysau a gordewdra.

16. Dangosodd ffigurau o'r Arolwg Deiet a Maeth Cenedlaethol[16], fel y cyfeiriwyd atynt yn adroddiad SACN, mai diodydd llawn siwgr sy'n

---

[10] BBC Wales. (2019). Cheap junk food to blame for obesity in Wales
[11] The Obesity Health Alliance. (2018). Out of place – The extent of unhealthy foods in prime locations in supermarkets
[12] Prifysgol Stirling. (2015). The impact of food and drink marketing on Scotland's children and young people
[13] BRQ Business Research Quarterly. (2015). Merchandising at the point of sale: differential effect of end of aisle and islands
[14] Ibid
[15] Iechyd Cyhoeddus Lloegr. (2015). SACN Carbohydrates and Health Report
[16] Llywodraeth Cymru. (2019). Arolwg Deiet a Maeth Cenedlaethol: canlyniadau Blynyddoedd 5 i 9 y Rhaglen Dreigl ar gyfer Cymru (2012/2013 – 2016/2017) a dadansoddiad o dueddiadau dros amser ac incwm (Blynyddoedd 1 i 9; 2008/09 – 2016/17)

cyfrannu mwy nag unrhyw beth arall (30%) at y siwgr yn neiet plant 4 i 10 oed. O gymharu â'r argymhelliad newydd gan SACN, roedd plant a phobl ifanc yn bwyta ac yn yfed tua 3 gwaith yn fwy o siwgr na'r hyn a argymhellir, ac roedd llawer ohono yn dod o ddiodydd llawn siwgr. Nid yw'r cymeriant caloriau o ddiodydd sydd wedi'u melysu â siwgr yn cynnwys llawer o werth maethol, ac maent yn cynnwys lefelau uchel o siwgrau rhydd[17]. Hefyd, maent yn tueddu i beidio â bodloni'r awydd am fwyd o'i gymharu â bwyd solet[18]. O ganlyniad, gall cyfanswm y diodydd sydd wedi'u melysu â siwgr sy'n cael eu hyfed gynyddu tra bod cyfanswm y bwyd sy'n cael ei fwyta ac sy'n cynnwys mwy o galoriau maethol yn lleihau, gan arwain at fagu pwysau a gordewdra cynyddol dros amser[19].

17. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae camau wedi'u cymryd i annog y diwydiant i sicrhau bod y bwyd y mae'n ei werthu yn iachach ac yn cynnwys llai o galoriau (trwy raglenni lleihau caloriau, siwgr a halen Llywodraeth y DU) a labelu cynhyrchion i helpu pobl i wneud dewisiadau mwy gwybodus ac iachach (er enghraifft, trwy labelu maeth ar flaen pecynnau). Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gyflwyno ledled y DU yn wirfoddol. Er bod y diwydiant bwyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o safbwynt ail-fformiwleiddio cynhyrchion a darparu opsiynau iachach o ganlyniad, nid yw hyn wedi'i wneud na'i gynnal yn gyson. Ac eithrio labelu maeth ar flaen pecynnau, gyda'r defnydd ohonynt yn uchel (ar tua dau draean o fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw), nid yw dulliau gwirfoddol yn y maes hwn wedi cyflawni'r newid angenrheidiol. Er enghraifft, dim ond 52% o'r holl dargedau cyfartalog a nodwyd yn rhaglen lleihau halen 2014-2017 y llwyddodd gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr i'w cyrraedd[20].

18. Mae llawer o resymau pam nad yw camau gweithredu gwirfoddol bob amser yn llwyddo neu'n sicrhau'r newid sydd ei angen. Un o'r prif resymau yw bod diffyg cysondeb wrth roi'r camau ar waith yn arwain at ddiffyg chwarae teg. Mae'r Rheoliadau wedi'u cynllunio i adeiladu ar gamau gweithredu gwirfoddol, sicrhau cysondeb, darparu eglurder a helpu i ddarparu amgylchedd siopa iachach i'r defnyddiwr. Un o nodau eraill y Rheoliadau yw helpu i sicrhau chwarae teg ar gyfer y diwydiant bwyd, gan sicrhau nad yw'r rhai sy'n gwneud ymdrech i gynyddu argaeledd a hyrwyddo opsiynau iachach o dan anfantais o'i gymharu â'r rhai nad ydynt yn gwneud ymdrech o'r fath. Yn y modd hwn, nod y Rheoliadau yw gwella iechyd hirdymor defnyddwyr o bob math a lleihau'r anghydraddoldebau sylweddol sy'n bodoli rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol gwahanol mewn perthynas â gordewdra ac afiechyd sy'n gysylltiedig â deiet.

[17] Mae siwgrau rhydd yn cynnwys monosacaridau a deusacaridau a ychwanegir at fwydydd a diodydd gan y gwneuthurwr, y cogydd neu'r defnyddiwr, a siwgr sy'n bresennol yn naturiol mewn mêl, suropau, diodydd sudd ffrwythau a chrynodiadau sudd ffrwythau

[18] Guideline: Sugar intake for adults and children, Sefydliad Iechyd y Byd, 2015. https://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/149782/9789241549028_eng.pdf;jsessionid=6698D92F7C9A601EFD7B35FA684958C3?seque nce=1 (darllenwyd ddiwethaf ar 15/01/2025)

[19] Ibid.

[20] Sugar reduction: from evidence into action - GOV.UK (www.gov.uk)

Cyfyngu ar hyrwyddiadau

19. Bydd hyrwyddo cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen yn cael ei gyfyngu yn ôl lleoliad a phris ar sail swmp fel a ganlyn:
Bydd cyfyngiadau ar leoliadau yn gymwys i fynedfeydd siopau, pen draw eil a chyfleusterau talu, a'r hyn sy'n cyfateb iddynt ar-lein (hynny yw, tudalennau mynediad, tudalennau glanio ar gyfer categorïau bwyd eraill, a thudalennau basged siopa neu dalu).
Bydd cyfyngiadau pris ar sail swmp yn gwahardd manwerthwyr rhag cynnig hyrwyddiadau fel cynigion "prynu un eitem a chael un arall am ddim”" neu "3 am bris 2" ar gyfer cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen.

Cyfyngu ar hyrwyddiadau ail-lenwi am ddim

20. Bydd hyrwyddiadau ail-lenwi diodydd wedi'u melysu â siwgr am ddim yn cael eu cyfyngu.

21. Ystyr “hyrwyddiad ail-lenwad am ddim” yw hyrwyddiad sy’n cynnig i’r defnyddiwr yr un ddiod wedi’i melysu â siwgr neu ddiod arall wedi’i melysu â siwgr am ddim ar ôl yfed diod gyntaf yn llawn neu'n rhannol.

Cwmpas busnesau

22. Bydd y cyfyngiadau’n gymwys i fanwerthwyr canolig a mawr (gyda 50 neu fwy o weithwyr cyflogedig), gan gynnwys siopau masnachfraint a siopau grwpiau symbol, sy’n gwerthu bwyd a diod yng Nghymru. Ni fydd angen i fusnesau bwyd yn y sector oddi allan i'r cartref gydymffurfio â chyfyngiadau hyrwyddo trwy leoliad a phris ar sail swmp, ond bydd y cyfyngiadau ar hyrwyddiadau ail-lenwi am ddim yn gymwys iddynt. Hefyd, ni fydd angen i rai sefydliadau addysgol a chartrefi gofal sy’n cynnal busnes gydymffurfio â chyfyngiadau ar leoliad a phris ar sail swmp. Bydd busnesau micro a bach (llai na 50 o weithwyr cyflogedig) yn cael eu heithrio o'r cyfyngiadau, yn ogystal â siopau sy'n llai na 185.8 metr sgwâr (2,000 troedfedd sgwâr) (hyd yn oed os ydynt yn rhan o fusnes canolig neu fawr sydd â 50 neu fwy o weithwyr cyflogedig) a manwerthwyr arbenigol sy'n gwerthu un math o gategori cynnyrch bwyd, er enghraifft manwerthwyr siocled neu siopau melysion. Bydd sefydliadau nad ydynt yn cynnal busnes wrth ddarparu bwyd yn cael eu heithrio hefyd.

Cwmpas bwyd

23. Bydd y cyfyngiadau'n gymwys i gategorïau bwyd a diod sy'n peri'r pryder mwyaf o safbwynt gordewdra ymhlith plant. Defnyddir dull gweithredu dau gam i benderfynu a yw cynnyrch yn cynnwys lefelau uchel o fraster, siwgr a halen. Yn gyntaf, bydd angen i'r cynnyrch berthyn i restr o gategorïau sy’n seiliedig ar raglen ail-fformiwleiddio Calorïau a Siwgr

Iechyd Cyhoeddus Lloegr ("PHE") ac Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn. Yna bydd angen cymhwyso Model Proffilio Maetholion 2004/2005 i'r cynnyrch dan sylw, ac os oes ganddo sgôr o 4 neu fwy ar gyfer bwyd neu 1 neu fwy ar gyfer diod, ni fydd modd ei hyrwyddo. Bydd y cyfyngiadau hefyd yn gymwys i ail-lenwi diodydd wedi'u melysu â siwgr am ddim yn y sector oddi allan i'r cartref (er enghraifft bwytai, siopau coffi ac ati).

<u>Gorfodi</u>

24. Bydd y Rheoliadau'n cael eu gorfodi gan awdurdodau bwyd yn eu hardaloedd lleol. Mewn achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau, bydd yn ofynnol i swyddogion gorfodi gyflwyno Hysbysiad Gwella cyn y gellir cyflwyno unrhyw gosb, gan roi cyfle i fusnesau gymryd camau i gydymffurfio â'r gofynion. Mae peidio â chydymffurfio â Hysbysiad Gwella yn drosedd; mewn achosion o'r fath, gall swyddogion gorfodi gyflwyno cosb ariannol benodedig o £2,500. Bwriad hyn yw darparu dulliau amgen cymesur o orfodi'r Rheoliadau i erlyniad troseddol ar gyfer awdurdodau bwyd o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

## 5. Ymgynghori

25. Mae Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop, ac yn gosod gweithdrefnau ar gyfer materion diogelwch bwyd, yn gofyn am ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw, yn uniongyrchol neu drwy gyrff cynrychioladol, yn ystod y gwaith o baratoi, gwerthuso a diwygio cyfraith fwyd, oni bai nad yw natur brys y mater yn caniatáu hynny.

26. Cyn gwneud darpariaeth o dan Ran 3 o Ddeddf 2008, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol, y rheoleiddiwr y mae'r ddarpariaeth yn gymwys iddo, unrhyw sefydliadau sydd, yn eu barn nhw, yn cynrychioli personau sy'n cael eu heffeithio'n sylweddol gan y cynigion, ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn eu barn nhw.

27. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos llawn ar y cynigion rhwng 9 Mehefin a 1 Medi 2022. Cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei deall o'r ymgynghoriad hwn ochr yn ochr â'r ymgynghoriad llawn. Mae dolen i'r adroddiad yn dadansoddi'r ymateb i'r ymgynghoriad ar gael yma: Amgylchedd bwyd iach | LLYW.CYMRU.

28. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, cynhaliwyd cyfarfodydd a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys:

- Cynrychiolwyr o'r sectorau gweithgynhyrchu a manwerthu bwyd a diod
- Awdurdodau lleol
- Elusennau

- Adrannau eraill y llywodraeth sydd â diddordeb mewn iechyd y cyhoedd a diogelwch bwyd, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau Iechyd.

29. Hefyd, sefydlwyd grwpiau ymgysylltu i ofyn am safbwyntiau ar y cynigion gan y cyhoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Roedd consensws eang ymhlith y grwpiau hyn bod angen cymryd camau i gyfyngu ar fynediad hawdd a hyrwyddiadau sy’n gwneud bwyd â lefelau uchel o fraster, siwgr neu halen yn ddeniadol i ddefnyddwyr. Hefyd, roedd pob grŵp yn cefnogi’r cysyniad o waharddiad ar ail-lenwi diodydd llawn siwgr am ddim.

30. Cafwyd 422 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar Amgylchedd Bwyd Iach gan gynnwys adborth gan sefydliadau (sefydliadau anllywodraethol, elusennau, cyrff iechyd y cyhoedd) a busnesau (manwerthwyr, gweithgynhyrchwyr, busnesau oddi allan i'r cartref, cyrff masnach y diwydiant bwyd/diod). Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion ar y cyfan (yn y fersiwn lawn o'r ymgynghoriad, roedd 49% o'r ymatebwyr yn cefnogi cyfyngiadau hyrwyddo; roedd 66% o'r ymatebwyr yn cefnogi cyfyngiadau ar leoliad, ac roedd 60% o'r ymatebwyr yn cefnogi cyfyngiadau ar gynigion ail-lenwi am ddim). Roedd yr ymatebwyr o blaid yn credu y byddai'r cynigion yn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr wneud dewisiadau iachach.

31. Roedd yr ymatebion i’r ymgynghoriad hwn yn rhan o’r penderfyniad i sicrhau bod y cyfyngiadau ar hyrwyddiadau sy’n cael eu cynnwys yn y Rheoliadau hyn yn gyson i raddau helaeth â rheoliadau cyfatebol Lloegr. Penderfynwyd archwilio’r ddadl o blaid deddfu ar fathau o hyrwyddiadau eraill yng Nghymru yn y dyfodol, a’r materion gweithredol sy’n gysylltiedig â hyn.

32. Cynhaliwyd ymgynghoriad arall ar y rheoliadau drafft a'r dull gorfodi ar gyfer Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025 rhwng 1 Gorffennaf a 23 Medi 2024 ac mae'r adroddid ar ddadansoddiad o'r ymatebion ar gael yn: Cynigion i wneud yr amgylchedd bwyd yn iachach | LLYW.CYMRU. Nod yr ymgynghoriad hwn oedd sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn glir ac yn ddiamwys ac y gellir ei gweithredu a’i gorfodi 'n effeithiol unwaith y bydd wedi'i deddfu. Ymgysylltodd swyddogion Llywodraeth Cymru yn anffurfiol â rhanddeiliaid allweddol trwy gydol y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys mewn perthynas â datblygu canllawiau ategol i gyd-fynd â’r Rheoliadau.

33. Hefyd, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd at yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Iechyd a

Gofal Cymdeithasol ar 1 Gorffennaf 2024, yn ei hysbysu bod Llywodraeth Cymru wedi lansio'r ymgynghoriad hwn ac wedi gofyn yn ffurfiol am ymateb i'r cynigion.

34. Cafwyd 83 o ymatebion i ymgynghoriad 2024 gan gyrff gorfodi, busnesau a chymdeithasau masnach, unigolion a sefydliadau fel Sefydliadau Anllywodraethol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn cefnogi'r Rheoliadau arfaethedig ac yn teimlo bod y rheoliadau drafft yn disgrifio'r cyfyngiadau yn gywir ac yn glir. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod y dull gorfodi a amlinellir yn deg ac yn gymesur, gyda busnesau'n croesawu'n arbennig y  cysondeb â rheoliadau presennol cyfatebol Llywodraeth y DU. Arweiniodd yr ymgynghoriad at ddiwygiad bach i'r diffiniad o sefydliad addysgol yn y Rheoliadau er mwyn darparu mwy o eglurder ynghylch sut mae'r Rheoliadau yn gymwys i'r lleoliadau hyn. Erbyn hyn, mae'r Rheoliadau yn diffinio sefydliad addysgol fel 'sefydliad sy'n darparu addysg yn unig pan fo'r addysg honno yn cael ei darparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddisgyblion sydd o dan 18 oed'.

# RHAN 2 - ASESIADAU EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## RHEOLIADAU BWYD (HYRWYDDO A CHYFLWYNO) (CYMRU) 2025: POB CYNNIG SYDD WEDI'I GYNNWYS YN YR OFFERYN STATUDOL

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **CYNNIG 1 - HYRWYDDIADAU PRIS** | 12 |
| **CYNNIG 2 – DIODYDD WEDI’U MELYSU Â SIWGR** | 23 |
| **CYNNIG 3 - CYFLWYNO CYNNYRCH** | 33 |
| **CYNNIG 4 - CYFLWYNO CYNNYRCH AR-LEIN** | 44 |
| **PRAWF HIDLO’R GYSTADLEUAETH** | 45 |
| **ADOLYGIAD ÔL-WEITHREDU** | 47 |
| **ATODIADAU** | 48 |

# ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

# CYNNIG 1 - HYRWYDDIADAU PRIS

### Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y cynnig a ffefrir yn ei gyfanrwydd.

| | | |
|---|---|---|
| ***Cyfyngu ar 'gynigion amleitem' a hyrwyddiadau swmp 'mwy am yr un pris' yn y sector manwerthu ac eithrio busnesau bach a micro ar gyfer cynhyrchion yng Nghymru sydd â sgôr 'llai iach' ar sail y Model Proffilio Maetholion (NPM) ac sy'n peri'r pryder mwyaf o safbwynt gordewdra ymhlith plant.*** | | |
| **Yr opsiwn a ffefrir:** Mae Opsiwn 1 yn cyfyngu ar 'gynigion amleitem' a chynigion 'mwy am yr un pris' gyfer cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen sydd â sgôr 'llai iach' ar sail y Model Proffilio Maetholion (NPM) ac sy'n peri'r pryder mwyaf o safbwynt gordewdra ymhlith plant, mewn manwerthwyr canolig a mawr. | | |
| **Cam:** Cyflwyno | **Cyfnod arfarnu:** 2024 – 2048 | **Blwyddyn sail brisiau:2024** |
| **Cyfanswm y Gost Gwerth Presennol: £7.9 miliwn** | **Cyfanswm y Manteision Gwerth presennol: £222m** | **Gwerth Presennol Net: £214.1m** |

### Cost weinyddol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Costau:** Rydym yn rhagweld y bydd yna gostau pontio a chostau refeniw parhaus er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r rheoliadau. Rydym yn rhagweld y bydd angen 6 awr ar swyddogion Safonau Masnach ym mhob un o'r 22 Awdurdod Lleol i ddod yn gyfarwydd â'r rheoliad a'r cynhyrchion y mae'n gymwys iddynt.<br>Yn seiliedig ar gyfradd yr awr o £29.93 ar gyfer Swyddog Safonau Masnach (gweler Atodiad A) y costau ymgyfarwyddo fyddai £3,951 (22 x 6 x £29.93).<br>Rhagdybir bod swyddogion yn ymweld â Siopau Manwerthu bob 2 flynedd. Rydym yn amcangyfrif y bydd 1,031 o ymweliadau bob blwyddyn ar sail nifer yr unedau manwerthu yng Nghymru (gweler Tabl 1, Atodiad B). Rhagwelir y bydd angen neilltuo 15 munud o'r ymweliad i adolygu cydymffurfiaeth â'r rheoliadau hyn. Bydd hyn yn costio £7,700 y flwyddyn (1031 x 0.25 x £29.93). Dros gyfnod o 25 mlynedd rydym yn amcangyfrif mai cyfanswm y gost gorfodi mewn unedau fydd £193k (£7,714 x 25). | | | |
| **Pontio: £4.0k** | **Cylchol: £192.9k** | **Cyfanswm: £196.8k** | **Gwerth Presennol: £130.7k** |
| **Arbedion cost:** Amherthnasol | | | |
| **Pontio: £** | **Cylchol: £** | **Cyfanswm: £** | **Gwerth Presennol: £** |
| **Cost weinyddol net: Gwerth Presennol £196.8k** | | | |

**Costau cydymffurfio**

| |
|---|
| Bydd manwerthwyr yn ysgwyddo costau cydymffurfio pontio. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd ar lefel gorfforaethol, ac mewn rhai achosion, bydd gweithgynhyrchwyr yn darparu'r data. Dim ond un archfarchnad fawr, Iceland, sydd â'i phencadlys yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n briodol i Gymru ysgwyddo cyfran o gostau'r pencadlys wrth gyflwyno'r ddeddfwriaeth.<br><br>Mae costau cydymffurfio yn cynnwys y canlynol:<br>• Ymgyfarwyddo<br>• Newidiadau i systemau TG<br>• Cost asesu cynhyrchion (cost gychwynnol a pharhaus)<br>• Rhannu asesiad cynnyrch gyda siopau unigol (cost gychwynnol a pharhaus)<br><br>Cyfrifwyd y costau yn yr adran hon gan Dîm Gordewdra Ymhlith Plant yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth ddatblygu Asesiadau Effaith 13011[21] a 9560[22] yn Lloegr. Gellid defnyddio nifer o ddulliau amgen i gyfrifo'r amcangyfrifon cost hyn ar sail pro rata, er enghraifft, poblogaeth, gwerthiant nwyddau groser, nifer y busnesau yn y sector manwerthu a chyllideb y GIG o'i gymharu â Lloegr. Ar bob sail, mae ffigur Cymru tua 5-6% o ffigur Lloegr. Er mwyn lleihau'r perygl o danamcangyfrif y gost, rydym wedi defnyddio pen uchaf yr ystod hon a chyfrifo'r costau fel 6% o gostau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Hefyd, mae'r costau wedi'u huwchraddio o brisiau 2019 i rai 2024 gan ddefnyddio datchwyddydd GDP y Swyddfa Ystadegau Gwladol (1.208)[23]. Oni nodir yn wahanol, mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar hyd y dadansoddiad hwn.<br><br>Amcangyfrifir y costau pontio o'r asesiadau effaith uchod fel a ganlyn: Costau ymgyfarwyddo £14,500 (0.2m x 6% = 12k x 1.208 = £14.5k), costau asesu cynnyrch £72.5 (£1m x 6% = £60k x 1.208 = £72.5k), costau rhannu gwybodaeth £108.7k (£1.5m x 6% = £90k x 1.208 = £108.7k) a chostau system TG £145k (£2m x 6% = £120k x 1.208 = £145k). Cyfanswm y costau pontio yw £340.7k.<br><br>Dros y cyfnod arfarnu 25 mlynedd, bydd manwerthwyr yn ysgwyddo costau gwerth £456.6k neu £18.3k y flwyddyn ar gyfer asesiadau cynhyrchion parhaus, ar gyfer cynhyrchion newydd a chynhyrchion wedi'u haddasu. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar yr asesiadau effaith uchod (£6.3m x 6% = £378k x 1.208 = £456.6k/25 = £18.3k). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pontio: £340.7k** | **Cylchol: £456.6k** | **Cyfanswm: £797.3k** | **Gwerth Presennol: £630.2k** |

**Costau eraill**

[21] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/770705/impact-assessment-for-restricting-volume-promotions-for-HFSS-products.pdf
[22] https://www.legislation.gov.uk/ukia/2020/111/pdfs/ukia_20200111_en.pdf, (tudalen 4 a 73)
[23] https://www.gov.uk/government/statistics/gdp-deflators-at-market-prices-and-money-gdp-september-2024-quarterly-national-accounts

| | | | |
|---|---|---|---|
| Disgwylir i fanwerthwyr gynllunio hyrwyddiadau er mwyn gwneud yr elw mwyaf. O ganlyniad, disgwylir y bydd unrhyw gyfyngiad ar eu gallu i wneud hyn yn lleihau eu helw. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi datblygu methodoleg sy'n dod i'r casgliad bod refeniw gwerthiant manwerthwr yn debygol o ostwng 0.59% oherwydd cyfyngiadau ar 'gynigion amleitem' a hyrwyddiadau swmp 'mwy am yr un pris' .<br><br>Ar sail yr asesiad effaith yn Lloegr (gweler uchod), a thrwy gymhwyso 6% ar gyfer Cymru wedi'i uwchraddio o brisiau 2019 i rai 2024 gan ddefnyddio datchwyddydd GDP y Swyddfa Ystadegau Gwladol (1.208), amcangyfrifir y bydd manwerthwyr yn colli elw gwerth £224.7k y flwyddyn (£3.1m x 6% = £186k x 1.208 = £224.7k) tra bydd gweithgynhyrchwyr sy'n cyflenwi manwerthwyr yn colli elw gwerth £297.2k y flwyddyn (£4.1m x 6% = £246k x 1.208 = £297.2k). Hefyd, bydd cynnydd bach o £94.2k y flwyddyn (£1.3m x 6% = £78k x 1.208 = £94.2k) ar gyfer gweithgynhyrchwyr cynhyrchion sydd heb lefelau uchel o fraster, siwgr a halen dros gyfnod llawn yr arfarniad. Felly, y cyfanswm net fydd £427.7k yn llai o elw bob blwyddyn a £10.69m yn llai o elw ar draws y cyfnod arfarnu. | | | |
| **Pontio: £0** | **Cylchol: £10.69m** | **Cyfanswm: £10.69m** | **Gwerth Presennol: £7.05m** |

## Costau heb eu meintioli ac anfanteision

Mae costau heb werth ariannol yn cynnwys costau ail-fformiwleiddio i weithgynhyrchwyr, unrhyw effaith ar y berthynas rhwng manwerthwyr a gweithgynhyrchwyr, a'r effaith ar gyfanwerthwyr oherwydd gostyngiad mewn gwerthiant cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen.

Mae amrywiaeth eang o ffactorau yn gallu dylanwadu ar gostau a manteision, ac mae'n bosibl y bydd defnyddwyr yn addasu eu cymeriant neu eu hymddygiad prynu mewn ymateb i fwyta llai o galorïau. Mae ystod yr ymateb yn gallu amrywio o ddim ymddygiad disodli i ymddygiad disodli 100%. Y cynnig canolog yw y bydd 40% o ymddygiad disodli h.y. bydd y mesurau yn 60% yn effeithiol.

Yn absenoldeb gostyngiad mewn prisiau, byddai disgwyl i ddefnyddwyr sy'n manteisio ar hyn o bryd ar 'gynigion amleitem' a hyrwyddiadau swmp 'mwy am yr un pris' weld gostyngiad yn eu gwarged defnyddwyr. Y rheswm am hyn yw y byddent naill ai'n gorfod talu mwy i fwyta/yfed yr un faint, bwyta/yfed llai neu newid i gynnyrch amgen y byddai disgwyl iddo roi boddhad cymharol is (fel arall, byddai defnyddiwr synhwyrol wedi prynu'r cynnyrch amgen yn y lle cyntaf). Nid oes modd meintioli'r effaith hon. Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar iechyd defnyddwyr, fel y nodir isod.

## Manteision

| |
|---|
| Cyfrifwyd y manteision yn yr adran hon gan Dîm Gordewdra Ymhlith Plant yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth ddatblygu Asesiadau Effaith 13011[24] a 9560[25] yn Lloegr. Mae'r model yn cyfrifo manteision iechyd meintiol ar lefel y boblogaeth ar sail gostyngiad mewn calorïau a ragwelir dros 25 mlynedd. Yn yr un modd â’r costau, rhagdybir y bydd y manteision yng Nghymru yn 6% o’r manteision yn Lloegr, ac maent wedi’u huwchraddio o brisiau 2019 i rai 2024 gan ddefnyddio datchwyddydd GDP y Swyddfa Ystadegau Gwladol (1.208)[26]. Mae gwybodaeth am Fodel Calorïau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gael yn Atodiad E.<br>Amcangyfrifir mai £222.1m yw cyfanswm y manteision yn nhermau gwerth presennol. Ar gyfer Opsiwn 1, amcangyfrifir y bydd GIG Cymru yn arbed oddeutu £13m (£180m x 6% = £10.8m x 1.208 = £13m) dros y cyfnod asesu 25 mlynedd. Hefyd, byddai lefelau is o afiachedd yn arbed costau i'r GIG yng Nghymru. Amcangyfrifir mai gwerth y manteision iechyd i'r boblogaeth fydd £173.2m (£2,390m x 6% = £143.4m x 1.208 = £173.2m). Byddai'r sector gofal cymdeithasol yn arbed £15.4m (£181m x 6% = £10.9 x 1.208 = £15.4m) a byddai disgwyl i lai o farwolaethau cynamserol ddarparu cynnyrch economaidd ychwanegol gwerth £20.5m (£283m x 6% = £17m x 1.208 = £20.5m) drwy gynyddu nifer y bobl sy’n rhan o’r gweithlu. |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm: £222.1m (yn nhermau gwerth presennol)** | **Gwerth Presennol: £222.1m** |

## Tystiolaeth, rhagdybiaethau a ffactorau ansicr allweddol

| |
|---|
| Mae'r brif dystiolaeth sylfaenol yn deillio o waith a gafodd ei wneud gan Dîm Gordewdra Ymhlith Plant yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth ddatblygu Asesiadau Effaith 13011[27] a 9560[28]. Y brif ragdybiaeth yw bod y fethodoleg a'r rhagdybiaethau sy'n sylfaen i'r gwaith hwn ar gyfer Lloegr yn gymwys yn yr un modd i Gymru. Rhagdybir y bydd modd allosod canlyniadau Cymru drwy gymhwyso ffactor o 6%. Mae'r ffigurau hyn wedi'u huwchraddio o brisiau 2019 i rai 2024 gan ddefnyddio datchwyddydd GDP y Swyddfa Ystadegau Gwladol (1.208).<br><br>Un gwahaniaeth allweddol yn asesiad effaith blaenorol yr ymgynghoriad ar gyfer Cymru yw’r ffaith ei fod yn cymryd yn ganiataol y byddai hyrwyddiadau gostyngiadau pris ar sail swmp a gostyngiadau dros dro mewn prisiau yn cael eu cyfyngu. Erbyn hyn, mae cysondeb rhwng y mesurau yng Nghymru a Lloegr. O ganlyniad, rhagdybir y bydd effaith net y cyfyngiad ar ‘gynigion amleitem’ a hyrwyddiadau swmp ‘mwy am yr un pris’ yn 0.59% o'r gwerthiant yn hytrach na gostyngiad o 1.24% i gwmpasu cyfyngiadau ar hyrwyddiadau gostyngiadau pris ar sail swmp a gostyngiadau dros dro mewn prisiau. Hefyd, mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod busnesau micro a busnesau bach yn ogystal â busnesau arbenigol e.e. manwerthwyr siocled yn cael eu heithrio o'r cwmpas. Mae'r dadansoddiad yn rhagdybio bod gan ficrofusnes lai na 10 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn a bod gan fusnes bach 11-49 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn. |

[24] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/770705/impact-assessment-for-restricting-volume-promotions-for-HFSS-products.pdf
[25] https://www.legislation.gov.uk/ukia/2020/111/pdfs/ukia_20200111_en.pdf (tudalen 4)
[26] https://www.gov.uk/government/statistics/gdp-deflators-at-market-prices-and-money-gdp-september-2024-quarterly-national-accounts
[27] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/770705/impact-assessment-for-restricting-volume-promotions-for-HFSS-products.pdf
[28] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1003921/impact-assessment-for-restricting-volume-promotions-for-HFSS-products.pdf

## 6. Opsiynau

35. Y nod yw lleihau gorfwyta cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen ac annog busnesau i hyrwyddo cynhyrchion iachach a darparu rhagor o gymhelliant ar gyfer ail-fformiwleiddio.

36. Bwriad cyfyngu ar 'gynigion amleitem' a hyrwyddiadau 'mwy am yr un pris' ar gyfer bwyd a diodydd sydd â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen yw:

- Lleihau gorfwyta cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen sy'n debygol o arwain at gymeriant calorïau gormodol a, thros amser, ennill pwysau, gan leihau'r effaith ar eitemau bwyd a brynir nad ydynt yn cyfrannu at ordewdra ymhlith plant;
- Newid pwyslais hyrwyddiadau tuag at opsiynau iachach a chynyddu nifer y cynhyrchion iachach ar gael drwy gynnig arbennig, i'w gwneud yn haws i rieni wneud dewisiadau iachach wrth siopa ar gyfer eu teuluoedd;
- Creu sefyllfa o chwarae teg lle nad yw siopau sy'n gwneud cynnydd gwirfoddol yn cael eu cosbi mwyach;
- Cynorthwyo strategaeth ehangach Pwysau Iach: Cymru Iach i leihau amgylchiadau sy'n cyfrannu at yr amgylchedd sy'n hyrwyddo gordewdra (obesogenic) ar hyn o bryd.

### Mathau o hyrwyddiadau

37. Mae hyrwyddiadau'n perthyn i ddau brif gategori,[29] cynigion pris ar sail swmp a chyfeirio at brisiau eraill, ac amlinellir y ddau ohonynt isod.

38. Mae cynigion pris ar sail swmp yn cynnwys:

- Cynigion amleitem - lle mae'r disgownt yn deillio o brynu mwy nag un uned, fel cynigion prynu un eitem a chael un arall am ddim, a chynigion 3 am bris 2.
- Cynigion cyfunol - lle mae disgownt yn cael ei roi pan fydd unigolion yn prynu cyfuniad penodedig o gynhyrchion, fel ar gyfer bargeinion pryd bwyd (meal deal), er enghraifft.
- Cynigion cysylltiedig - lle mae'r defnyddiwr yn cael cynnig cynnyrch am ddim neu am bris gostyngol wrth brynu cynnyrch arall, fel diod hanner pris wrth brynu brechdan.
- Elfen ychwanegol am yr un pris - pan fydd y defnyddiwr yn cael mwy am yr un pris, fel 50% yn ychwanegol am ddim.

39. Yr ail gategori o hyrwyddo yw cyfeirio at brisiau eraill, h.y. prisiau sy'n dangos gwerth da trwy gyfeirio at bris arall, sy'n fwy fel arfer. Mae'r categori hwn yn cynnwys:

---

[29] Guidance for Traders on Pricing Practices, Chartered Trading Standards Institute, 2016. https://www.businesscompanion.info/sites/default/files/Guidance-for-Traders-on-Pricing-Practices-Apr-2018.pdf

- Hen bris/pris newydd - sy'n cymharu pris sy'n cael ei hysbysebu â phris a godwyd o'r blaen gan y manwerthwr,
- Pris ar ôl yr hyrwyddiad neu brisiau cychwynnol - sy'n cymharu'r pris presennol â phris y mae'r manwerthwr yn bwriadu ei godi yn y dyfodol,
- Prisiau manwerthu wedi'u hargymell (RRP) - sy'n cymharu'r pris a hysbysebir â phris sydd wedi'i argymell gan y gweithgynhyrchwr neu'r cyflenwr,
- Prisiau cyfeirio allanol - sy'n cymharu pris a hysbysebir â phris a godir gan fanwerthwr arall am yr un cynnyrch.

40. At ddibenion yr Asesiad Effaith hwn, rydym yn defnyddio hyrwyddiadau pris i gwmpasu pob math o gynigion sy’n hyrwyddo bwyd a diod, gostyngiadau dros dro mewn prisiau (prisiau rhatach) i ddisgrifio pob hyrwyddiad sy’n perthyn i’r categori cyfeirio at brisiau eraill a nodir uchod, a hyrwyddiadau swmp i ddisgrifio pob cynnig ar sail swmp. Mae’r polisi yn targedu hyrwyddiadau swmp ‘cynigion amleitem’ a ‘mwy am yr un pris’ yn unig. Mae hyn yn wahanol i'r cynnig yn ein hymgynghoriad yn 2022 ar Amgylchedd Bwyd Iach.

**Opsiwn 0 – Busnes fel arfer**

41. Dyma'r senario busnes fel arfer a ddefnyddir fel sail i asesu pob opsiwn arall. Mae hyn yn rhagdybio na fydd unrhyw newidiadau yng nghyfraddau oed-benodol gorbwysau a gordewdra, ond mae'n rhagdybio y bydd BMI cyfartalog carfanau o unigolion yn cynyddu dros amser wrth iddynt fynd yn hŷn. Mae'r cynnydd hwn mewn BMI cyfartalog yn seiliedig ar dueddiadau presennol. O dan y senario busnes fel arfer, byddai nifer cyfyngedig o archfarchnadoedd yn parhau i gyfyngu ar hyrwyddo cynhyrchion penodol sydd â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen yn wirfoddol, a byddai disgwyl i'r rhai nad ydynt yn cyfyngu ar hyrwyddiadau ar hyn o bryd barhau i wneud hynny.

42. Bydd polisïau eraill fel Rheoliadau Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn yn parhau i gymell busnesau i ailfformiwleiddio eu cynhyrchion i leihau cymeriant siwgr.

43. Oherwydd y nifer sylweddol o elfennau ansicr y byddai angen eu hystyried, nid yw'r senario 'busnes fel arfer' yn yr Asesiad Effaith hwn yn ceisio mesur effaith y polisïau a gyhoeddwyd eisoes yn y dyfodol nac unrhyw gamau gweithredu posibl eraill gan y llywodraeth yn y dyfodol. Yn ogystal, nid yw rhyngweithiadau cyflwyno polisïau lluosog ar yr un pryd yn cael eu hasesu o dan ein hamcangyfrifon chwaith.

**Opsiwn 1 - Cyfyngu ar ‘gynigion amleitem’ a hyrwyddiadau ‘mwy am yr un pris’ yn y sector manwerthu ac eithrio busnesau bach a micro ar gyfer cynhyrchion yng Nghymru sydd â sgôr 'llai iach' ar sail y Model Proffilio Maetholion (NPM) ac sy'n peri'r pryder mwyaf o safbwynt gordewdra ymhlith plant.**

44. dan Opsiwn 1, byddai manwerthwyr canolig a mawr yn cael eu hatal rhag defnyddio ‘cynigion amleitem’ a chynigion ‘mwy am yr un pris’ i hyrwyddo cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen sy'n gyfrifol am lefel uchaf

o siwgr a chaloriau yn neietau plant ac sy'n peri'r pryder mwyaf o safbwynt gordewdra ymhlith plant. Mae rhestr o'r categorïau o gynnyrch sydd wedi'u cynnwys yn yr opsiwn hwn i'w gweld yn Opsiwn 2 yn Atodiad I.

45. Mae cynnwys y cynhyrchion hyn yn golygu bod y rheoliadau'n targedu'r cynhyrchion sy'n gyfrifol am y lefel uchaf o siwgr a chaloriau yn neietau plant, yn ogystal â lleihau costau i fusnesau, felly mae'n ddull gweithredu cytbwys a chymesur.

**Opsiwn 2 - Cyfyngu ar hyrwyddiadau pris ar sail swmp a gostyngiadau dros dro mewn prisiau ar gyfer cynhyrchion sydd â sgôr 'llai iach' ar sail y Model Proffilio Maetholion (NPM) ac sydd wedi'u cynnwys yn Rhaglen Lleihau Siwgr, Rhaglen Lleihau Caloriau ac Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn (SDIL) Iechyd Cyhoeddus Lloegr.**

46. Roedd adborth o ymgynghoriad Amgylchedd Bwyd Iach Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gysondeb â mesurau o dan reoliadau presennol cyfatebol yn Lloegr er mwyn osgoi cymhlethdod wrth weithredu ar gyfer busnesau sy'n gweithredu ledled y DU. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn rhan o'r penderfyniad i sicrhau bod y cyfyngiadau ar hyrwyddiadau a gwmpesir gan y Rheoliadau hyn yn gyson ar y cyfan â rheoliadau cyfatebol Lloegr. Penderfynwyd archwilio'r achos o blaid deddfu ar gyfer mathau eraill o hyrwyddiadau yng Nghymru yn y dyfodol, ac ystyried y materion gweithredol cysylltiedig. Mae Opsiwn 2 yn cael fwy o effaith negyddol ar ddiwydiant nag Opsiwn 1.

47. O dan Opsiwn 2, byddai manwerthwyr yn cael eu hatal rhag defnyddio cynigion hyrwyddo ar gyfer unrhyw gynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen sydd wedi'u cynnwys yn Rhaglen Lleihau Siwgr, Rhaglen Lleihau Caloriau ac Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn (SDIL) Iechyd Cyhoeddus Lloegr. Byddai hyn yn gymwys i bob manwerthwr sy'n gwerthu bwyd a diod yn y sector manwerthu ac eithrio busnesau bach a micro. Mae'r rhestr lawn o fwyd a diodydd sydd wedi'u cynnwys yn yr opsiwn hwn i'w gweld yn Atodiad F a J.

48. Byddai cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen yn y categorïau uchod o fewn cwmpas y rheoliadau yn cael eu diffinio trwy ddefnyddio Model Proffilio Maetholion (NPM) 2004/5, sy'n gwahaniaethu bwydydd ar sail eu cyfansoddiad maethol (gweler Atodiad H – Diffiniad o Lefelau Uchel o Fraster, Siwgr a Halen am fwy o fanylion). Er mwyn cynorthwyo manwerthwyr, byddai Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau i'w helpu i nodi pa gynhyrchion y cânt ac na chânt eu cynnwys mewn hyrwyddiad swmp.

49. Byddai 'cynhyrchion heb eu rhag-becynnu' yn cael eu heithrio o'r polisi. Mae'r rheoliad yn eithrio'r eitemau hyn oherwydd y gallai fod yn anymarferol i fusnesau asesu sgôr NPM y cynhyrchion hyn os nad oes gwybodaeth am faethiad ar y pecyn. Y rheswm am hyn yw nad yw'n ofynnol ar hyn o bryd i fusnesau ddarparu gwybodaeth am faethiad ar gyfer rhai cynhyrchion sy'n cael eu gwerthu'n rhydd.

50. Mae busnesau micro a bach wedi'u heithrio o'r cyfyngiadau o dan opsiynau 1 a 2, oni bai eu bod yn rhan o grŵp symbol (mae grŵp symbol yn fusnes mawr

sy'n cynnwys manwerthwyr bach a micro annibynnol a lluosog sy'n masnachu o dan frand y symbol ac yn darparu cymorth i'r manwerthwyr), cwmni cydweithredol neu gwmni lluosog (mae cwmni lluosog yn fusnes manwerthu sy'n cynnal cadwyni o 10 neu fwy o siopau cyfleustra o dan arwydd siop sy'n eiddo i gwmni canolog e.e. Tesco Express). Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dangos y gallai cymorth gynnwys cael safonau canolog a chynnig marchnata cyffredin, ond bod manwerthwyr annibynnol a lluosog sy'n gweithredu o dan grŵp symbol yn gallu parhau i wneud eu penderfyniadau prynu a gweithredol eu hunain. Yn ôl y Gymdeithas Siopau Cyfleustra (ACS), mae tua 800 o siopau yng Nghymru yn rhan o grwpiau symbol, ac maent yn gyfrifol am 38% o gyfanswm y gwerthiant yn y sector siopau cyfleustra.

51. Byddai siopau nad ydynt ond yn gwerthu nwyddau sydd â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen, fel manwerthwyr siocled, yn cael eu heithrio hefyd.

52. Rydym wedi diffinio busnesau micro fel busnesau sydd â 10 neu lai o weithwyr cyfwerth ag amser llawn a busnesau bach fel busnesau sydd â 11-49 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn.

53. Mae'r busnesau hyn wedi'u heithrio oherwydd mae'n debygol y bydd y baich o gydymffurfio â'r rheoliadau hyn yn anghymesur o fawr ar gyfer y busnesau hyn.

54. Mae'n debygol y bydd cymhlethdodau amrywiol wrth ddiffinio a chyflwyno cyfyngiadau ar hyrwyddiadau pris. Mae ein hystyriaethau yn y canlynol yn rhagdybio bod y cymhlethdodau hyn yn cael eu goresgyn yn llwyddiannus.

## 7. Costau a manteision

55. Trwy gydol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae costau a manteision wedi'u hasesu dros gyfnod o 25 mlynedd. Yn unol â chanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF, mae cyfradd ddisgownt o 1.5% yn cael ei chymhwyso i effeithiau iechyd, a 3.5% i'r holl effeithiau ariannol eraill.

56. Disgwylir y bydd manteision cyfyngu ar hyrwyddiadau ar gyfer cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen yn cronni trwy'r canlynol:

- Gostyngiad mewn prynu gormod a bwyta gormod o galorïau, a gostyngiad canlyniadol yn nifer yr achosion o ordewdra;
- Gostyngiad mewn afiachedd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â gordewdra, gan arwain at lai o gostau i'r GIG, arbedion i'r sector Gofal Cymdeithasol a chynnydd mewn cynnyrch economaidd;
- Cynnydd posibl yn nifer y bobl sy'n bwyta eitemau iachach, gan arwain at ragor o fanteision iechyd.

57. Y prif gategorïau o gostau i'w hystyried yw:

    - Costau pontio sy'n gysylltiedig ag asesu cynhyrchion, deall y rheoliadau a dosbarthu gwybodaeth i siopau

- Costau pontio ar gyfer busnesau ar-lein i ymgyfarwyddo â'r rheoliadau a gwneud newidiadau i wefannau
- Costau parhaus sy'n gysylltiedig ag asesu cynhyrchion newydd neu gynhyrchion sydd wedi'u hail-fformiwleiddio
- Manwerthwyr yn gwneud llai o elw oherwydd eu bod yn gwerthu llai o fwyd a diod sydd â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen
- Gweithgynhyrchwyr bwyd a diod sydd â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen yn gwneud llai o elw oherwydd y gostyngiad mewn gwerthiant
- Gwrthbwyso elw i fanwerthwyr a gweithgynhyrchwyr oherwydd ymddygiad addasol defnyddwyr a'r ffaith fod busnesau yn defnyddio dulliau marchnata amgen.

58. Gallai ffactorau ehangach gael dylanwad mawr ar lefel y costau a'r manteision. Mae'n bosibl, er enghraifft, y gallai defnyddwyr addasu eu cymeriant neu eu hymddygiad prynu mewn ymateb i fwyta llai o galorïau. Mae'r math hwn o newid ymddygiad yn ffynhonnell ansicrwydd sylweddol yn ein dadansoddiad a gallai gael effaith sylweddol ar y gwerth net presennol a amcangyfrifir.

59. Mae'r ffigurau a gyflwynir yn seiliedig ar amcangyfrif canolog, sy'n rhagdybio bod ymddygiad disodli gan ddefnyddwyr a diwydiant yn golygu bod 40% o'r calorïau sy'n cael eu tynnu o ddeiet pobl yn cael eu disodli.

60. Mae gwerthoedd net presennol yr opsiynau yn cael eu hasesu dros gyfnod o 25 mlynedd. Mae hwn yn gyfnod llawer hirach na'r cyfnod asesu arferol o 10 mlynedd a ddefnyddir mewn asesiadau effaith. Mae salwch sy'n gysylltiedig â gorbwysau neu ordewdra yn tueddu i ddatblygu yn ddiweddarach mewn bywyd. Felly, mae cyfnod hirach nag arfer wedi'i ddewis i sicrhau bod manteision y rheoliadau hyn yn cael eu cofnodi yn ein dadansoddiad.

61. Yn Opsiwn 1, mae'r amcangyfrifon canolog o gyfanswm gwerth net presennol y costau i'r llywodraeth a'r diwydiant oddeutu £7.9m. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm y manteision o tua £222m. Dros 25 mlynedd, mae'r costau disgwyliedig i fanwerthwyr yn cynnwys costau pontio a chostau cylchol gwerth £0.63m, a thua £3.7m mewn elw a gollir. Dros y cyfnod hwn, byddai gweithgynhyrchwyr cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen yn colli cyfanswm o tua £4.9m mewn elw tra byddai elw gweithgynhyrchwyr cynhyrchion heb lefelau uchel o fraster, siwgr a halen yn cynyddu £1.55m.

## Asesiadau Effaith

Opsiwn 1 - Cyfyngu ar 'gynigion amleitem' a hyrwyddiadau swmp 'mwy am yr un pris' yn y sector manwerthu ac eithrio busnesau bach a micro ar gyfer cynhyrchion yng Nghymru sydd â sgôr 'llai iach' ar sail y Model Proffilio Maetholion (NPM) ac sy'n peri'r pryder mwyaf o safbwynt gordewdra ymhlith plant.

**Tabl 1: Crynodeb o gostau a manteision – Opsiwn 1 (£m)**

| **Grŵp sy'n cael ei effeithio** | **Effaith** | **Amcangyfrif Canolog (ymddygiad disodli 40%)** |
|---|---|---|
| Manwerthwyr | Pontio - Ymgyfarwyddo | -0.02 |
| | Pontio – Asesu Cynhyrchion â Lefelau Uchel o Fraster, Siwgr a Halen | -0.07 |
| | Pontio - Rhannu Gwybodaeth | -0.11 |
| | Pontio - Newidiadau i Systemau TG | -0.15 |
| | Pontio - Rhannu Gwybodaeth gyda staff (busnesau ar-lein) | 0.00 |
| | Asesiadau Parhaus o Gynhyrchion â Lefelau uchel o Fraster, Siwgr a Halen | -0.46 |
| | Elw a Gollir | -3.70 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Fanwerthwyr** | | **-4.50** |
| Gweithgynhyrchwyr cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen | Elw a Gollir - Gwerthiant Manwerthu | -4.90 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Weithgynhyrchwyr Cynhyrchion â Lefelau Uchel o Fraster, Siwgr a Halen** | | **-4.90** |
| **Gweithgynhyrchwyr Cynhyrchion Heb Lefelau Uchel o Fraster, Siwgr a Halen** | Elw a Gollir - Gwerthiant Manwerthu | 1.55 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Weithgynhyrchwyr Cynhyrchion Heb Lefelau Uchel o Fraster, Siwgr a Halen** | | **1.55** |
| Llywodraeth | Arbedion i'r GIG | 13.0 |
| | Arbedion Gofal Cymdeithasol | 15.4 |

| | | |
|---|---|---|
| | Ymgyfarwyddo | -0.004 |
| | Gorfodi | -0.13 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Lywodraeth** | | **28.27** |
| Cymdeithas Ehangach | Manteision Iechyd | 173.2 |
| | Cynnyrch Economaidd | 20.50 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Gymdeithas Ehangach** | | **193.7** |
| **Gwerth Presennol Net** | | **214.12** |

Opsiwn 2 - Cyfyngu ar hyrwyddiadau pris ar sail swmp a gostyngiadau dros dro mewn prisiau yn y sector manwerthu, ac eithrio busnesau bach a micro, ar gyfer cynhyrchion sydd â sgôr 'llai iach' ar sail y Model Proffilio Maetholion (NPM) ac sydd wedi'u cynnwys yn Rhaglen Lleihau Siwgr, Rhaglen Lleihau Calorïau ac Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn (SDIL) Iechyd Cyhoeddus Lloegr.

**Tabl 2: Crynodeb o gostau a manteision – Opsiwn 2 (£m)**

| **Grŵp sy'n cael ei effeithio** | **Effaith** | **Amcangyfrif Canolog (ymddygiad disodli 40%)** |
|---|---|---|
| Manwerthwyr | Pontio - Ymgyfarwyddo | -0.02 |
| | Pontio - Asesu Cynhyrchion â Lefelau uchel o Fraster, Siwgr a Halen | -0.07 |
| | Pontio - Rhannu Gwybodaeth | -0.11 |
| | Pontio - Newidiadau i Systemau TG | -0.15 |
| | Pontio - Rhannu Gwybodaeth gyda staff (busnesau ar-lein) | 0.00 |
| | Asesiadau Parhaus o Gynhyrchion â Lefelau uchel o Fraster, Siwgr a Halen | -0.46 |
| | Elw a Gollwyd | -6.99 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Fanwerthwyr** | | **-7.79** |
| Gweithgynhyrchwyr Cynhyrchion â Lefelau Uchel o Fraster, Siwgr a Halen | Elw a Gollir - Gwerthiant Manwerthu | -13.75 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Weithgynhyrchwyr Cynhyrchion â Lefelau Uchel o Fraster, Siwgr a Halen** | | **-13.75** |

| | | |
|---|---|---|
| **Gweithgynhyrchwyr Cynhyrchion Heb Lefelau Uchel o Fraster, Siwgr a Halen** | Elw a Gollir - Gwerthiant Manwerthu | 2.63 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Weithgynhyrchwyr Cynhyrchion Heb Lefelau Uchel o Fraster, Siwgr a Halen** | | **2.63** |
| Llywodraeth | Arbedion i'r GIG | 25.00 |
| | Arbedion Gofal Cymdeithasol | 29.30 |
| | Ymgyfarwyddo | -0.004 |
| | Gorfodi | -0.13 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Lywodraeth** | | **54.17** |
| Cymdeithas Ehangach | Manteision Iechyd | 330.20 |
| | Cynnyrch Economaidd | 39.00 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Gymdeithas Ehangach** | | **369.2** |
| **Gwerth Presennol Net** | | **404.46** |

# ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## CYNNIG 2 – DIODYDD WEDI'U MELYSU Â SIWGR

### Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir

| *Cyfyngu ar hyrwyddiadau pris ar gyfer diodydd penodol* | | |
|---|---|---|
| **Yr opsiwn a ffefrir:** Opsiwn 1: Cyfyngu ar Hyrwyddiadau Ail-lenwi Am Ddim yn y Sector Manwerthu ac Oddi Allan i'r Cartref | | |
| **Cam:** Cyflwyno | **Cyfnod arfarnu:** 2024 – 2048 | **Blwyddyn sail brisiau:2024** |
| **Cyfanswm y Gost Gwerth Presennol: £411k** | **Cyfanswm y Manteision Gwerth Presennol: £2.37m** | **Gwerth Presennol Net: £1.96m** |

## Cost weinyddol

| **Costau:** | | | |
|---|---|---|---|
| Rydym yn rhagweld y bydd yna gostau pontio a chostau refeniw parhaus er mwyn parhau i gydymffurfio â'r rheoliadau. Bydd angen 3 awr ar swyddogion Safonau Masnach ym mhob un o'r 22 Awdurdod Lleol i ymgyfarwyddo â'r rheoliad a diweddaru eu polisïau. Yn seiliedig ar gyfradd o £29.93 yr awr ar gyfer Swyddog Safonau Masnach (gweler Atodiad A), y costau ymgyfarwyddo fyddai £1,975 (22 x 3 x £29.93).<br>Rhagwelir y bydd swyddogion Safonau Masnach yn ymweld â safleoedd bob 2 flynedd. Rydym yn amcangyfrif y bydd 2,608 o ymweliadau bob blwyddyn ar sail nifer yr unedau manwerthu, gweler Atodiad B. Rhagwelir y bydd angen neilltuo 15 munud o'r ymweliad i adolygu cydymffurfiaeth â'r rheoliadau hyn. Byddai hyn yn costio £19.5k y flwyddyn (5,215[30]/2 x 0.25 x £29.93). Dros gyfnod o 25 mlynedd rydym yn amcangyfrif mai cyfanswm y gost gorfodi mewn safleoedd fydd £487.5k. (£19.5k x 25) | | | |
| **Pontio: £2k** | **Cylchol: £487.5k y flwyddyn** | **Cyfanswm: £489.5k** | **Gwerth Presennol: £323.3k** |
| **Arbedion cost:** Amherthnasol | | | |
| **Pontio: £** | **Cylchol: £** | **Cyfanswm: £** | **Gwerth Presennol: £** |
| **Cost weinyddol net: £489.5k** | | | |

## Costau cydymffurfio

[30] Gweler Atodiad B

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rydym yn rhagdybio y bydd rheolwr ym mhob busnes yn cymryd 3 awr i ddarllen y Rheoliadau ar gost o £20.42 yr awr (gweler Atodiad A). Cyfanswm y busnesau a ddefnyddir yw 819 (gweler Atodiad B) sy'n rhoi cyfanswm o £50,172 (3 x £20.42 x 819).<br>Rydym yn rhagdybio y bydd y rheolwr yn treulio awr yn briffio 2 aelod o staff ym mhob lleoliad sydd â gweinyddion/gweinyddesau ar gost o £14.60 yr awr (gweler Atodiad A) gan roi cyfanswm o £40,639 (£20.42 + £14.60 + £14.60 x 819).<br>Cyfanswm costau pontio fydd £90,811 (£50,172+£40,639)<br>Rydym yn rhagdybio na fydd unrhyw gostau cylchol eraill. | | | |
| **Pontio: £90.8k** | **Cylchol: £0** | **Cyfanswm: £90.8k** | **Gwerth Presennol: £87.7k** |

## Costau eraill

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gostyngiad mewn Gwerthiant ac Elw ar gyfer Busnesau:<br><br>Bydd busnesau sydd eisoes yn cynnig hyrwyddiad ail-lenwi diodydd siwgr isel/dim siwgr am ddim yn gallu parhau i wneud hynny o dan y cynnig hwn. Dim ond i ddiodydd wedi'u melysu â siwgr fel y'u diffinnir gan SDIL (Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn) y mae'r cyfyngiadau hyn yn gymwys iddynt.<br><br>Byddem yn disgwyl i'r polisi hwn newid dewisiadau rhai cwsmeriaid tuag at ddiodydd siwgr isel/dim siwgr er mwyn manteisio ar y cynnig ail-lenwi am ddim. I'r rhai sy'n parhau i fod eisiau yfed diodydd ysgafn llawn siwgr, byddant yn gallu prynu'r rhain mewn dognau unigol. Gellir disgwyl yn rhesymol i'r ddau newid mewn ymddygiad leihau cymeriant calorïau o yfed diodydd[31] heb gael unrhyw effaith ar werthiant ac elw cyffredinol.<br><br>Gostyngiad mewn Gwerthiant ac Elw ar gyfer Gweithgynhyrchwyr/Cyflenwyr:<br><br>Mae'n anodd mesur unrhyw ostyngiad posibl mewn gwerthiant i weithgynhyrchwyr oherwydd y newidiadau anhysbys i batrymau yfed diodydd dim siwgr/siwgr isel yn hytrach na diodydd llawn siwgr sy'n cael eu heffeithio gan y polisi hwn. Mae'n debygol y bydd llawer o bobl yn newid i yfed diodydd dim siwgr/siwgr isel er mwyn manteisio ar yr hyrwyddiadau ail-lenwi am ddim sydd ar gael, gan arwain at fwy o alw am gynhyrchu diodydd dim siwgr/siwgr isel. Dylai hyn wneud iawn am unrhyw ostyngiad yng ngwerthiant diodydd llawn siwgr. Mae'n bosibl y bydd gweithgynhyrchwyr yn wynebu costau ail-fformiwleiddio ar gyfer eu diodydd, ond disgwylir i'r costau hyn fod yn isel gan fod y rhan fwyaf eisoes wedi cael eu hail-fformiwleiddio oherwydd Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn. | | | |
| **Pontio: £0** | **Cylchol: £0** | **Cyfanswm: £0** | **Gwerth Presennol: £0** |

[31] Asesiad Effaith Llywodraeth Lloegr: 'Restricting volume promotions for high fat, sugar, and salt (HFSS) products (9560)', https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1003921/impact-assessment-for-restricting-volume-promotions-for-HFSS-products.pdf (tudalen 55)

## Costau heb eu meintioli ac anfanteision

| |
|---|
| Bydd angen i ymyriadau effeithiol ystyried ymdrechion y diwydiant i ennill y blaen ar y polisi. Er enghraifft, arweiniodd cytundeb gweithgynhyrchwyr melysion i roi'r gorau i gynhyrchu bariau siocled mawr ('king size') yn raddol yn 2005 at gyflwyno bariau sy'n cynnwys sawl dogn, ar gyfer eu rhannu neu eu bwyta ar adegau gwahanol i bob golwg[32]. Mae'n bosibl y bydd y diwydiant yn ceisio dod o hyd i ffordd i ennill y blaen ar y polisi, a allai fod yn anfantais sylweddol i'r gostyngiad mewn calorïau a ragwelir o ganlyniad i'r polisi hwn.<br><br>Yn absenoldeb gostyngiad mewn prisiau, byddai disgwyl i ddefnyddwyr sy'n manteisio ar hyn o bryd ar gynigion ail-lenwi am ddim weld gostyngiad yn eu gwarged defnyddwyr. Y rheswm am hyn yw y byddent naill ai'n gorfod talu mwy i yfed yr un nifer o ddiodydd ysgafn llawn siwgr, yfed llai, neu newid i ddiod amgen y byddai disgwyl iddi roi boddhad cymharol is. Nid oes modd meintioli'r effaith hon. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhywfaint o effaith gadarnhaol ar iechyd defnyddwyr, fel y nodir isod.<br><br>Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw hyrwyddiadau ail-lenwi diodydd am ddim o fewn cwmpas y rheoliadau sy'n cael eu cynnig yn y sector manwerthu. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau wedi'u hysgrifennu er mwyn ceisio atal unrhyw fath o fusnes rhag cynnig ail-lenwadau diodydd llawn siwgr am ddim yn y dyfodol. Am y rheswm hwn, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys effeithiau ar y sector manwerthu. |

## Manteision

| | |
|---|---|
| Mae cyfrifo manteision pob opsiwn polisi yn seiliedig ar amcangyfrif y gostyngiad mewn cymeriant calorïau fesul person yn y sector oddi allan i'r cartref trwy ddiodydd ysgafn llawn siwgr. Disgwylir i'r polisi hwn leihau cymeriant calorïau ymwelwyr â bwytai gwasanaeth llawn a gwasanaeth cyflym (sef 33.6% o'r sector yn ôl amcangyfrif Kantar - gweler Atodiadau C a D) lle mae cynigion ail-lenwi am ddim ar gael ar gyfer diodydd wedi'u melysu â siwgr.<br><br>Er mwyn cynhyrchu ffigur i amcangyfrif yr arbedion i'r GIG o ganlyniad i'r polisi hwn, cyfrifir gostyngiad mewn calorïau fesul person ym mhoblogaeth Cymru, sef 0.12kcal y dydd. Yn ôl Model Calorïau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, amcangyfrifir y bydd gwerth y manteision iechyd disgwyliedig, y cynnydd mewn cynnyrch economaidd, ac arbedion i'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol yn werth tua £4.73m yn nhermau gwerth presennol, gydag effeithiolrwydd 50% yn lleihau'r manteision i £2.37m yn nhermau gwerth presennol. Fel yr uchod, rhagdybir y bydd yr arbedion yng Nghymru yn 6% o'r rhai yn Lloegr, ac maent wedi'u huwchraddio o brisiau 2018 i rai 2024 gan ddefnyddio datchwyddydd GDP y Swyddfa Ystadegau Gwladol (1.233) [33]. Mae hyn yn seiliedig ar amcangyfrif 25 mlynedd o arbedion hirdymor yn y gofal sydd ei angen ar gyfer gordewdra afiachus a chlefydau eraill sy'n dilyn yn aml. Mae rhagor o wybodaeth am Fodel Calorïau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gael yn Atodiad F. | |
| **Cyfanswm:** Amherthnasol gan fod model yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn darparu'r Gwerth Presennol yn unig. | **Gwerth Presennol: £2.37m** |

[32] 'Downsizing: policy options to reduce portion sizes to help tackle obesity' (BMJ, 2015), https://www.bmj.com/content/bmj/351/bmj.h5863.full.pdf (tudalen 2)

[33] https://www.gov.uk/government/statistics/gdp-deflators-at-market-prices-and-money-gdp-march-2024-quarterly-national-accounts

## Tystiolaeth, rhagdybiaethau a ffactorau ansicr allweddol

| |
|---|
| Defnyddiwyd data Kantar i gyfrifo maint a strwythur y sector oddi allan i'r cartref yng Nghymru.<br><br>Nid yw'n hysbys faint o hyrwyddiadau ail-lenwi am ddim sy'n cael eu cynnig. Mae 148 o brif safleoedd wedi'u nodi yng Nghymru ac mae'n debygol y bydd ganddynt drosiant uchel iawn a fydd yn fwy na chyfartaledd y sector. Nid oes sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer yr amcangyfrif o 15% o fwytai a ddefnyddir isod – gweler Atodiad B ar gyfer y cyfrifiadau.<br><br>Amcangyfrifir mai gwerth marchnad diodydd wedi'u melysu â siwgr yn y busnesau yw £4.4m. Byddai'r rhain yn cael eu disodli gan ddiodydd dim siwgr neu ddiodydd siwgr isel.<br><br>Amcangyfrifir bod tua 9.8m litr o ddiodydd wedi'u melysu â siwgr yn cael eu hyfed yn y sector oddi allan i'r cartref, ac oddeutu 1.5m litr o fewn y busnesau dan sylw. Gellir amcangyfrif felly y gallai'r nifer hwn ostwng 20.1% os cyflwynir y polisi llawn, gan olygu y bydd 0.3m litr yn llai o ddiodydd wedi'u melysu â siwgr yn cael eu hyfed bob blwyddyn. |

# 6. Opsiynau

62. Mae cyfrifo manteision pob opsiwn polisi yn seiliedig ar amcangyfrif y gostyngiad mewn cymeriant calorïau fesul person yn y sector oddi allan i'r cartref trwy ddiodydd ysgafn llawn siwgr. Dyma'r rhif targed i'w leihau, sydd yn ei dro yn arwain at arbedion cost i'r GIG, yn ogystal â phoblogaeth fwy iach a llawer o fanteision eraill i gymdeithas.

**Opsiwn 0: Busnes fel arfer**

63. Dyma'r senario gwneud dim a ddefnyddir i asesu pob opsiwn arall. Mae Opsiwn 0 yn rhagdybio na fydd unrhyw newidiadau mewn polisi.

**Opsiwn 1: Cyfyngu ar Gynigion Ail-lenwi am Ddim yn Unig**

64. Byddai'r opsiwn hwn yn cyfyngu ar allu busnesau i gynnig hyrwyddiadau ail-lenwi diodydd llawn siwgr am ddim yn seiliedig ar ddiffiniad Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn (SDIL). Mae busnesau eisoes yn gwybod pa ddiodydd y mae'r SDIL yn gymwys iddynt, felly byddai'n syml cydymffurfio â'r polisi newydd hwn.

65. Dim ond cyfran o'r farchnad oddi allan i'r cartref sy'n cynnig ail-lenwi diodydd am ddim. Mae bwytai gwasanaeth llawn a gwasanaeth cyflym yn gyfrifol am 33.6% o'r sector oddi allan i'r cartref (amcangyfrif Kantar), a rhagdybir mai dim ond busnesau yn y categorïau hyn sy'n cynnig ail-lenwi diodydd am ddim.

66. Nid yw'n hysbys pa gyfran o fusnesau sy'n cynnig ail-lenwi diodydd, felly rydym wedi amcangyfrif bod 15% o'r 33.6% yn defnyddio hyrwyddiadau ail-lenwi am ddim, sef 8.4% o'r sector oddi allan i'r cartref yn ei gyfanrwydd. Ar gyfer y safleoedd hyn rydym wedi amcangyfrif 25% o'r diodydd a werthir. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith fod y busnesau hysbys sy'n cynnig ail-lenwi diodydd am ddim yn tueddu i fod yn fusnesau mwy.

67. Yn ôl dadansoddiad cyffredinol a gwblhawyd fel rhan o astudiaeth, pan gafodd cyfranogwyr gynnig ail-lenwadau am ddim ar gyfer diodydd o bob maint, roeddent yn yfed 20.1% yn fwy o galorïau o'i gymharu â'r grwpiau na chawsant gynnig ail-lenwadau[34]. Felly, rhagdybir y byddai'r opsiwn polisi hwn yn gobeithio sicrhau gostyngiad o 20.1% mewn cymeriant calorïau o ddiodydd ysgafn llawn siwgr yn y sector oddi allan i'r cartref, sef tua 0.61kcal fesul person (gweler Atodiad C). Felly, mae gostyngiad o 20.1% yn arwain at ostyngiad 0.12kcal fesul person, bob dydd, gan leihau cymeriant calorïau cyfartalog o ddiodydd ysgafn llawn siwgr yn y sector oddi allan i'r cartref i 12.02kcal. Fodd bynnag, trwy gyflwyno cyfyngiad ar gynigion ail-lenwi am ddim yn unig, mae'n bwysig nodi y gall busnesau osgoi'r polisi trwy gynyddu maint y diodydd er mwyn cadw'r cymhellion i'w cwsmeriaid, gan ddileu effeithiolrwydd y polisi annibynnol hwn. Ar y sail hon, rydym yn rhagdybio bod gan y polisi effeithiolrwydd o 50% yn unig a bod y gostyngiad cyffredinol mewn calorïau yn disgyn i 0.06kcal fesul person bob dydd.

**Opsiwn 2: Cyfyngu ar Faint Diodydd yn unig (i Beint)**

68. Mae ymchwil i'r farchnad diodydd ysgafn wedi awgrymu mai 455ml yw maint cyfartalog diodydd (gweler Atodiad D). Mae diodydd sy'n fwy na pheint yn anghyffredin iawn, felly ni ddisgwylir i'r opsiwn polisi hwn leihau cymeriant calorïau gan unrhyw swm mesuradwy.

**Opsiwn 3: Cyfyngu ar Gynigion Ail-lenwi am Ddim a Maint Diodydd Ar Yr Un Pryd**

69. Mae'r opsiwn hwn yn cyfuno manteision y ddau opsiwn blaenorol. Amcangyfrifwyd y byddai'r cyfyngiad ar ail-lenwi yn arbed 0.12kcal y person, bob dydd. Fodd bynnag, ni fyddai hyn ond yn wir pe bai maint diodydd yn cael eu cyfyngu hefyd, gan atal busnesau rhag cyfnewid eu cymhellion ail-lenwi am ddim i gynnig diodydd sy'n sylweddol fwy o ran maint. Trwy gyflwyno'r ddau bolisi, rydym yn amcangyfrif y byddai'n arbed tua 0.12kcal y person bob dydd ym mhoblogaeth Cymru. O ganlyniad, byddai'r 12.14kcal presennol yn lleihau i 12.02kcal.

70. Cyflwynwyd Opsiwn 3 fel yr opsiwn a ffefrir yn ein hymgynghoriad ar Amgylchedd Bwyd Iach yn 2022. Rydym wedi newid ein safbwynt ar hyn yn dilyn yr ymgynghoriad ac wedi ceisio sicrhau cysondeb â rheoliadau cyfatebol presennol Llywodraeth y DU.

71. Defnyddir model calorïau yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gyfrifo gwerth ariannol manteision lleihau calorïau i iechyd ar sail canfyddiadau yn yr asesiadau effaith yn Lloegr – gweler Atodiad E.

---

[34]The State University of New Jersey, 'Evaluating a Public Health Policy: The Effect of a Sugar-Sweetened Beverage Portion Cap on Food and Beverages Purchased, Calories Consumed and Consumer Perception', https://rucore.libraries.rutgers.edu/rutgers-lib/64657/PDF/1/play/ (tudalen 211)

# 7. Costau a manteision

## Costau Gweinyddol

72. Rhagdybir y bydd asesu cydymffurfiaeth â'r polisi hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymweld â busnesau cymwys ochr yn ochr ag arolygiadau hylendid bwyd, er mwyn gwirio eu cynigion ail-lenwi am ddim a gwirio a oes unrhyw un o'r diodydd SDIL ar gael.

73. Gan dybio y bydd pob Awdurdod Lleol yn treulio tair awr yn ymgyfarwyddo â'r wybodaeth a'i lledaenu i Swyddogion Safonau Masnach eraill,[35] ac mai £29.93 yr awr yw cyflog Swyddog Safonau Masnach, rydym yn amcangyfrif y byddai costau ymgyfarwyddo ar gyfer pob un o'r 22 Awdurdod Lleol oddeutu £2k.

74. Ar sail y rhagdybiaeth y byddant yn ymweld â safleoedd bob 2 flynedd, bydd 2,608 o ymweliadau bob blwyddyn ar sail nifer y safleoedd yng Nghymru (5,215) - gweler Atodiad B. Rydym yn amcangyfrif mai'r amser ychwanegol sydd ei angen ym mhob safle er mwyn gwirio gwaith papur yw 15 munud fesul arolygiad. Rydym yn amcangyfrif mai cyfanswm costau staff i gyflwyno'r rheoliad ar safleoedd yw oddeutu £19.5k y flwyddyn[36].

## Costau Cydymffurfio

75. Ni fyddai'r busnesau oddi allan i'r cartref sy'n cael eu heffeithio gan y cyfyngiadau yn wynebu unrhyw gostau ychwanegol o ran asesu cynhyrchion. Dim ond ar gyfer diodydd yng nghwmpas Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn y bydd cyfyngiadau ar ail-lenwadau am ddim. Felly, byddai busnesau sy'n cynnig ail-lenwi diodydd am ddim ar hyn o bryd eisoes yn gwybod a yw'r diodydd sydd wedi'u melysu â siwgr yn dod o dan Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn[37].

76. Mae'r holl ffigurau isod yn deillio o ddwy ffynhonnell: Asesiad Effaith Lloegr 9560[38] ac Atodiad B.

77. Un gost i fusnesau sy'n cynnig ail-lenwi diodydd am ddim fydd yr amser i ymgyfarwyddo â'r rheoliadau a dosbarthu'r wybodaeth i safleoedd. Rydym yn rhagdybio y bydd gan bob busnes un rheolwr sy'n gyfrifol am ddeall y rheoliadau a sicrhau bod eu safleoedd yn ymwybodol o'r newidiadau. Rydym yn rhagdybio y bydd hyn yn cymryd 3 awr ar gyfartaledd, oherwydd maint amrywiol busnesau. Gan ddefnyddio'r gyfradd gyflog ganolrif fesul awr ar gyfer rheolwr, wedi'i godi 30% i gyfrif am gostau llafur nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau, y gyfradd yw £20.42. Rydym yn nodi siopau cadwyni mawr sy'n cynnig ail-lenwi diodydd, ac yn amcangyfrif bod

[35] Asesiad Effaith Llywodraeth Lloegr: 'Restricting volume promotions for high fat, sugar, and salt (HFSS) products (9560)', Section 304 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1003921/impact-assessment-for-restricting-volume-promotions-for-HFSS-products.pdf (tudalen 57)

[36] Asesiad Effaith Llywodraeth Lloegr: 'Restricting volume promotions for high fat, sugar, and salt (HFSS) products (9560)', Section 303 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1003921/impact-assessment-for-restricting-volume-promotions-for-HFSS-products.pdf (tudalen 57)

[37] Asesiad Effaith Llywodraeth Lloegr: 'Restricting volume promotions for high fat, sugar, and salt (HFSS) products (9560)', https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1003921/impact-assessment-for-restricting-volume-promotions-for-HFSS-products.pdf (tudalen 55)

[38] Asesiad Effaith Llywodraeth Lloegr: 'Restricting volume promotions for high fat, sugar, and salt (HFSS) products (9560)', Section 293 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1003921/impact-assessment-for-restricting-volume-promotions-for-HFSS-products.pdf (tudalen 56)

148 o safleoedd yng Nghymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys Five Guys, Toby Carvery, a rhai safleoedd Subway. Rydym yn caniatáu amcangyfrif o 15% o fusnesau o fewn y dosbarthiad SIC 5610 sy'n cynnig ail-lenwi diodydd am ddim. Felly, mae hyn yn dod â chyfanswm y costau ymgyfarwyddo i £50.2k ar gyfer yr 819 o fusnesau dan sylw yng Nghymru.

78. Hefyd, rhagwelir y bydd gan bob safle 2 weithiwr cyflogedig yn ogystal â'r rheolwr i fod yn gyfrifol am ddeall y rheoliadau. Rydym yn rhagdybio y bydd rheolwr y siop yn briffio'r gweithwyr, ac y bydd y gwaith hwn yn cymryd awr i bob gweithiwr a rheolwr. Amcangyfrifir mai'r gyfradd fesul awr wedi'i chodi ar gyfer y gweithwyr yw £14.60. Mae hyn yn creu cyfanswm o £40.6k (20.42 + 14.60 + 14.60 x 819 o safleoedd).

79. Amcangyfrifir mai cyfanswm y costau cydymffurfio ar gyfer busnesau oddi allan i'r cartref sy'n cynnig ail-lenwi diodydd am ddim yw £90.8k. (£50.2k + £40.6k)

## Costau heb werth ariannol

80. Gostyngiad mewn Gwerthiant ac Elw ar gyfer Busnesau Oddi Allan i'r Cartref:

    Mae busnesau sy'n cynnig ail-lenwadau diodydd am ddim ar hyn o bryd eisoes yn cynnwys diodydd siwgr isel/dim siwgr, fel y dangosir yn glir yn adran 2.1.4. Bydd busnesau oddi allan i'r cartref yn parhau i allu cynnig ail-lenwi'r diodydd hyn am ddim. Byddem yn disgwyl i'r polisi hwn newid dewisiadau rhai cwsmeriaid tuag at ddiodydd siwgr isel/dim siwgr er mwyn manteisio ar y cynnig ail-lenwi am ddim. I'r rhai sy'n parhau i fod eisiau yfed diodydd ysgafn llawn siwgr, byddant yn gallu prynu'r rhain mewn dognau unigol. Gellir disgwyl yn rhesymol i'r ddau newid mewn ymddygiad leihau cymeriant calorïau o yfed diodydd[39] heb gael unrhyw effaith ar werthiant ac elw cyffredinol.

81. Gostyngiad mewn Gwerthiant ac Elw ar gyfer Gweithgynhyrchwyr/Cyflenwyr:

    Mae'n anodd mesur unrhyw ostyngiad posibl mewn gwerthiant i weithgynhyrchwyr oherwydd y newidiadau anhysbys i batrymau yfed diodydd dim siwgr/siwgr isel yn hytrach na diodydd llawn siwgr sy'n cael eu heffeithio gan y polisi hwn. Mae'n debygol y bydd llawer o bobl yn newid i yfed diodydd dim siwgr/siwgr isel er mwyn manteisio ar yr hyrwyddiadau ail-lenwi am ddim sydd ar gael, gan arwain at fwy o alw am gynhyrchu diodydd dim siwgr/siwgr isel. Dylai hyn wneud iawn am unrhyw ostyngiad yng ngwerthiant diodydd llawn siwgr. Mae'n bosibl y bydd gweithgynhyrchwyr yn wynebu costau ail-fformiwleiddio ar gyfer eu diodydd, ond disgwylir i'r costau hyn fod yn isel gan fod y rhan fwyaf eisoes wedi cael eu hail-fformiwleiddio yn barod ar gyfer Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn.

## Manteision

82. Disgwylir y bydd manteision cyfyngu ar ail-lenwi diodydd llawn siwgr am ddim yn cronni trwy:

[39] Asesiad Effaith Llywodraeth Lloegr: 'Restricting volume promotions for high fat, sugar, and salt (HFSS) products (9560)', https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1003921/impact-assessment-for-restricting-volume-promotions-for-HFSS-products.pdf (tudalen 55)

- Ostyngiad mewn pryniannau gormodol a chymeriant caloriau, a gostyngiad canlyniadol yn nifer yr achosion o ordewdra;
- Gostyngiad mewn afiachedd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â gordewdra, gan arwain at lai o gostau i'r GIG, arbedion i'r sector Gofal Cymdeithasol a chynnydd mewn cynnyrch economaidd - sy'n cael eu cyfrifo gan Fodel Caloriau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
- Cynnydd posibl mewn cymeriant eitemau iachach fel diodydd nad ydynt yn cynnwys siwgr.

# Asesiadau Effaith

## Opsiwn 1 – Cyfyngu ar y cynnig i ail-lenwi diodydd wedi'u melysu â siwgr am ddim yn y sector oddi allan i'r cartref.

**Tabl 1: Crynodeb o gostau a manteision – Opsiwn 1 (£'000)**

| Grŵp sy'n cael ei effeithio | Effaith | Gwerth Presennol dros 25 mlynedd<br>£'000 |
|---|---|---|
| Busnesau Oddi Allan i'r Cartref:<br>Gwasanaeth Llawn a Gwasanaeth Cyflym<br>Bwytai | Pontio - Ymgyfarwyddo | -48 |
| | Pontio - Rhannu Gwybodaeth | -39 |
| | Elw a Gollir | 0 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Fusnesau** | | **-88** |
| Llywodraeth | Arbedion i'r GIG | 310 |
| | Arbedion Gofal Cymdeithasol | 248 |
| | Ymgyfarwyddo | -2 |
| | **Gorfodi** | -321 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Lywodraeth** | | **235** |
| Cymdeithas Ehangach | Manteision Iechyd | 1766 |
| | Cynnyrch Economaidd | 43 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Gymdeithas Ehangach** | | **1,809** |
| **Gwerth Presennol dros 25 mlynedd** | | **1,956** |

**Opsiwn 3 – Cyfyngu ar gynigion i ail-lenwi diodydd wedi'u melysu â siwgr am ddim a chynyddu maint diodydd o'r fath yn y sector oddi allan i'r cartref.**

**Tabl 2: Crynodeb o gostau a manteision – Opsiwn 3 (£'000)**

| **Grŵp sy'n cael ei effeithio** | **Effaith** | **£'000** |
|---|---|---|
| Busnesau Oddi Allan i'r Cartref: | Pontio - Ymgyfarwyddo | -48 |
| Gwasanaeth Llawn a Gwasanaeth Cyflym | Pontio - Rhannu Gwybodaeth | -39 |
| Bwytai | Elw a Gollir | 0 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Fusnesau** | | **-88** |
| Llywodraeth | Arbedion i'r GIG | 621 |
| | Arbedion Gofal Cymdeithasol | 496 |
| | Ymgyfarwyddo | -2 |
| | **Gorfodi** | -321 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Lywodraeth** | | **794** |
| Cymdeithas Ehangach | Manteision Iechyd | 3532 |
| | Cynnyrch Economaidd | 85 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Gymdeithas Ehangach** | | **3,617** |
| **Gwerth Presennol Net** | | **4,323** |

# ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

# CYNNIG 3 - CYFLWYNO CYNNYRCH

### Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir

| | | |
|---|---|---|
| Cyfyngu ar gyflwyno cynhyrchion sydd â sgôr 'llai iach' ar sail y Model Proffilio Maetholion (NPM) ac sy'n peri'r pryder mwyaf o safbwynt gordewdra ymhlith plant mewn lleoliadau allweddol fel mynedfeydd siopau yn y sector manwerthu ac eithrio busnesau bach a micro. | | |
| **Yr opsiwn a ffefrir:** ***Opsiwn 2:*** **Cyfyngu ar gyflwyno cynhyrchion sydd â sgôr 'llai iach' ar sail y Model Proffilio Maetholion (NPM), ac sy'n peri'r pryder mwyaf o safbwynt gordewdra ymhlith plant (rhestr symlach), wrth fynedfeydd siopau, wrth y desgiau talu ac ar ben yr eiliau yn y sector manwerthu**. | | |
| **Cam:** Cyflwyno | **Cyfnod arfarnu:** 2024 – 2048 | **Blwyddyn sail brisiau:** 2024 |
| **Cyfanswm y Gost**<br>**Gwerth presennol: £398m** | **Cyfanswm y Manteision**<br>**Gwerth presennol: £5,338m** | **Gwerth Presennol Net:**<br>**£4,940m** |

### Cost weinyddol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Costau:** Rydym yn rhagdybio y bydd cost bontio fach. Bydd angen 3 awr ar swyddogion Safonau Masnach ym mhob un o'r 22 Awdurdod Lleol i ymgyfarwyddo â'r rheoliad a'r cynhyrchion y mae'n gymwys iddynt. Yn seiliedig ar gyfradd o £29.93 yr awr ar gyfer Swyddog Safonau Masnach (gweler Atodiad A), y costau ymgyfarwyddo fyddai £1,975.<br><br>Rhagdybir y byddant yn ymweld â Siopau Manwerthu bob 2 flynedd. Rydym yn amcangyfrif y bydd 1031 o ymweliadau bob blwyddyn, gweler Atodiad B. Rhagdybir y bydd angen neilltuo 15 munud o'r ymweliad i adolygu cydymffurfiaeth â'r rheoliadau hyn ar gost o £7,714 y flwyddyn. Dros gyfnod o 25 mlynedd rydym yn amcangyfrif mai cyfanswm y costau gorfodi ar safleoedd fydd £192,861<br><br>Costau pontio – 22 x 3 x £29.93 = £1,975<br><br>Costau parhaus - 1031 x 0.25 x £29.93 = £7,714 x 25 = £192,850 | | | |
| **Pontio: £2k** | **Cylchol: £192.9k** | **Cyfanswm: £194.8k** | **Gwerth Presennol: £129k** |
| **Arbedion cost:** Amherthnasol | | | |
| **Pontio: £** | **Cylchol: £** | **Cyfanswm: £** | **Gwerth Presennol: £** |
| **Cost weinyddol net: £194.8k** | | | |

**Costau cydymffurfio**

| |
|---|
| Cyfrifwyd y costau yn yr adran hon gan Dîm Gordewdra Ymhlith Plant yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth ddatblygu Asesiad Effaith 9561[40] yn Lloegr. Rhagdybir bod y costau yng Nghymru yn 6% o'r costau yn Lloegr ac maent wedi'u huwchraddio o brisiau 2019 i rai 2024 gan ddefnyddio datchwyddydd GDP y Swyddfa Ystadegau Gwladol (1.208)[41]. Mae'r costau hyn yn seiliedig yn bennaf ar amser staff ar sail eu cyfraddau fesul awr.<br><br>Bydd Manwerthwyr yn ysgwyddo costau cydymffurfio pontio. Bydd y costau hyn yn cynnwys yr amser i ymgyfarwyddo â'r rheoliadau newydd, asesu pa gynhyrchion a fydd yn cael eu heffeithio, a rhannu'r wybodaeth hon â staff. Hefyd, bydd costau mwy sylweddol yn gysylltiedig â chynllun siopau yn ogystal â gwneud newidiadau i systemau TG.<br><br>Mae costau cydymffurfio parhaus yn gysylltiedig ag asesu cynhyrchion newydd neu gynhyrchion sydd wedi'u hail-fformiwleiddio, ac maent yn rhagdybio y bydd cynhyrchion yn cael eu hasesu bob 2 flynedd a bydd y canlyniadau'n cael eu rhannu â'r busnes.<br><br>Ymgyfarwyddo, dosbarthu, rhannu gwybodaeth gyda staff a newidiadau i systemau TG £154.5k (£2.132m x 6% = £0.128m x 1.208 = £154.5k)<br><br>Asesiad cychwynnol o gynhyrchion £224.7k (£3.1m x 6% = £186k x 1.208 = £224.7k)<br><br>Cynllunio ac aildrefnu siopau £3.05m (£42.1m x 6% = £2.526m x 1.208 = £3.05m)<br><br>Asesu cynhyrchion yn barhaus am 25 mlynedd £1.25m (£17.3m x 6% = £1.04m x 1.208 = £1.25m) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pontio: £3.43m** | **Cylchol: £1.25m** | **Cyfanswm: £4.68m** | **Gwerth Presennol: £4.1m** |

[40] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/61095bfcd3bf7f044d7ad7f8/impact-assessment-restricting-checkout-end-of-aisle-and-store-entrance-sales-of-HFSS.pdf (tudalennau 79-82 gan ddefnyddio amcangyfrifon canolog)

[41] https://www.gov.uk/government/statistics/gdp-deflators-at-market-prices-and-money-gdp-march-2024-quarterly-national-accounts

**Costau eraill**

| |
|---|
| Cyfrifwyd y costau yn yr adran hon gan Dîm Gordewdra Ymhlith Plant yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth ddatblygu Asesiad Effaith 9561[42] yn Lloegr. Fel yr uchod, rhagdybir y bydd y costau yng Nghymru yn 6% o'r costau yn Lloegr, ac maent wedi'u huwchraddio o brisiau 2019 i rai 2024 gan ddefnyddio datchwyddydd GDP y Swyddfa Ystadegau Gwladol (1.208) [43].<br><br>Disgwylir i fanwerthwyr osod cynhyrchion mewn lleoliadau a fydd yn gwneud y mwyaf o elw. O ganlyniad, disgwylir y bydd unrhyw gyfyngiad ar eu gallu i wneud hyn yn lleihau eu helw. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi datblygu methodoleg i asesu'r effaith ar werthiant ac elw manwerthu wrth y desgiau talu, ar ben yr eiliau ac wrth fynedfeydd siopau. Mae'r effaith yn cael ei gwrthbwyso'n rhannol trwy'r cynnydd yng ngwerthiant cynhyrchion eraill yn y prif leoliadau hyn a'r cynnydd yng ngwerthiant cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen o'r eiliau. Amcangyfrifwyd bod elw gwerth £3,591m wedi'i golli yn Lloegr dros 25 mlynedd. I Gymru, byddai'r ffigur cyfatebol yn £260.3m (£3,591m x 6% = £215.46m x 1.208 = £260.3m).<br><br>Bydd gweithgynhyrchwyr cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen sy'n cyflenwi'r manwerthwyr yn colli gwerthiant ac felly elw. Bydd hyn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan enillion ar gyfer gweithgynhyrchwyr cynhyrchion sydd heb lefelau uchel o fraster, siwgr a halen. Amcangyfrifwyd bod elw net a gollwyd i weithgynhyrchwyr yn Lloegr yn £1,840m dros 25 mlynedd (£2,307m wedi'i golli a £467m wedi'i ennill). I Gymru, byddai'r ffigur net cyfatebol yn £133.4m (£1,840m x 6% = £110.4m x 1.208 = £133.4m) yn nhermau gwerth presennol. |

| Pontio: £0 | Cylchol: £630m | Cyfanswm: £630m | Gwerth Presennol: £393.7m |
|---|---|---|---|

**Costau heb eu meintioli ac anfanteision**

| |
|---|
| Ail-fformiwleiddio: Gall gweithgynhyrchwyr ail-fformiwleiddio cynhyrchion i'w hyrwyddo mewn lleoliadau cyfyngedig. Gallai costau ail-fformiwleiddio amrywio'n sylweddol o un cynnyrch i'r llall ac nid ydynt wedi'u cofnodi yma.<br><br>Cysylltiadau rhwng manwerthwyr/gweithgynhyrchwyr: Gall cysylltiadau masnachol rhwng manwerthwyr a gweithgynhyrchwyr fod yn gymhleth ac maent y tu hwnt i gwmpas y cyfrifiadau yma.<br><br>Cyflenwyr Cynhwysion: Nid yw gwerth elw coll ar gyfer cyflenwyr cynhwysion wedi'i gyfrifo gan ei fod yn effaith eilaidd ac mae'n bosibl y gallai ffactorau eraill achosi'r effaith.<br><br>Ar ben yr eiliau: Yng Nghymru, cyfyngir ar gyflwyno cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen sydd o fewn cwmpas y rheoliadau ar ben *pob* eil. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i reoliadau cyfatebol yn Lloegr lle mae cyfyngiadau'n gymwys i ben yr eil sy'n gyfagos i brif lwybr cwsmeriaid trwy'r siop yn unig. Mae adborth i'r ymgynghoriad gan fanwerthwyr yn awgrymu na fydd y gwahaniaeth hwn rhwng rheoliadau yng Nghymru a Lloegr yn cael effaith ymarferol ar gyflwyno'r rheoliad gan y byddai manwerthwyr yn cyflwyno'r cyfyngiadau ar ben pob eil waeth beth fo lleoliad yr eil yn y siop. |

[42] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/61095bfcd3bf7f044d7ad7f8/impact-assessment-restricting-checkout-end-of-aisle-and-store-entrance-sales-of-HFSS.pdf (tudalen 11, paragraff 14)
[43] https://www.gov.uk/government/statistics/gdp-deflators-at-market-prices-and-money-gdp-march-2024-quarterly-national-accounts

**Manteision**

| |
|---|
| Ar gyfer Opsiwn 2, amcangyfrifir y bydd y GIG yn arbed oddeutu £316.3m (£4,364m x 6% = £262m x 1.208 = £316.3m) dros y cyfnod asesu 25 mlynedd. Hefyd, byddai lefelau is o afiachedd yn arbed costau i'r GIG. Byddai modd sicrhau manteision iechyd ychwanegol i'r boblogaeth trwy ailfuddsoddi'r arbedion hyn yn ôl yn GIG, ac amcangyfrifir y byddent yn arbed tua £4,175m (£57,600m x 6% = £3,456m x 1.208 = £4,175m). Byddai'r sector gofal cymdeithasol yn arbed £354.8m (£4,896m x 6% = £293.8 x 1.208 = £354.8m) a byddai disgwyl i lai o farwolaethau cynamserol ddarparu cynnyrch economaidd ychwanegol gwerth £492m (£6,788m x 6% = £407m x 1.208 = £492m) trwy gynyddu nifer y bobl sy'n rhan o'r gweithlu. |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm: £5,338m** | **Gwerth Presennol: £5,338m** |

**Tystiolaeth, rhagdybiaethau a ffactorau ansicr allweddol**

| |
|---|
| Mae'r brif dystiolaeth sylfaenol yn deillio o waith a gafodd ei wneud gan Dîm Gordewdra Ymhlith Plant yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth ddatblygu Asesiadau Effaith 13012[44] a 9561[45]. Y brif ragdybiaeth yw bod y fethodoleg a'r rhagdybiaethau sy'n sylfaen i'r gwaith hwn ar gyfer Lloegr yr un mor ddilys yng Nghymru. Rhagdybir y bydd modd allosod canlyniadau Cymru drwy gymhwyso ffactor o 6%. Hefyd, mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod busnesau bach sydd ag arwynebedd llawr o lai na 185.8$^2$m a busnesau arbenigol e.e. manwerthwyr siocled yn cael eu heithrio o'r cwmpas. Mae amrywiaeth eang o ffactorau yn gallu dylanwadu ar gostau a manteision, ac mae'n bosibl y bydd defnyddwyr yn addasu eu cymeriant neu eu hymddygiad prynu mewn ymateb i fwyta llai o galorïau. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar dri senario sy'n cofnodi ystod yr ymateb o ddim ymddygiad addasol i 100%. Y cynnig canolog yw ymddygiad disodli o 40%. |

[44] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/770706/impact-assessment-restricting-checkout-end-of-aisle-and-store-entrance-sales-of-HFSS.pdf

[45] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1003920/impact-assessment-restricting-checkout-end-of-aisle-and-store-entrance-sales-of-HFSS.pdf

**Cyfran o'r farchnad a gwerthiant**

83. Roedd y deg prif fanwerthwr yn gyfrifol am 90% o werthiant nwyddau groser Cymru yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2024. Mae'r gyfran hon o'r farchnad yn cynnwys gwerthiant rhai eitemau nad ydynt yn fwyd a diod, fel cynhyrchion iechyd a harddwch. Fodd bynnag, disgwylir eu bod yn adlewyrchiad rhesymol o'r gyfran o'r farchnad bwyd yn unig. Yn 2023, gwerth marchnad manwerthu bwyd Cymru oedd tua £6.94bn. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchion a brynwyd mewn siopau ac ar-lein. Mae'r pandemig wedi cyflymu'r broses o drawsnewid y farchnad fwyd a nwyddau groser, ac mae twf wedi deillio o siopau disgownt a chynigion ar-lein.[46]

**Tabl 1: Cyfran Marchnad Nwyddau Groser Cymru: 52 wythnos/hyd at 20 Mawrth 2022[47]**

| | |
|---|---|
| Tesco | 28.8% |
| Asda | 13.7% |
| Aldi | 8.9% |
| Morrisons | 8.2% |
| Lidl | 7.3% |
| Siopau Bargen | 6.5% |
| Sainsbury's | 6.1% |
| Coop | 4.3% |
| M&S | 3.1 % |
| Iceland | 2.8 % |
| Waitrose | 1.8% |
| Siopau Annibynnol a Symbol | 1.2% |
| Rhyngrwyd | 1.1% |
| Siopau eraill | 6.2% |
| | 100.0% |

84. Er mwyn cyfrifo nifer y siopau y mae'r rheoliadau yn gymwys iddynt, mae'r sector wedi'i rannu yn ôl maint y busnesau a maint y siopau yn seiliedig ar arwynebedd llawr. Mae Tabl 2 a 3 yn dangos y sector manwerthu nwyddau groser wedi'i rannu yn ôl maint; micro (0-9 o weithwyr), bach (10-49 o weithwyr), canolig (50-249 o weithwyr) a mawr (dros 250 o weithwyr), ac yn ôl maint y siop.

85. Mae'r tablau yn dangos rhywfaint o wybodaeth am faint y sector o ran busnesau a safleoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r cyfrifiadau yn yr asesiad effaith yn

[46] https://www.igd.com/articles/article-viewer/t/uk-food-and-grocery-market-to-grow-10-by-2022/i/26531
[47] Kantar Total Wales Grocery | Retailer Share and Growth | 52 wythnos yn gorffen 20 Mawrth 2022

defnyddio data o Asesiadau Effaith Lloegr gan nad yw sefyllfa a phroffil y sector yng Nghymru yn ddigon gwahanol i Loegr pan fydd y busnesau llai yn cael eu heithrio.

**Tabl 2: Amcangyfrif o nifer y Busnesau Nwyddau Groser yng Nghymru yn ôl maint ac arwynebedd llawr**

| | 1-999 sq ft | 1000-1999 sq ft | 2000-3000 sq ft | >3000 sq ft | |
|---|---|---|---|---|---|
| Micro | 1,011 | 667 | 360 | - | 2,039 |
| Small | 100 | 66 | 35 | - | 201 |
| Medium | - | - | 14 | - | 14 |
| Large | - | - | - | 8 | 8 |
| Total | 1,111 | 733 | 410 | 8 | 2,261 |

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

**Tabl 3: Amcangyfrif o nifer y Safleoedd Nwyddau Groser yng Nghymru yn ôl maint ac arwynebedd llawr**

| 6% | 1-999 sq ft | 1000-1999 sq ft | 2000-3000 sq ft | >3000 sq ft | |
|---|---|---|---|---|---|
| Micro | 1,150 | 590 | 223 | - | 1,963 |
| Small | 444 | 316 | 248 | - | 1,008 |
| Medium | - | - | 72 | - | 72 |
| Large | 360 | 329 | 94 | 515 | 1,298 |
| Total | 1,954 | 1,235 | 636 | 515 | 4,341 |

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

**Cyflwyno**

86. Y nod yw lleihau faint o gynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen sy'n cael eu bwyta ac annog busnesau i hyrwyddo cynhyrchion iachach a darparu cymhelliant arall ar gyfer ail-fformiwleiddio.

87. Bwriad cyfyngu ar gyflwyno cynhyrchion bwyd a diod â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen mewn lleoliadau gwerthu allweddol fel mynedfeydd siopau, desgiau talu ac ar ben yr eiliau yw:

- Lleihau gorfwyta/goryfed cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen sy'n debygol o arwain at gymeriant calorïau gormodol a, thros amser, ennill pwysau, a lleihau'r effaith ar eitemau bwyd a brynir nad ydynt yn cyfrannu at ordewdra ymhlith plant;
- Lleihau pŵer plagio i rieni a phrynu cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen yn fyrbwyll sy'n deillio o'u lleoli mewn lleoliadau amlwg;
- Newid pwyslais hyrwyddiadau tuag at opsiynau iachach a chynyddu nifer y cynhyrchion iachach sydd ar gael drwy gynnig arbennig, i'w gwneud yn haws i rieni wneud dewisiadau iachach wrth siopa ar gyfer eu teuluoedd;
- Cynorthwyo y strategaeth ehangach gordewdra ymhlith plant er mwyn lleihau amgylchiadau sy'n cyfrannu at yr amgylchedd sy’n hyrwyddo gordewdra ar hyn o bryd;
- Creu sefyllfa o chwarae teg lle nad yw siopau sy'n gwneud cynnydd gwirfoddol yn cael eu cosbi mwyach.

# 6. Opsiynau

## Opsiwn 0 – Busnes fel Arfer

88. Dyma'r senario busnes fel arfer a ddefnyddir i asesu pob opsiwn arall. Mae Opsiwn 0 yn rhagdybio na fydd unrhyw newidiadau yng nghyfraddau oed-benodol gorbwysau a gordewdra, ond mae'n rhagdybio y bydd BMI cyfartalog carfanau o unigolion yn cynyddu dros amser wrth iddynt fynd yn hŷn. Mae'r cynnydd hwn mewn BMI cyfartalog yn seiliedig ar amcangyfrifon wedi'u modelu o brofiadau presennol. O dan y senario gwneud dim, byddai sawl archfarchnad yn parhau i gyfyngu ar hyrwyddiadau cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen penodol wrth y desgiau talu yn wirfoddol, a byddai disgwyl i'r rhai nad ydynt yn cyfyngu ar hyrwyddiadau ar hyn o bryd barhau i wneud hynny.

89. Bydd polisïau eraill sydd eisoes ar waith fel y rhaglen lleihau siwgr wirfoddol ac Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn yn parhau i gymell busnesau i ail-fformiwleiddio eu cynhyrchion i leihau eu cynnwys siwgr.

90. Oherwydd y nifer sylweddol o elfennau ansicr y byddai angen eu hystyried, nid yw'r senario gwneud dim yn yr Asesiad Effaith hwn yn ceisio mesur effaith yn y dyfodol y polisïau a gyhoeddwyd eisoes nac unrhyw gamau gweithredu posibl eraill gan y llywodraeth yn y dyfodol.

## Opsiwn 1 - Gwahardd cyflwyno eitemau bwyd a diod sydd â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen sydd wedi’u cynnwys yn Rhaglen Lleihau Siwgr Iechyd Cyhoeddus Lloegr ac Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn, sy’n cyfrannu lefelau sylweddol o siwgr a chalorïau at ddeietau plant, wrth fynedfeydd siopau, wrth y desgiau talu ac ar ben yr eiliau yn y sector manwerthu, ac eithrio busnesau bach a micro.

91. dan Opsiwn 1, byddai manwerthwyr yn cael eu hatal rhag gosod cynhyrchion bwyd a diod sydd â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen, sydd wedi’u cynnwys yn Rhaglen Lleihau Siwgr Iechyd Cyhoeddus Lloegr ac Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn, sy’n cyfrannu lefelau sylweddol o siwgr a chalorïau at ddeietau plant, wrth fynedfeydd siopau, desgiau talu ac ar ben yr eiliau. Byddai bwydydd â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen yn cael eu diffinio trwy ddefnyddio Model Proffilio Maetholion (NPM) 2004/05.[48]

92. Mae rhestr o'r categorïau o gynnyrch sydd wedi'u cynnwys yn yr opsiwn hwn i'w gweld yn Opsiwn 1 yn Atodiad I.

93. Byddai manwerthwyr arbenigol nad ydynt ond yn gwerthu math penodol o gynnyrch â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen sydd wedi'i gynnwys yn y categorïau perthnasol (e.e. losin) yn cael eu heithrio o'r cyfyngiadau lleoliad, gan y byddai'n anymarferol iddynt weithredu'r polisi hwn ac y byddai'n debygol o darfu ar eu busnes mewn ffordd nad oes modd ei rheoli.

94. Byddai cyflwyno cynnyrch yn y sector oddi allan i'r cartref yn cael ei eithrio. Mae nifer o rwystrau ymarferol yn atal cymhwyso'r rheoliad ar safleoedd bwyd oddi allan i'r cartref. Yn gyntaf, gan fod bwyd yn y sector oddi allan i'r cartref yn tueddu i fod yn fwyd heb ei becynnu, byddai heriau ymarferol yn codi wrth gyfrifo sgôr Model Proffilio

[48] Gweler https://www.gov.uk/government/publications/the-nutrient-profiling-model

Maetholion (NPM) cynhyrchion, oherwydd diffyg gwybodaeth am faeth ar y pecynnau. Hefyd, yn wahanol i fanwerthwyr bwyd, nid oes gan safleoedd bwyd oddi allan i'r cartref lawer o eiliau i symud yr eitemau iddynt. Am y rhesymau hyn, cafodd safleoedd bwyd oddi allan i'r cartref eu heithrio.

**Opsiwn 2 - Gwahardd cyflwyno cynhyrchion sydd â sgôr 'llai iach' ar sail y Model Proffilio Maetholion (NPM), ac sy'n peri'r pryder mwyaf o safbwynt gordewdra ymhlith plant (rhestr symlach), wrth fynedfeydd siopau, wrth y desgiau talu ac ar ben yr eiliau yn y sector manwerthu**

95. Byddai'r un eithriadau a drafodwyd uchod ar gyfer Opsiwn 1 yn gymwys i Opsiwn 2 hefyd.

96. O dan Opsiwn 2, byddai manwerthwyr yn cael eu hatal rhag lleoli cynhyrchion bwyd a diod sydd â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen sy'n cyfrannu symiau sylweddol o siwgr a chaloríau at ddeietau plant ac sy'n peri'r pryder mwyaf o safbwynt gordewdra ymhlith plant, wrth fynedfeydd siopau, desgiau talu ac ar ben yr eiliau. Mae rhestr o'r categorïau o gynnyrch sydd wedi'u cynnwys yn yr opsiwn hwn i'w gweld yn Opsiwn 2 yn Atodiad I.

97. Trwy ddefnyddio rhestr symlach o gynhyrchion o gymharu ag opsiwn 1, mae'r Rheoliadau'n targedu'r cynhyrchion sy'n cyfrannu symiau sylweddol o siwgr a chaloríau at ddeietau plant, sy'n lleihau costau i fusnesau, ac felly'n sicrhau dull gweithredu mwy cymesur.  Am y rheswm hwn, mae Opsiwn 2 wedi'i ddewis fel yr opsiwn a ffefrir.

**Costau a manteision**

98. Disgwylir y bydd manteision cyfyngu ar hyrwyddo cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen yn cronni trwy:

- Ostyngiad mewn gorbrynu a chymeriant caloríau, gyda gostyngiad canlyniadol yn nifer yr achosion o ordewdra;
- Gostyngiad mewn afiachedd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â gordewdra, gan arwain at lai o gostau i'r GIG a chynnydd mewn cynnyrch economaidd;
- Cynnydd posibl mewn cymeriant eitemau iachach, gan arwain at ragor o fanteision iechyd.

Y prif gategorïau o gostau i'w hystyried yw:

- Costau pontio sy'n gysylltiedig ag asesu cynhyrchion a deall y rheoliad;
- Manwerthwyr yn gwneud llai o elw oherwydd eu bod yn gwerthu llai o fwyd a diod sydd â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen;
- Gweithgynhyrchwyr bwyd a diod â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen yn gwneud llai o elw oherwydd gostyngiad mewn gwerthiant.

99. Gallai ffactorau ehangach gael dylanwad mawr ar faint y costau a'r manteision. Mae'n bosibl, er enghraifft, y gallai defnyddwyr addasu eu cymeriant neu eu hymddygiad prynu mewn ymateb i fwyta llai o galoríau. Mae'r math hwn o newid ymddygiad yn ffynhonnell ansicrwydd sylweddol yn y dadansoddiad a gallai gael effaith sylweddol ar y gwerth net presennol a amcangyfrifir. O ganlyniad, yn gyntaf

rydym yn amcangyfrif costau a manteision pob opsiwn ar sail dim ymddygiad addasol ac yna'n addasu'r ffigurau hyn i greu senario canolog yn seiliedig ar ragdybiaeth o ymddygiad disodli o 40%.

100. Mae'r ffigurau a gyflwynir yn seiliedig ar yr amcangyfrif canolog, sy'n rhagdybio bod ymddygiad addasol gan ddefnyddwyr a'r diwydiant yn golygu bod 40% o'r calorïau sy'n cael eu tynnu o ddeiet pobl yn cael eu disodli.

101. Mae gwerthoedd net presennol yr opsiynau yn cael eu hasesu dros gyfnod o 25 mlynedd. Mae hwn yn gyfnod llawer hirach na'r cyfnod asesu 10 mlynedd arferol a ddefnyddir mewn asesiadau effaith. Mae salwch sy'n gysylltiedig â gorbwysau neu ordewdra yn tueddu i ddatblygu yn ddiweddarach mewn bywyd. Felly, mae cyfnod hirach nag arfer wedi'i ddewis i sicrhau bod manteision y rheoliadau hyn yn cael eu cofnodi yn ein dadansoddiad.

102. Yn Opsiwn 2, amcangyfrifon canolog cyfanswm gwerth net presennol y costau i lywodraeth a'r diwydiant yw oddeutu £432m. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm y manteision o tua £5.37 biliwn. Dros 25 mlynedd, mae'r costau disgwyliedig i fanwerthwyr yn cynnwys costau pontio gwerth £3.3m, ac oddeutu £260.3m mewn elw a gollir. Dros y cyfnod hwn, byddai gweithgynhyrchwyr cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen hefyd yn colli cyfanswm o tua £167m mewn elw tra byddai elw gweithgynhyrchwyr cynhyrchion heb lefelau uchel o fraster, siwgr a halen yn cynyddu £34m.

**Asesiadau Effaith**

**Opsiwn 1 - Gwahardd cyflwyno eitemau bwyd a diod sydd â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen sydd wedi'u cynnwys yn Rhaglen Lleihau Siwgr Iechyd Cyhoeddus Lloegr ac Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn, sy'n cyfrannu lefelau sylweddol o siwgr a chaloriau at ddeiet plant, wrth fynedfeydd siopau, wrth y desgiau talu ac ar ben yr eiliau yn y sector manwerthu ac eithrio busnesau bach a micro.**

**Tabl 2: Crynodeb o gostau a manteision – Opsiwn 1 (£m)**

| **Grŵp sy'n cael ei effeithio** | **Effaith** | **Amcangyfrif Canolog (ymddygiad disodli 40%)** |
|---|---|---|
| Manwerthwyr | Pontio – Ymgyfarwyddo, Dosbarthu a newidiadau i systemau TG | -0.15 |
| | Pontio – Asesu Cynhyrchion | -0.22 |
| | Pontio - Cynllunio ac Aildrefnu Siopau | -2.95 |
| | Parhaus - Asesu Cynhyrchion | -0.82 |
| | Elw net a gollir | -272.5 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Fanwerthwyr** | | **-276.6** |
| Gweithgynhyrchwyr Cynhyrchion â Lefelau Uchel o Fraster, Siwgr a Halen | Elw net a gollir | -185 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Weithgynhyrchwyr Cynhyrchion â Lefelau Uchel o Fraster, Siwgr a Halen** | | **-185** |
| Gweithgynhyrchwyr eraill | Elw a Enillir | 37 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Weithgynhyrchwyr Cynhyrchion Heb Lefelau Uchel o Fraster, Siwgr a Halen** | | **37** |
| Llywodraeth | Arbedion i'r GIG | 351 |
| | Arbedion Gofal Cymdeithasol | 391 |
| | Safonau Masnach - Gorfodi | -0.013 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Lywodraeth** | | **741.5** |
| Cymdeithas Ehangach | Manteision Iechyd | 4,624 |
| | Cynnyrch Economaidd | 545 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Gymdeithas Ehangach** | | **5,168** |
| **Gwerth Presennol Net** | | **5,485** |

**Opsiwn 2 - Gwahardd cyflwyno cynhyrchion sy'n 'llai iach' yn ôl y Canllawiau Technegol Proffilio Maetholion, ac sy'n peri'r pryder mwyaf o safbwynt gordewdra ymhlith plant (rhestr symlach), wrth fynedfeydd siopau, wrth y desgiau talu ac ar ben yr eiliau yn y sector manwerthu**

**Tabl 3: Crynodeb o gostau a manteision – Opsiwn 2 (£m)**

| **Grŵp sy'n cael ei effeithio** | **Effaith** | **Amcangyfrif Canolog (ymddygiad disodli 40%)** |
|---|---|---|
| Manwerthwyr | Pontio – Ymgyfarwyddo, dosbarthu a newidiadau i systemau TG | -0.15 |
| | Pontio - Asesu Cynhyrchion | -0.22 |
| | Pontio - Cynllunio ac Addasu Siopau | -2.95 |
| | Parhaus - Asesu'r Cynnyrch | -0.82 |
| | Elw net a gollir | -260.3 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Fanwerthwyr** | | **-264.5** |
| Gweithgynhyrchwyr Cynhyrchion â Lefelau Uchel o Fraster, Siwgr a Halen | Elw a Gollir | -167.2 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Weithgynhyrchwyr Cynhyrchion â Lefelau Uchel o Fraster, Siwgr a Halen** | | **-167.2** |
| Gweithgynhyrchwyr eraill | Elw a Enillir | 33.8 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Weithgynhyrchwyr Cynhyrchion Heb Lefelau Uchel o Fraster, Siwgr a Halen** | | **33.8** |
| Llywodraeth | Arbedion i'r GIG | 316.3 |
| | Arbedion Gofal Cymdeithasol | 354.8 |
| | Safonau Masnach – Ymgyfarwyddo a Gorfodi | -0.131 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Lywodraeth** | | **671** |
| Cymdeithas Ehangach | Manteision Iechyd | 4,175 |
| | Cynnyrch Economaidd | 492 |
| **Cyfanswm yr Effaith ar Gymdeithas Ehangach** | | **4,667** |
| **Gwerth Presennol Net** | | **4,940** |

**CYNNIG 4 – CYFLWYNO CYNNYRCH AR-LEIN**

103. Rhagdybir bod effeithiau cyflwyno cynnyrch ar-lein yn cael eu cwmpasu gan yn yr asesiad effaith ar gyfer Cynnig 3 sy'n ymwneud â chyflwyno cynnyrch mewn siopau. Mae gwerthiant ar-lein yn gyfrifol am tua 10-12% o'r holl farchnad. Mae'r cyfyngiad hwn yn gyson â rheoliadau cyfatebol presennol yn Lloegr. Felly, nid ydym yn disgwyl y bydd busnesau sydd o fewn cwmpas y rheoliad ac sy'n gweithredu ledled Prydain yn ysgwyddo costau ychwanegol wrth gydymffurfio â'r agwedd hon ar y Rheoliadau.

## 8. Prawf Hidlo'r Gystadleuaeth

104. Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gwblhau ar gyfer pob un o'r cynigion a amlinellir yn Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025. Mae'r tabl isod yn cynnwys crynodeb o'r prawf.

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb**<br>**(cadarnhaol neu negyddol)** |
| **C1:** Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad? | Oes |
| **C2:** Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 20% o gyfran y farchnad? | Oes |
| **C3:** Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd 50% o gyfran y farchnad o leiaf? | Oes |
| **C4:** A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn sylweddol fwy nag eraill? | Byddent |
| **C5:** A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer y cwmnïau neu faint y cwmnïau? | Nac ydy |
| **C6:** A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, ac a yw'r rhain yn gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C7:** A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, ac a yw'r rhain yn gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8:** A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector? | Nac ydy |
| **C9:** A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion? | Byddai |

105. Yn ôl data Kantar, yn debyg iawn i farchnad y DU, mae gan nifer fach o fusnesau mawr bŵer marchnad yn y sector nwyddau groser yng Nghymru. Ni ddisgwylir i'r rheoliadau hyn gael effaith uniongyrchol ar nifer y busnesau yn y sector nac ar gyfran y farchnad. Er y gall y gost i fusnesau unigol amrywio, disgwylir y bydd hyn yn adlewyrchu cyfran y farchnad a nifer y cynhyrchion a werthir. Ar ôl eithrio

busnesau bach a micro o'r gofynion yn ymwneud â lleoli cynnyrch, nid ydym yn rhagweld y bydd y rheoliadau yn cael unrhyw effaith anghymesur.

106. Bydd y rheoliadau'n cyfyngu ar allu manwerthwyr i ddewis pris cynhyrchion penodol, a'u lleoliad mewn siopau. Fodd bynnag, bydd manwerthwyr yn gallu cystadlu mewn ffyrdd eraill (gan gynnwys pris absoliwt).

107. Rhoddir rhagor o ystyriaeth i'r effeithiau hyn fel rhan o'r adolygiadau ôl-weithredu ar gyfer y Rheoliadau.

## 9.Adolygiad ôl-weithredu

108. Mae'r Rheoliadau yn cynnwys cymal adolygiad statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad o'r darpariaethau rheoleiddiol sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau o dro i dro, a bod adroddiad yn cael ei gyhoeddi sy'n amlinellu casgliadau'r adolygiad. Rhaid i'r adroddiad cyntaf gael ei gyhoeddi cyn i'r cyfnod 5 mlynedd ddod i ben gan ddechrau ar y diwrnod pan ddaw'r Rheoliadau i rym. Rhaid i adroddiadau dilynol gael eu cyhoeddi o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

109. Yn ogystal, o dan adran 67 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008, rhaid cwblhau adolygiad ôl-weithredu mewn perthynas â'r pwerau a roddwyd i'r rheoleiddiwr i gyhoeddi cosbau ariannol penodedig. Hefyd, rhaid i'r adroddiad hwn ystyried a yw'r Rheoliadau wedi cyflawni eu hamcanion yn effeithlon ac yn effeithiol. Rhaid cyhoeddi canlyniadau'r adolygiad a chyflwyno copi gerbron Senedd Cymru. Rhaid cynnal yr adolygiad cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl y cyfnod tair blynedd, gan ddechrau ar y diwrnod pan ddaw'r Rheoliadau i rym.

110. Bydd ein hadolygiadau ôl-weithredu yn ystyried effeithiau'r polisi ar grwpiau gwahanol, gan gynnwys gweithgynhyrchwyr, manwerthwyr, cyrff gorfodi a defnyddwyr. Byddant yn ystyried effeithiau arfaethedig y polisi mewn perthynas ag atal gordewdra a gwella iechyd y cyhoedd, yn ogystal ag unrhyw effeithiau anfwriadol posibl.

# Atodiad A: Cyfrifiadau ar gyfer cyfradd yr awr

**Swyddog Safonau Masnach**

Mae Gyrfa Cymru[49] yn pennu rhwng £25,000 a £43,000 ar gyfer cyflog Swyddog Safonau Masnach. Mae'r National Careers Service[50] yn pennu rhwng £19,000 a £50,000 ar gyfer cyflog Swyddog Safonau Masnach. Mae'n ymddangos bod y ddau ffigur hyn wedi dyddio, felly rydym wedi defnyddio ffigurau strwythur cyflogau a graddfeydd 2023 y Gymdeithas Llywodraeth Leol[51] sy'n pennu ystod cyflog rhwng £23,500 (Gradd G001) a £53,843 (G005). Gan ddefnyddio pwynt canol ystod y Gymdeithas Llywodraeth Leol, £38,672, ac ar sail wythnos waith 37 awr, 5 wythnos o wyliau ac 8 diwrnod o wyliau banc (45.4 wythnos) ynghyd â chodiad o 30% i dalu am gostau, cyfrifir mai £29.93 yw cost fesul awr ar gyfer Swyddog Safonau Masnach. (£38,672/45.4 wythnos = £851.80/37 = £23.02/awr ynghyd â 30% = £29.93)

Mae'r ffigurau isod yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer Cymru 2023 y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae Tabl 15.1a yn nodi'r cyflog wythnosol amser llawn.

**Rheolwr Manwerthu**

Y gyfradd wythnosol gymedrig ar gyfer cyfarwyddwr a rheolwr amser llawn ym maes manwerthu a chyfanwerthu yng Nghymru yw £702.90. Ar sail wythnos waith 37 awr, ynghyd â chodiad o 30% i dalu am gostau, cyfrifir mai £24.70 yw'r gost fesul awr ar gyfer rheolwr manwerthu.

**Staff Gwerthiant Manwerthu**

Y gyfradd wythnosol gymedrig ar gyfer cynorthwyydd gwerthiant a manwerthu amser llawn yng Nghymru yw £487.60. Ar sail wythnos waith 37 awr, ynghyd â chodiad o 30% i dalu am gostau, cyfrifir mai £17.11 yw'r gost fesul awr ar gyfer cynorthwyydd manwerthu.

**Rheolwr Bwyty**

Y gyfradd wythnosol gymedrig ar gyfer rheolwr bwyty ac arlwyo amser llawn yng Nghymru yw £581.10. Ar sail wythnos waith 37 awr, ynghyd â chodiad o 30% i dalu am gostau, cyfrifir mai £20.42 yw'r gost fesul awr ar gyfer rheolwr bwyty ac arlwyo.

**Gweinydd a gweinyddesau**

Y gyfradd wythnosol gymedrig ar gyfer gweinydd neu weinyddes amser llawn yng Nghymru yw £415.50. Ar sail wythnos waith 37 awr, ynghyd â chodiad o 30% i dalu am gostau, cyfrifir mai £14.60 yw'r gost fesul awr ar gyfer gweinydd neu weinyddes.

[49] https://gyrfacymru.llyw.cymru/gwybodaeth-am-swyddi/swyddog-safonau-masnach
[50] https://nationalcareers.service.gov.uk/job-profiles/trading-standards-officer
[51] https://www.local.gov.uk/about/who-we-are-and-what-we-do/what-we-spend-and-how-we-spend-it/organisational-information/lga

# Atodiad B: Nifer y Busnesau yng Nghymru yn ôl Sector

## Nifer y Busnesau Oddi Allan i'r Cartref yng Nghymru[52]

Credir bod cynigion ail-lenwi am ddim ar gael mewn rhai bwytai gwasanaeth llawn a gwasanaeth cyflym yn unig. Mae hyn yn dod o dan SIC 5610 gyda 4,775 o fusnesau a 5,460 o unedau lleol wedi'u cofnodi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae ymchwil ddesg wedi dangos nad oes unrhyw westai, tafarndai na bariau yn cynnig ail-lenwi diodydd am ddim. Serch hynny, mae'n bosibl bod rhai o'r sefydliadau hyn ym mhob cwr o'r wlad yn mynd ati i gynnig ail-lenwi diodydd am ddim. Hefyd, mae ymchwil wrth ddesg wedi dangos bod saith bwyty cadwyn yn cynnig ail-lenwi diodydd am ddim, a bod cyfanswm o 148 o'r safleoedd hyn yn bodoli (2.7% o unedau lleol). O ystyried yr ansicrwydd ynghylch niferoedd, a maint mawr rhai o'r busnesau sy'n cynnig ail-lenwi diodydd am ddim, rydym yn caniatáu amcangyfrif y gallai tua 15% o safleoedd fod yn cynnig ail-lenwi diodydd am ddim (819).

**Tabl Mentrau (ONS UK Business Counts)**
Bwytai a Bwyd Symudol (SIC 5610)

| Maint Band Cyflogaeth | 2024 |
|---|---|
| Micro (0 i 9) | 3,870 |
| Bach (10 i 49) | 865 |
| Canolig (50 i 249) | 30 |
| Mawr (250+) | 10 |
| Cyfanswm y Busnesau | 4,775 (4,565 yn y fersiwn flaenorol o'r Asesiad Effaith) |

**Tabl Unedau Lleol (ONS UK Business Counts)**
Bwytai a Bwyd Symudol (SIC 5610)

| Maint Band Cyflogaeth | 2024 |
|---|---|
| Micro (0 i 9) | 4,090 |
| Bach (10 i 49) | 1,255 |
| Canolig (50 i 249) | 115 |
| Mawr (250+) | 0 |
| Cyfanswm unedau lleol | 5,460 (5,215 yn y fersiwn flaenorol o'r Asesiad Effaith) |

**Bwytai Cadwyn sy'n Cynnig Ail-lenwi Diodydd Am Ddim:**

- Five Guys: 5 safle yng Nghymru[53] +2
- Harvester: 13 safle yng Nghymru[54] +1
- Nando's: 15 safle yng Nghymru[55] +2
- Bwytai Pizza Hut: 5 safle yng Nghymru[56] +4
- Taco Bell: 5 safle yng Nghymru[57] +1
- Toby Carvery: 8 safle yng Nghymru[58]
- Subway: 97 safle yng Nghymru[59]

[52] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'UK Business: Activity, Size and Location (2021) – Table 2 & 17', https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/activitysizeandlocation/datasets/ukbusinessactivitysizeandlocation
[53] Five Guys, 'Store Locations', https://restaurants.fiveguys.co.uk/wales
[54] Harvester, 'Store Locations', https://www.harvester.co.uk/restaurants
[55] Nando's, 'Store Locations', https://www.nandos.co.uk/restaurants/all
[56] Pizza Hut, 'Store Locations', https://www.pizzahut.co.uk/restaurants/find-a-hut/wales/
[57] Taco Bell, 'Store Locations', https://locations.tacobell.co.uk/
[58] Toby Carvery, 'Store Locations', https://www.tobycarvery.co.uk/restaurants#
[59] Subway 'Store Locations', https://www.subway.com/en-gb/findastore

**Cyfanswm Safleoedd Bwytai Cadwyn sy'n Cynnig Ail-lenwi Diodydd Am Ddim: 148 (2.8% o Unedau Lleol)**

**Amcangyfrifir bod 15% o Safleoedd yn Cynnig Ail-lenwi Diodydd Am Ddim yng Nghymru: 819 i ganiatáu ar gyfer maint mawr llawer o'r 148 uned a nodwyd.**

# Nifer y Busnesau Manwerthu yng Nghymru

Er mwyn amcangyfrif nifer y busnesau manwerthu yng Nghymru, defnyddiwyd cyfrifiadau busnes Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU ar gyfer unedau lleol Cymru, a dewiswyd y codau SIC canlynol, 47.1 (Gwerthiant manwerthu mewn siopau nad ydynt yn arbenigol), 47.2 (Gwerthiant manwerthu bwyd, diodydd a thybaco mewn siopau arbenigol), 47.3 (Gwerthiant manwerthu tanwydd modurol mewn siopau arbenigol), 47.62 (Gwerthiant manwerthu papurau newydd a deunydd ysgrifennu mewn siopau arbenigol) a 47.73 (Fferyllydd mewn siopau arbenigol) Gweler Tabl 1 isod.

At ddibenion ymweliadau gan safonau masnach, defnyddiwyd 2061 o unedau. Mae hyn yn cynnwys safleoedd mawr a chanolig sydd â dros 50 o weithwyr (195) ynghyd â grwpiau Symbol (Mae grŵp symbol yn cael ei ystyried yn fusnes mawr sydd â manwerthwyr bach a micro annibynnol a lluosog yn masnachu o dan y grŵp symbol sy'n darparu cymorth i'r manwerthwyr, e.e. Nisa), Manwerthwyr eraill â siopau lluosog (Busnesau manwerthu sy'n gweithredu cadwyni o 10 neu fwy o siopau o dan arwydd siop sy'n eiddo i gwmni canolog e.e. Tesco Express) a Chwmnïau Cydweithredol (1,866) (gweler Tabl 2 isod).

**Tabl 1: Nifer yr unedau manwerthu lleol yng Nghymru yn ôl band maint a chod SIC**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| area type | countries | | | | |
| area name | Wales | | | | |
| date | 2024 | | | | |
| legal status | Total | | | | |
| | | | | | |
| **Employment Sizeband** | **471 : Retail sale in non-specialised stores** | **472 : Retail sale of food, beverages and tobacco in specialised stores** | **473 : Retail sale of automotive fuel in specialised stores** | **4762 : Retail sale of newspapers and stationery in specialised stores** | **4773 : Dispensing chemist in specialised stores** |
| Total | 3,200 | 1,365 | 265 | 225 | 570 |
| Micro (0 to 9) | 1,920 | 1,115 | 145 | 210 | 415 |
| Small (10 to 49) | 1,090 | 250 | 115 | 15 | 160 |
| Medium-sized (50 to 249) | 145 | 0 | 5 | 0 | 0 |
| Large (250+) | 45 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Er mwyn amcangyfrif nifer yr unedau Grŵp Symbol, Manwerthwyr eraill â siopau lluosog, a Chwmnïau Cydweithredol yng Nghymru, gwnaethom ddefnyddio canran pob grŵp a nodwyd gan y Gymdeithas Siopau Cyfleustra a'i lluosi â nifer y busnesau micro a bach yng Nghymru

**Tabl 2: Nifer yr unedau lleol bach a chanolig yng Nghymru yn ôl band maint, cod SIC a pherchnogaeth siop**

| | Canran o gyfran y farchnad yn ôl amcangyfrif y Gymdeithas Siopau Cyfleustra | Nifer yr unedau busnes yn seiliedig ar fusnesau micro a bach y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
|---|---|---|
| Heb gyswllt | 38% | 1144 |
| Symbol | 33% | 993 |
| Manwerthwyr eraill â siopau lluosog | 22% | 662 |
| Cwmnïau Cydweithredol | 7% | 211 |

At ddibenion costau cydymffurfio manwerthu, rydym wedi defnyddio data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer yr un codau SIC, ond rydym wedi defnyddio cyfanswm y mentrau.

Tabl 3: Nifer y Mentrau Manwerthu yng Nghymru yn ôl band maint a chod SIC

| area type | countries | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| area name | Wales | | | | |
| date | 2024 | | | | |
| legal status | Total | | | | |
| | | | | | |
| **Employment Sizeband** | **471 : Retail sale in non-specialised stores** | **472 : Retail sale of food, beverages and tobacco in specialised stores** | **473 : Retail sale of automotive fuel in specialised stores** | **4762 : Retail sale of newspapers and stationery in specialised stores** | **4773 : Dispensing chemist in specialised stores** |
| Total | 1,825 | 985 | 145 | 105 | 195 |
| Micro (0 to 9) | 1,635 | 880 | 95 | 105 | 120 |
| Small (10 to 49) | 175 | 100 | 40 | 5 | 70 |
| Medium-sized (50 to 249) | 10 | 5 | 5 | 0 | 10 |
| Large (250+) | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Tabl 4: **Nifer y mentrau lleol bach a chanolig yng Nghymru yn ôl band maint, cod SIC a pherchnogaeth siop**

| | Canran o gyfran y farchnad yn ôl amcangyfrif y Gymdeithas Siopau Cyfleustra | Nifer yr unedau busnes yn seiliedig ar fusnesau micro a bach y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
|---|---|---|
| Heb gyswllt | 38% | 688 |
| Symbol | 33% | 597 |
| Manwerthwyr eraill â siopau lluosog | 22% | 398 |
| Cwmnïau Cydweithredol | 7% | 127 |

# Atodiad C: Cyfrifo Calorïau mewn Diodydd wedi'u Melysu â Siwgr

Diodydd wedi'u Melysu â Siwgr: Yn Gyfrifol am 2% o'r Cyfanswm Calorïau[60]

Oddi Allan i'r Cartref: Yn Gyfrifol am 25% o'r Cyfanswm Calorïau[61]

Diodydd wedi'u Melysu â Siwgr yn y Sector Oddi Allan i'r Cartref: Yn Gyfrifol am 0.5% o'r Cyfanswm Calorïau

**Diodydd wedi'u Melysu â Siwgr yn y Sector Oddi Allan i'r Cartref: Yn gyfrifol am 12.14 kcal y person, y dydd**

Mae Kantar yn amcangyfrif bod 33.6% o'r sector oddi allan i'r cartref yn fwytai gwasanaeth llawn a gwasanaeth cyflym (SIC 5610)

**Gallai 33.6% o'r Sector Oddi Allan i'r Cartref gael eu heffeithio gan y Polisi Ail-lenwi = 4.08kcal y person, y dydd**

**Amcangyfrifir bod 25% o'r 33.6% yn cynnig ail-lenwi diodydd am ddim = 1.02kcal y person, y dydd**

**2,375kcal y person, y flwyddyn**

Calorïau Cyfartalog sy'n cael eu Bwyta yn ôl Oedran a Rhywedd[62]:

- Bechgyn 4-10) 1,710kcal
- Bechgyn 11-15) 2667kcal
- Bechgyn 16-18) 3232kcal
- Merched 4-10) 1609kcal
- Merched 11-15) 2365kcal
- Merched 16-18) 2499kcal
- Dynion 19-30) 2919kcal
- Dynion 31-60) 2911kcal
- Dynion >60) 2638kcal
- Menywod 19-30) 2296kcal
- Menywod 31-60) 2239kcal
- Menywod >60) 2056kcal

Cyfartaledd = 2,428 Kcal y dydd

0.5% = 12.14 Kcal y dydd

[60] Public Health England: 'Calorie Reduction: The scope and ambition for action', https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/800675/Calories_Evidence_Document.pdf, (tudalen 16 a 32)

[61] Canlyniad Ymgynghoriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr), https://www.gov.uk/government/consultations/restricting-promotions-of-products-high-in-fat-sugar-and-salt-enforcement/outcome/restricting-promotions-of-products-high-in-fat-sugar-and-salt-consultation-response-on-policy-enforcement#policy-summary

[62] Public Health England: The scope and ambition for action', https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/800675/Calories_Evidence_Document.pdf, (tudalen 21 a 22)

# Atodiad D: Cyfanswm Diodydd wedi'u Melysu â Siwgr yn y Sector Oddi Allan i'r Cartref ac mewn Busnesau sy'n Cynnig Ail-lenwi Diodydd Am Ddim

**Cyfanswm Marchnad Diodydd Ysgafn y DU (2020): 13,521m litr[63]**

**7.7% Ar y Safle: 1,041m litr Oddi Allan i'r Cartref**

24.5% Calorïau Rheolaidd (31kcal+ fesul 100ml)

6.9% Calorïau Canolig (21-30kcal fesul 100ml)

**31.4% Diodydd Llawn Siwgr = 327m litr yn y DU**

Cymru 5% (Cyfran o'r Boblogaeth) = 16.4m litr o ddiodydd llawn siwgr yn cael eu hyfed bob blwyddyn yn y sector oddi allan i'r cartref (yn 2020)

Mae Kantar yn amcangyfrif bod 33.6% o'r sector oddi allan i'r cartref yn fwytai gwasanaeth llawn a gwasanaeth cyflym (SIC 5610): 5,510,400 litr yn cael eu hyfed bob blwyddyn (16.4m litr x 33.6%)

25% yn Cynnig Ail-lenwi Diodydd Am Ddim: **1,377,600 litr yn cael eu hyfed bob blwyddyn mewn busnesau sy'n cynnig ail-lenwi diodydd am ddim**

Mae COVID wedi effeithio ar y data uchod – gweler data 2019 isod.

**Cyfanswm Marchnad Diodydd Ysgafn (2019): 13,659m Litr[64]**

**13.5% Ar y Safle: 1,844m Litr Oddi Allan i'r Cartref**

25.1% Calorïau Rheolaidd (31kcal+ fesul 100ml)

6.7% Calorïau Canolig (21-30kcal fesul 100ml)

**31.8% Diodydd Llawn Siwgr = 586m Litr yn y DU**

Cymru 5% (Cyfran o'r Boblogaeth) = 29.3m litr o ddiodydd llawn siwgr yn cael eu hyfed bob blwyddyn yn y sector oddi allan i'r cartref (yn 2019)

Mae Kantar yn amcangyfrif bod 33.6% o'r sector oddi allan i'r cartref yn fwytai gwasanaeth llawn a gwasanaeth cyflym (SIC 5610): 3: 9,844,800 litr yn cael eu hyfed bob blwyddyn (29.3m litr x 33.6%)

25% yn Cynnig Ail-lenwi Diodydd Am Ddim: **2,461,200 litr yn cael eu hyfed bob blwyddyn mewn busnesau sy'n cynnig ail-lenwi diodydd am ddim**

Defnyddir ystadegau'r farchnad ar gyfer 2019 gan eu bod yn adlewyrchu cynrychiolaeth fwy cywir o'r farchnad 'Ar y Safle' na 2020, gan fod cyfyngiadau Covid-19 wedi cael effaith fawr ar ran helaeth o'r flwyddyn honno.

---

[63] British Soft Drinks Association, '2021 Annual Report', https://www.britishsoftdrinks.com/write/MediaUploads/BSDA_Annual_Report_2021_FINAL.pdf (tudalen 9 a 10)

[64] British Soft Drinks Association, '2020 Annual Report', https://www.britishsoftdrinks.com/write/MediaUploads/BSDA_Annual_Report_2020_.pdf (tudalen 5 a 6)

# Atodiad E: Model Caloriau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol

1. Mae'r ddogfen hon yn esbonio beth yw'r Model Caloriau, sut mae'n gweithio a sut mae'n helpu i ddatblygu polisïau. Hefyd, mae'n darparu hanes byr o sut mae'r model wedi datblygu dros amser.

**Beth yw'r Model Caloriau?**

2. Model efelychu yw'r Model Caloriau, wedi'i ysgrifennu ar ffurf R, ac fe gafodd ei ddatblygu gan ddadansoddwyr yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'n defnyddio gwaith modelu cynharach a ddatblygwyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr.
3. Ei bwrpas yw modelu effeithiau hirdymor polisïau sy'n effeithio ar faint o galoriau sy'n cael eu bwyta ar lefel poblogaeth. Mae'n defnyddio amcangyfrifon o newid mewn cymeriant caloriau, ynghyd â rhagdybiaethau eraill, i amcangyfrif yr effaith ar ganlyniadau iechyd, costau triniaeth y GIG, costau gofal cymdeithasol a newidiadau mewn cynnyrch economaidd.
4. Fel arfer, defnyddir y model i fesur y manteision sy'n gysylltiedig â gostyngiadau mewn caloriau, ond mae'n gallu modelu cynnydd mewn caloriau hefyd.
5. Mae'r model wedi'i raddnodi ar gyfer y boblogaeth yn Lloegr[65] gan ddefnyddio data 2016 fel y llinell sylfaen[66].

**Sut mae'r model yn gweithio (yn gryno)?**

6. Mae'r Model Caloriau yn fodel Markov[67] sy'n seiliedig ar garfan. Mae hynny'n golygu bod y boblogaeth yn cael ei rhannu'n garfanau blynyddol yn seiliedig ar eu blwyddyn geni, a bod iechyd pob carfan yn cael ei fodelu dros amser ar sail eu mynegai màs y corff (BMI) disgwyliedig a'r posibilrwydd cysylltiedig o ddatblygu cyflwr sy'n gysylltiedig â gordewdra. Bydd newid mewn cymeriant caloriau yn effeithio ar BMI, sydd yn ei dro yn effeithio ar y tebygolrwydd o afiechyd.
7. Er mwyn olrhain iechyd dros amser, rhennir aelodau pob carfan yn ôl cyflwr: yn iach, wedi cael diagnosis o glefyd sy'n gysylltiedig â gordewdra, neu wedi marw. Bob blwyddyn, defnyddir tebygolrwydd pontio i amcangyfrif nifer y bobl y bydd eu cyflwr yn newid, ac ychwanegir genedigaethau newydd. Gellir amcangyfrif cyffredinrwydd disgwyliedig cyflyrau sy'n gysylltiedig â gordewdra, a'r effeithiau cysylltiedig, yn unol â hynny.
8. Mae effeithiau ymyrraeth polisi yn cael eu modelu trwy ddefnyddio dull rheoli a thrin; mae senario rheoli yn rhagdybio na fydd polisi yn cael ei weithredu, ac mae senario/senarios trin yn rhagdybio newid mewn cymeriant caloriau. Caiff effeithiau'r polisi eu mesur trwy gymharu'r ddau senario dros amser.

**Pa allbynnau y mae'r model yn eu cynhyrchu?**

9. Y prif allbynnau ar gyfer unrhyw senario penodol yw:

• cyfanswm mantais (neu gost) net yn nhermau gwerth presennol net, sy'n debygol o ddeillio o newid mewn caloriau, sy'n cynnwys:

[65] Gellir cymhwyso canlyniadau enghreifftiol i weddill y DU drwy gymhwyso addasiad pro-rata yn seiliedig ar faint y boblogaeth. Efallai na fydd hyn yn ystyried gwahaniaethau demograffig ac iechyd yn llawn ond dylai fod yn ddigonol i roi amcan.
[66] WeuseHealthSurveyforEngland(HSE)a OfficeforNationalStatistics(ONS)populationdataandprojections.
[67] Furtherbackgroundinformationaboutthistypeofmodelisavailableathttps://arxiv.org/abs/1702.03252.

- gwerth ariannol unrhyw newid net mewn iechyd (a fesurir mewn QALYs);[68]
- newid net yng nghostau triniaeth y GIG;
- newid net mewn costau gofal cymdeithasol; a
- newid net mewn (rhai) effeithiau cynhyrchiant economaidd.

- llinell amser, sy'n dangos pryd y disgwylir i'r effeithiau hyn ddigwydd.
- nifer y marwolaethau cyn pryd (o dan 75 oed) a ddisgwylir yn y senario ac o'i gymharu â'r sefyllfa reoli.


10. Hefyd, mae'r model yn hwyluso astudiaeth fanylach (er enghraifft) o grwpiau oedran gwahanol neu newidiadau BMI, ac mae'n gallu darparu dadansoddiad sensitifrwydd o baramedrau mewnbwn.

**Sut mae'r model yn gweithio (yn fanwl) a pha ragdybiaethau sy'n cael eu defnyddio?**

11. Y prif baramedr mewnbwn yw'r **newid disgwyliedig mewn cymeriant calorïau** fesul person bob dydd.[69]
12. Rhaid creu'r gwerth hwn (neu ystod o werthoedd) y tu allan i'r model, gan ddefnyddio'r technegau ymchwil, dadansoddi neu amcangyfrif sydd ar gael. Gall y model calorïau archwilio effaith newid mewn calorïau a chwblhau dadansoddiad sensitifrwydd o unrhyw ffigur tybiedig. Ond nid yw'n gallu nodi'r gwerth calorïau cywir i'w ddefnyddio.
13. Gellir amrywio'r newid mewn calorïau yn ôl **oedran a rhywedd y boblogaeth sy'n cael ei heffeithio**. Mae hyn yn golygu bod modd (er enghraifft) asesu polisïau sy'n canolbwyntio ar blant yn unig.
14. Cyfrifir newidiadau mewn pwysau a BMI sydd wedi'u hachosi gan y gostyngiad mewn calorïau dyddiol (gweler paragraff 17 a throednodyn 6 ar gyfer y fethodoleg) ac maent yn cael eu defnyddio fel man cychwyn ar gyfer gweddill y dadansoddiad yn y model.
15. Yna mae'r model yn ystyried goblygiadau'r gostyngiad mewn anghydbwysedd calorïau ar chwe chlefyd sy'n gysylltiedig â gordewdra: **diabetes math 2, clefyd coronaidd y galon, strôc, canser y colon a'r rhefr, canser y fron a chlefyd yr afu**. Gwneir hyn drwy ystyried newidiadau mewn cyffredinrwydd a chyfraddau marwolaethau ar gyfer pob clefyd a achosir gan newidiadau mewn BMI er mwyn cyfrifo nifer y marwolaethau sy'n cael eu hosgoi yn y senario triniaeth.
16. Mae'r model yn rhoi rhywfaint o ystyriaeth i gydafiachedd. Mewn fersiynau blaenorol, gallai unigolyn symud o gyflwr clefyd i gyflwr marw yn unig, neu aros yn y cyflwr clefyd perthnasol, ond mae'r posibilrwydd o symud i un clefyd i un arall wedi'i ychwanegu i fodelu cydafiachedd. Fodd bynnag, nid oes gan y model unrhyw gof am gyflwr, felly pan fydd unigolyn yn symud o un clefyd i glefyd arall, nid yw'n ysgwyddo'r costau sy'n gysylltiedig â'i glefyd cyntaf. Er mwyn lleihau effaith y diffyg cof am gyflyrau, dim ond symudiadau o glefydau llai difrifol i rai mwy difrifol a ganiateir. Dangosir trefn difrifoldeb yma, gyda difrifoldeb yn cynyddu o'r chwith i'r dde:

[68] Blynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd (QALYs) yw'r mesur safonol a ddefnyddir mewn gwerthusiadau iechyd i fesur hyd ac ansawdd bywyd gyda'i gilydd. Mae gwerth 1.00 yn cynrychioli blwyddyn o fywyd mewn iechyd perffaith. Rhagdybir bod gan rywun sy'n byw â chyflwr sy'n gysylltiedig â gordewdra ansawdd bywyd is a/neu ddisgwyliad oes is ar gyfartaledd na rhywun o oedran tebyg heb y cyflwr hwnnw. Gwerth cymdeithasol QALYs (h.y. y gwerth a roddir arnynt gan y cyhoedd) yw £60,000 yr un. Mae rhagor o fanylion am sut a pham mae QALYs yn cael eu defnyddio ar gael yn Llyfr Gwyrdd y Trysorlys (tudalen 72) yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/685903/The_Green_Book.pdf

[69] Gellir defnyddio mewnbynnau cyfatebol (fel newid disgwyliedig mewn pwysau neu statws BMI) gydag addasiad priodol ymlaen llaw.




Disgrifiad testun yn unig: Trefn difrifoldeb yn y model yw: diabetes math 2, clefyd coronaidd y galon, clefyd yr afu, canser y fron, canser y colon a’r rhefr, strôc.

**Dadansoddi BMI**

17. Defnyddir hafaliadau gwahaniaethol Hall et al i fodelu pwysau unigol.[70] Mae'r dull gweithredu hwn yn rhagdybio bod pwysau unigolyn yn cynnwys braster y corff a màs heb fraster (sy'n cael eu hadio i roi cyfanswm pwysau'r corff). Mae amcanestyniad BMI gydol oes yn cael ei gyfrifo trwy ystyried yr anghydbwysedd rhwng egni i mewn ac egni allan, a thrwy ragdybio y bydd unigolyn yn aros ar yr un ganradd BMI trwy gydol ei oes. Hefyd, mae'r model yn defnyddio ymchwil gan Ara et al[71] i fodelu sut y byddai BMI y grŵp rheoli yn newid dros amser. Roedd y dystiolaeth hon yn seiliedig ar boblogaeth dros bwysau a gordew, ond yn absenoldeb unrhyw ddata gwell, rhagdybir ei fod yn darparu amcangyfrif rhesymol ar gyfer pobl â BMI iach.
18. Defnyddiwyd hafaliadau gwahaniaethol yn y model gan ddefnyddio'r pecyn deSolve[72] yn R. Roedd y model gwreiddiol yn darogan y byddai'r un pwysau yn cael eu colli fesul gostyngiad mewn kcal waeth beth oedd pwysau gwreiddiol y corff, a nodwyd ar y pryd fel cam symleiddio angenrheidiol. Mae'r cyfyngiad hwn wedi'i ddileu ac mae'r defnydd o'r hafaliadau gwahaniaethol yn y model newydd yn darogan mwy o ostyngiad ym mhwysau'r corff fesul gostyngiad kcal mewn deiet ymhlith unigolion sydd â mwy o bwysau gormodol.
19. Mae'r diweddariadau hyn yn ein galluogi i fodelu newidiadau mewn pwysau sy'n digwydd yn ystod plentyndod. Mae'r hafaliadau'n cynnwys cyfnod twf sy'n tueddu i gyrraedd sero yn 18 oed, sy'n golygu bod y model yn newid yn naturiol o blentyndod i fod yn oedolyn.

---

[70] Hall KD, Butte NF, Swinburn BA, Chow CC. Dynamics of childhood growth and obesity: development and validation of a quantitative mathematical model. The lancet Diabetes & endocrinology. 2013 Hydref 1;1(2):97-105.
[71] Ara, R., L. Blake, L. Gray, M. Hernández, M. Crowther, A. Dunkley, F. Warren et al. "What is the clinical effectiveness and cost-effectiveness of using drugs in treating obese patients in primary care? A systematic review." Health technology assessment (Winchester, Lloegr) 16, rhif 5 (2012)
[72] deSolve: Solvers for Initial Value Problems of Differential Equations”. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://cran.rproject.org/web/packages/deSolve/index.html 134

20. Nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael i gysylltu gormod o bwysau â'r cyflyrau a fodelir yn ystod plentyndod, felly nid oes unrhyw fanteision iechyd wedi'u modelu yn ystod plentyndod. Os oes unrhyw gysylltiadau heb eu darganfod yn bodoli, byddai'n awgrymu bod ein cyfrifiadau yn tanamcangyfrif y manteision.

**Grwpiau o bobl sy'n cael eu hystyried yn y model**

21. Mae'r model yn rhannu'r boblogaeth yn ôl oedran, rhyw, a 5 categori BMI: o dan bwysau, pwysau iach, dros bwysau, gordew, a gordew iawn. Gellir modelu oedran mewn blynyddoedd unigol neu mewn categorïau grŵp yn ôl y dymuniad. Mae paramedrau oed-benodol (megis cyfradd marwolaethau, neu ddigwyddedd cyflwr) yn cael eu cymhwyso ar yr adeg gywir yn ôl yr angen.
22. Mae oedolion nad ydynt dros bwysau ond sydd â BMI sy'n fwy na 22 kg/m$^2$ yn gweld rhai manteision iechyd ar ôl colli pwysau. Mae'r risg o'r chwe chyflwr iechyd a fodelir yn cynyddu'n llinellol gyda lefel BMI o 22 i fyny, ac felly mae cynnwys grŵp pwysau iach yn y model yn golygu bod modd modelu'r manteision ychwanegol. Mae dan bwysau yn cael ei fodelu fel grŵp ar wahân er mwyn osgoi unrhyw ragfarn.
23. Diffinnir y boblogaeth gychwynnol gan y defnyddiwr, sy'n golygu bod modd ystyried polisi sy'n cymhwyso gostyngiad mewn calorïau i blant yn unig, i blant ac oedolion, neu i oedolion yn unig.
24. Mae'r model newydd yn defnyddio dull modelu Markov i gyfrifo symudiadau'r boblogaeth rhwng cyflyrau, lle mae cyflyrau'n cael eu diffinio fel iach, bod â chyflwr (lle mae pob cyflwr yn gyflwr ar wahân), neu wedi marw. Cafodd y model Markov ei drin gan becyn heemod[73] yn R. Mae'r tebygolrwydd o berthyn i gategori cyflwr yn cael ei ddefnyddio fel mewnbynnau i'r pecyn heemod, sydd wedyn yn gallu efelychu sut bydd y cyflyrau'n datblygu dros amser, gan ddechrau'r model gyda 100% o'r boblogaeth yn y cyflwr iach.
25. Ar gyfer pob cylch o'r model Markov (sy'n cyfateb i flwyddyn), mae'r model yn cyfrifo pa gyfran o'r boblogaeth a fydd yn perthyn i bob cyflwr gan ddefnyddio'r tebygolrwydd a ragwelir (sydd, fel yn y model gwreiddiol, yn dibynnu ar BMI). Mae hyn yn rhoi trywydd ar gyfer cyfran y boblogaeth gyfan sydd ym mhob cyflwr bob blwyddyn.
26. Roedd y model blaenorol yn ystyried y posibilrwydd o bobl yn byw gydag un cyflwr ond yn marw o un arall. Mae'r fersiwn hon o'r model wedi'i symleiddio trwy ragdybio nad oes gan bobl fwy nag un cyflwr gan fod diffyg tystiolaeth ar hyn o bryd yn ymwneud â'r effeithiau ar iechyd cael nifer o'r cyflyrau hyn.

**Cyfrifo canlyniadau**

27. Cyfrifir **arbedion i'r GIG** ar sail llai o ofynion triniaeth ar gyfer pob clefyd.

28. Asesir **effeithiau cynhyrchiant economaidd** mewn dau gategori. Yn gyntaf, defnyddir gostyngiadau mewn marwolaethau i gyfrifo effaith marwolaethau ar gynnyrch economaidd gan weithlu mwy o faint. Gwneir hyn drwy ystyried bod pawb o fewn carfan yn ennill cyflog canolrif person o'r oedran a'r rhyw hwnnw, gyda gweithlu mwy mewn maint yn bresennol yn y senario triniaeth.

29. Yn ail, mae'r model yn cyfrifo effaith afiachedd ar gynnyrch economaidd gan ddefnyddio cyfradd gyflogaeth sy'n amrywio ar sail cyflwr clefyd. Mae'r newid hwn wedi'i gyflwyno er

[73] "heemod: Markov Models for Health Economic Evaluations" [Ar-lein]. Ar gael yn: https://cran.rproject.org/web/packages/heemod/index.html

mwyn adlewyrchu'r lefelau is o gynhyrchiant a chyfraddau cyflogaeth a oedd yn amlwg ymhlith unigolion sydd ag un o chwe chlefyd y model.

30. Cyfrifir arbedion i **gostau gofal cymdeithasol** sy'n deillio o gyfran lai o unigolion dros bwysau, gordew ac afiachus o ordew, sy'n golygu bod angen gofal cymdeithasol ar lai o bobl yn y senario triniaeth. Mae hyn yn rhagdybio bod y tebygolrwydd o fod angen gofal cymdeithasol yn cynyddu gyda BMI.

31. Cyfrifir **newidiadau mewn QALYs** ar sail y nifer llai o farwolaethau a'r gostyngiad yn nifer y bobl sy'n byw gyda'r clefydau. Maent yn cael eu newid yn QALY â gwerth ariannol wedyn trwy ddefnyddio trosiant o sut mae cymdeithas yn gwerthfawrogi QALY.

32. Mae'n bosibl y bydd pobl sy'n mynd yn sâl oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â gordewdra yn ddiweddarach mewn bywyd eisoes mewn iechyd llai na pherffaith. Yn unol â hynny, nid yw'r model yn rhagdybio gwerth QALY o un ar gyfer unigolion yn y cyflwr "iach" (sydd yn nhermau'r model yn golygu nad oes ganddynt salwch sy'n gysylltiedig â gordewdra). Yn hytrach, mae anfantais oedran yn cael ei chymhwyso i bob gwerth QALY. Mae hyn yn darparu ar gyfer y cynnydd yng nghyffredinrwydd clefydau nad ydynt wedi'u cynnwys yn benodol yn y model ar gyfer oedrannau hŷn.
33. Mae'r model yn defnyddio anfantais clefyd QALY i gyfrifo gwerth QALY ar gyfer unigolyn yn y cyflwr clefyd.

34. Mae **cyfraddau disgownt** yn cael eu cymhwyso i werthoedd ariannol er mwyn cyfrif am newidiadau i gostau a manteision triniaeth sy'n codi dros gyfnodau gwahanol. Mae hyn yn golygu bod modd ystyried gwerthoedd y dyfodol yn unol â'u gwerth presennol yn unol ag egwyddorion Llyfr Gwyrdd y Trysorlys.

35. Gellir modelu canlyniadau dros **amserlen a ddiffinnir gan y defnyddiwr**. Ar gyfer y rhan fwyaf o ddadansoddiadau, credir bod amserlen hirach yn briodol, gan nad yw llawer o'r manteision iechyd yn digwydd nes bod rhywun yn cyrraedd canol oed neu'n hŷn. Yn yr un modd, mae ansicrwydd yn cynyddu wrth i'r cyfnod darogan ehangu. Fel arfer, mae amserlen rhwng 20 a 50 mlynedd yn cael ei hystyried yn rhesymol.
36. Gellir cynnal y model am gyfnod hirach ac (yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol) bydd yn ychwanegu plant newydd bob blwyddyn a fydd yn cael eu geni i'r model. Mae hyn yn golygu y gellir modelu polisi sydd ar waith am nifer o flynyddoedd ar gyfer plant a fydd yn cael eu geni yn ystod cyfnod y polisi.
37. Unwaith y bydd cyfnod y polisi wedi dod i ben, bydd y model yn rhoi'r gorau i ychwanegu plant newydd at y boblogaeth. Fodd bynnag, bydd yn parhau i fodelu manteision ar gyfer y boblogaeth bresennol am faint bynnag o amser y mae'r defnyddiwr yn diffinio. Mae hyn yn golygu bod modd modelu'r manteision nad ydynt yn digwydd tan yn llawer diweddarach mewn bywyd dros oes y boblogaeth.

**Pa mor gadarn a dibynadwy yw'r model?**

38. Mae'r model wedi'i ddatblygu a'i wella dros sawl blwyddyn, gan adlewyrchu newidiadau mewn tystiolaeth a gwelliannau mewn galluoedd modelu. Mae'r model wedi bod yn destun proses sicrwydd annibynnol ac mae'r canlyniadau wedi cael eu defnyddio'n rheolaidd i gefnogi dadansoddiad economaidd mewn Asesiadau Effaith a gyhoeddwyd. Y dadansoddiad yw'r gorau sydd ar gael.
39. Fodd bynnag, mae gan y model nifer o gyfyngiadau sylweddol.
    - Mae'n darogan effaith newid penodol mewn cymeriant calorïau. Nid yw'n gallu darogan effaith polisi ar gymeriant calorïau, felly mae'n dibynnu ar y dadansoddiad allanol a ddefnyddir i greu amcangyfrifon o'r fath.

- Mae'r model, o reidrwydd, yn gynrychiolaeth symlach o ddigwyddiadau'r byd go iawn. Nid yw'n ystyried pob cyflwr iechyd posibl, pob math o amgylchiadau unigol na phob math o effaith economaidd.
- Mae'r model yn rhagdybio bod perfformiad yn y gorffennol (o ran costau triniaeth, tebygolrwydd pontio, proffiliau poblogaeth a llawer o baramedrau eraill) yn sylfaen resymol i ragweld y dyfodol.
- Bydd y canlyniadau'n amrywio yn ôl y cyfnod gwerthuso a ddewisir.

40. Mae gwaith yn parhau dros amser i fireinio a gwella'r model a lliniaru unrhyw gyfyngiadau. Defnyddir dadansoddiad sensitifrwydd a thuedd optimistiaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod unrhyw ganlyniadau'r model yn cael eu dehongli a'u defnyddio'n briodol.

**Hanes datblygu'r model**

41. Datblygodd Iechyd Cyhoeddus Lloegr adnodd asesu economaidd rheoli pwysau am y tro cyntaf yn 2014.

42. Defnyddiwyd yr adnodd hwn i gefnogi dadansoddiad o'r gostyngiad mewn lefelau siwgr ac, yn ddiweddarach, y gostyngiad mewn calorïau, a thrwy gyfres o newidiadau fe ddaeth yn Fersiwn 1 o'r Model Calorïau, a ddatblygwyd ar y cyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr.
43. Roedd y model a'i ragdybiaethau yn destun Dogfen Ymgynghori Technegol[74] a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2018.
44. Datblygwyd y model gwreiddiol yn Microsoft Excel, ond datblygwyd fersiwn wedi'i huwchraddio yn yr iaith raglennu "R," gan ddadansoddwyr o'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dilyn yr ymgynghoriad. Roedd "Fersiwn 2" y model yn fwy hyblyg ac roedd yn caniatáu dull modelu mwy cywir o golli neu fagu pwysau, cyfnod gwerthuso hirach (os dymunir) a mwy o allu i fodelu grwpiau gwahanol o bobl. Roedd modd modelu oedolion a phlant ar wahân.
45. Cyhoeddwyd y newidiadau "Fersiwn 2" hyn yn y ddogfen 'Further advertising restrictions for products high in fat, salt and sugar: impact assessment': Appendix F[75].
46. Datblygwyd fersiwn 3 (y model cyfredol) gan ddadansoddwyr o'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddiwedd 2019 ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio. Ychwanegodd y fersiwn hon glefyd yr afu at y model, ychwanegodd allu cyfyngedig ar gyfer mesur cydafiachedd, ymestynnodd cwmpas y dadansoddiad o gynhyrchiant economaidd, a gwellodd cywirdeb cyfrifiadau QALY trwy adlewyrchu'r dirywiad mewn iechyd sy'n digwydd yn naturiol wrth i'r boblogaeth heneiddio.
47. Aethpwyd ati i sicrhau ansawdd yn unol â'r egwyddorion a nodir yn llyfr Aqua y Llywodraeth. Rhoddodd Iechyd Cyhoeddus Lloegr sicrwydd annibynnol i ategu gwaith yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae rhagor o fanylion am hanes a datblygiad y model ar gael yn y dogfennau a gyhoeddwyd sydd wedi'u nodi (gweler troednodiadau).

[74] Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, DHSC Calorie Model, Awst 2018. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/736417/dhsc-calorie-model-technical document.pdf

# Atodiad F: Rhaglenni Lleihau Calorïau a Siwgr

## Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn

1. Yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod am gyflwyno Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn er mwyn helpu i leihau cymeriant siwgr plant trwy annog gweithgynhyrchwyr i ail-fformiwleiddio eu diodydd. Daeth yr ardoll i rym ar 6 Ebrill 2018.
2. Mae Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn yn gymwys i ddiodydd sy'n bodloni'r holl amodau canlynol:
   - Mae siwgr, neu unrhyw beth (ac eithrio sudd ffrwythau, sudd llysiau a llaeth) sy'n cynnwys siwgr, fel mêl, yn cael ei ychwanegu wrth weithgynhyrchu'r ddiod
   - Mae'n cynnwys o leiaf 5 gram (g) o siwgr fesul 100 mililitr (ml) yn ei ffurf barod i'w hyfed neu wanedig
   - Mae naill ai'n barod i'w hyfed, neu er mwyn ei hyfed mae'n rhaid ei gwanedu â dŵr, ei chymysgu ag iâ wedi'i falu'n fân neu ei phrosesu i wneud iâ wedi'i falu'n fân, ei chymysgu â charbon deuocsid, neu gyfuniad o'r rhain
   - Mae wedi cael ei rhoi mewn potel, can neu becyn arall fel ei bod yn barod i'w hyfed neu ei gwanedu
   - Mae'n cynnwys 1.2% o alcohol fesul cyfaint (ABV) neu lai
3. Mae rhestr fanwl o'r hyn sy'n cael ei ddosbarthu'n siwgr at ddibenion yr ardoll i'w gweld yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi[76].
4. Nid yw'r ardoll yn gymwys i'r diodydd canlynol:
   - Diod sy'n cynnwys o leiaf 75% o laeth
   - Diod llaeth amgen, megis llaeth soia neu almon
   - Diod sy'n disodli alcohol, megis cwrw neu win di-alcohol
   - Diod sydd wedi'i gwneud â sudd ffrwythau neu sudd llysiau ac nad yw'n cynnwys unrhyw siwgr ychwanegol arall
   - Blas diod ar ffurf hylif sy'n cael ei ychwanegu at fwyd neu ddiod fel coffi neu goctels
   - Fformiwla babanod, fformiwla ddilynol neu fwyd babanod
   - Bwyd wedi'i fformiwleiddio sydd â'r bwriad o ddisodli deiet yn llwyr, neu fwyd deietegol a ddefnyddir at ddibenion meddygol arbennig.

[76] https://www.gov.uk/guidance/check-if-your-drink-is-liable-for-the-soft-drinks-industry-levy

5. Eto, mae esboniad manylach o'r cynhyrchion sydd wedi'u heithrio o'r ardoll ar gael yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi.

**Rhaglen Lleihau Caloriau**

6. Ar gyfartaledd, mae plant ac oedolion yn bwyta/yfed gormod o galoriau yn rheolaidd. Un o ymrwymiadau Llywodraeth y DU yn *Childhood obesity: a plan for action* oedd i Iechyd Cyhoeddus Lloegr arwain rhaglen strwythuredig sy'n cael ei monitro'n fanwl er mwyn gwella bwyd a diod bob dydd. Fel rhan o'r gwaith hwn, datblygodd Iechyd Cyhoeddus Lloegr y Rhaglen Lleihau Caloriau er mwyn annog gweithgynhyrchwyr i adolygu ac ail-fformiwleiddio eu cynhyrchion i leihau nifer y caloriau ynddynt.
7. Bydd y rhestr o gategoriau cynnyrch sydd i'w cynnwys yn y rhaglen lleihau caloriau yn cael ei chadarnhau ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid. Fodd bynnag, mae Iechyd Cyhoeddus Lloegr wedi nodi y bydd y categoriau canlynol o gynhyrchion yn cael eu cynnwys yn y rhaglen:
   - Bara gydag ychwanegiadau (e.e. olifau, caws etc.)
   - Creision a byrbrydau sawrus
   - Bisgedi sawrus, craceri a thafelli cras
   - Cynhyrchion tatws (e.e. sglodion, croquettes, tatws stwnsh etc.)
   - Selsig (amrwd ac wedi'u coginio) a chynhyrchion cig selsig, frankfurters, cŵn poeth a byrgyrs
   - Pasteiod crwst cig, pysgod a llysieuol a chynhyrchion crwst eraill
   - Sawsiau a phastau coginio
   - Sawsiau bwrdd a dresin
   - Pasta/ reis/ nwdls gyda chynhwysion a blasau ychwanegol
   - Prydau parod gyda dogn o garbohydrad (tatws, reis, nwdls, pasta ac ati) – pysgod, cig a dewisiadau amgen i gig
   - Canolbwynt pryd heb ddogn o garbohydrad (tatws, reis, nwdls, pasta etc.) – pysgod, cig a dewisiadau amgen i gig
   - Sawsiau dipio wedi'u paratoi a saladau cymysg sy'n cyd-fynd â phryd bwyd (e.e. coleslaw, salad tatws, guacamole, salsa etc.)
   - Pitsa
   - Cynhyrchion/prydau wy (e.e. quiche)
   - Bwyd wrth fynd e.e. brechdanau, saladau prif bryd mewn bocs etc.

Mae'r cynhyrchion hyn wedi'u cynnwys oherwydd eu bod yn gwneud cyfraniad sylweddol at faint o galoriau y mae plant yn eu bwyta, a bod modd eu hail-

fformiwleiddio'n sylweddol a/neu leihau maint y dognau. Mae rhestr fanylach o gynhyrchion a'r targedau ail-fformiwleiddio ar gael yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr[77].

**Rhaglen Lleihau Siwgr**

9. Un o ymrwymiadau eraill *Childhood obesity: a plan for action* oedd lansio rhaglen lleihau siwgr â strwythur eang er mwyn tynnu siwgr o gynhyrchion bob dydd. Mae pob rhan o'r boblogaeth, a phlant yn benodol, yn bwyta llawer gormod o siwgr. Mae hyn yn cynyddu'r perygl o fwyta gormod o galorïau a magu pwysau, sy'n gallu arwain at ordewdra dros amser.

10. Mae'r rhaglen lleihau siwgr yn herio gweithgynhyrchwyr i adolygu ac ail-fformiwleiddio eu cynhyrchion er mwyn lleihau faint o siwgr sydd ynddynt. Mae rhestr o gategorïau cynnyrch sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen i'w gweld isod:

- Grawnfwydydd brecwast
- Iogwrt a fromage frais
- Bisgedi
- Cacennau
- Bwydydd bore
- Pwdinau
- Hufen iâ
- Losin melys
- Melysion siocled
- Sbred melys
- Diodydd seiliedig ar laeth a sudd ffrwythau

Mae'r cynhyrchion hyn wedi'u cynnwys oherwydd eu bod yn gwneud cyfraniad sylweddol at gymeriant siwgr plant. Eto, mae rhestr fanylach o'r cynhyrchion sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun a'r targedau ail-fformiwleiddio ar gael yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr[78].

---

[77] https://www.gov.uk/government/publications/calorie-reduction-the-scope-and-ambition-for-action
[78] https://www.gov.uk/government/collections/sugar-reduction

# ATODIAD G:  Effaith hyrwyddiadau ar werthiant ac elw

## Effaith prisiau is a hyrwyddiadau amleitem ar werthiant

1. Comisiynodd Iechyd Cyhoeddus Lloegr Kantar Worldpanel i ymchwilio i rôl hyrwyddiadau pris wrth ysgogi newidiadau mewn lefelau prynu, yn benodol ar gyfer bwydydd a diod sy'n cynnwys lefelau uchel o siwgr[79]. Archwiliodd yr astudiaeth hon sampl gynrychioliadol Kantar Worldpanel o 30,000 o aelwydydd ym Mhrydain dros ddwy flynedd hyd at 30 Rhagfyr 2018.

2. Dylid nodi mai dim ond hyrwyddiadau pris yn y pedair archfarchnad fawr – Tesco, Asda, Sainsbury a Morrison's - a gafodd eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn. O ganlyniad, mae'r asesiad hwn yn cyfeirio at is-set o'r farchnad fanwerthu gyffredinol yn unig. Gyda'i gilydd, mae'r pedair archfarchnad hyn yn cyfrif am tua 68% o'r farchnad nwyddau groser[80].

3. Mae data Kantar Worldpanel yn rhannu hyrwyddiadau pris yn ôl gostyngiadau dros dro mewn prisiau, cynigion amleitem, a hyrwyddiadau eitemau ychwanegol am ddim. O safbwynt y mathau o hyrwyddiadau a drafodwyd yn gynharach, mae cynigion amleitem sy'n rhan o ddata Kantar Worldpanel yn cynnwys cynigion amleitem, cynigion cyfunol a chynigion cysylltiedig, sydd i gyd yn fathau o gynigion ar sail swmp. Mae gostyngiadau dros dro mewn prisiau yn cynnwys hen bris/pris newydd a chynigion pris wedi'r hyrwyddiad neu ostyngiad cychwynnol. Mae 'ychwanegol am ddim' yn hyrwyddiad sy'n digwydd pan fydd y gweithgynhyrchwr yn creu pecyn mwy o ran maint, a lle mae'r label yn nodi bod cyfran o'r cynnyrch am ddim. Mae'r hyrwyddiadau hyn yn llawer llai cyffredin ac yn cyfrif am lai nag 1% o gyfanswm gwariant ar nwyddau groser, felly nid ydynt wedi'u gwahanu'n fecanweithiau hyrwyddo unigol.

4. Mae dadansoddiad o ddata Kantar Worldpanel yn awgrymu bod hyrwyddiadau pris yn cael effaith tymor byr. Mae hyrwyddiadau'n cynyddu gwerthiant yn y tymor byr trwy annog siopwyr sy'n cael eu cymell gan hyrwyddiadau i gymryd rhan. Mewn gwirionedd, mae hyrwyddiadau yn fodd o brynu cyfran o'r farchnad ymhlith siopwyr sy'n sensitif i hyrwyddiadau. Effeithiau tymor byr yw'r rhain bob tro, yn yr ystyr bod y cynnydd mewn gwerthiant yn lleihau cyn gynted ag y mae'r hyrwyddiad yn dod i ben, gan adael brand yn gwerthu ar yr un lefelau â chyn yr hyrwyddiad. Yn yr amgylchedd

---


[79] An analysis of the role of price promotions on the household purchases of food and drinks high in sugar, a research project for Public Health England conducted by Kantar Worldpanel UK, 2020. Ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/sugar-reduction-from-evidence- into-action
Mae'n ddiweddariad o Sugar Reduction: The evidence for action - Annexe 4: An analysis of the role of price promotions on the household purchases of food and drinks high in sugar, Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2015. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/470175/Annexe_4._Analysis_of_price_promotions.pdf

[80] Grocery Market Share, Kantar Worldpanel, 2019. https://www.kantarworldpanel.com/en/grocery-market-share/great-britain

marchnata Nwyddau Defnyddwyr sy'n Symud yn Gyflym (FMCG), nid oes dealltwriaeth dda o’r ffaith hon bob tro, ac mae llawer o fythau am rôl ddymunol hyrwyddiadau wrth argyhoeddi siopwyr i newid brand yn barhaol yn dilyn cyfnod o ostyngiad mewn pris. Mae Kantar Worldpanel wedi cynnal nifer o astudiaethau o hyrwyddiadau mewn ystod eang o gategorïau ac nid ydynt wedi darparu unrhyw dystiolaeth ddibynadwy i gefnogi'r farn hon.

5. Gan nad yw'n ymddangos bod hyrwyddiadau pris yn cael unrhyw effeithiau hirdymor ar bris, mae'n bwysig asesu effaith hyrwyddiadau ar gynyddu gwerthiant yn y tymor byr. Mae Ffigur 2 isod yn dangos amcangyfrif o'r cynnydd mewn gwerthiant yn ystod hyrwyddiad pris, fel yr amcangyfrifwyd gan Kantar Worldpanel.

Ffigur 2 Dadansoddi cyfaint bargeinion [81]




6. Mae'r dosbarthiadau perthnasol yn cael eu diffinio fel a ganlyn:

- *Cymorthdaledig* - yn cynrychioli cyfaint y cynnyrch a hyrwyddir y byddai disgwyl i siopwyr ei brynu adeg yr hyrwyddiad, yn yr un siop, waeth a oedd hyrwyddiad ai peidio.
- *Dadleoli* - cyfaint y cynnyrch a fyddai wedi cael ei brynu yn ystod yr wythnosau dilynol yn yr un siop. Mae'r pryniannau hyn wedi'u dwyn ymlaen.

[81] An analysis of the role of price promotions on the household purchases of food and drinks high in sugar, a research project for Public Health England conducted by Kantar Worldpanel UK, 2020. Ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/sugar-reduction-from-evidence- into-action
Mae'n ddiweddariad o Sugar Reduction: The evidence for action - Annexe 4: An analysis of the role of price promotions on the household purchases of food and drinks high in sugar, Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2015. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/470175/Annexe_4._Analysis_of_ price_promotions.pdf

- *Troi at gynnyrch arall gweithgynhyrchwr* - yw'r cyfaint a fyddai wedi dod o chwaer-gynhyrchion o fewn portffolio gweithgynhyrchwr yr hyrwyddiad e.e. cyfnewid rhwng blasau o fewn yr un brand.
- *Dwyn* – yn cynrychioli'r cyfaint sy'n cael ei gymryd o gynnyrch cystadleuwyr e.e. Pepsi yn dwyn gwerthiant o Coca Cola.
- *Ehangu* - yn cynrychioli twf o ganlyniad i amseroedd dychwelyd cyflymach na'r disgwyl i'r categori ar ôl i siopwr gymryd rhan mewn hyrwyddiad. Mae'r effaith ehangu hon yn cael ei hachosi gan siopwyr sy'n prynu symiau uwch na'r cyfartaledd o'r categori nad ydynt yn cael eu gwrthbwyso'n llawn wedyn gan oedi cyn ail-brynu.
- *Teithiau Ychwanegol* - pryniannau annisgwyl sy'n ymddangos fel pe baent wedi'u hysgogi gan yr hyrwyddiad.

7. Mae'r dadansoddiad o gyfaint sy'n deillio o hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o'r cynnydd mewn gwerthiant yn deillio o siopwyr yn newid o brynu cynhyrchion eraill waeth a ydynt yn eiddo i’r gweithgynhyrchwr sy’n hyrwyddo ai peidio. Mae'r data hwn yn dangos bod 58% (gan ychwanegu dosbarthiadau troi at gynnyrch arall gweithgynhyrchwyr a dwyn) o'r cyfaint a brynwyd fel rhan o hyrwyddiad i'w briodoli i newid cynnyrch, a bod 24% arall naill ai'n ddefnydd cymorthdaledig neu wedi'i ddwyn ymlaen. Mae'r 18% sy'n weddill o gyfaint gwerthiant yn cynrychioli'r twf net mewn gwerthiant o gyfaint na fyddai wedi cael ei brynu oni bai am yr hyrwyddiad.


8. Mae'n bwysig ystyried nad yw'r data hwn yn gallu sefydlu'n uniongyrchol a yw'r cynnydd hwn o ran cyfaint yn cael ei fwyta a’i yfed, ond yn achos bwyd a diod, rydym yn rhagdybio y bydd hynny'n wir am gyfran sylweddol ohono. Esboniadau eraill sydd angen eu hystyried yw cadw mwy o gynnyrch yn y cartref a mwy o wastraff bwyd (yn enwedig eitemau ag oes silff fer).

9. Er bod hyn yn dangos gwerthiant uwch mewn categorïau cynnyrch, mae'n bosibl bod defnyddwyr yn ymateb trwy brynu llai o nwyddau mewn categorïau eraill. Er mwyn archwilio'r mater hwn, fe aeth Kantar ati i asesu'r gydberthynas rhwng gwerthiant categorïau cynnyrch cystadleuol ac ategol. Yn gyffredinol, nodwyd cydberthynas gadarnhaol rhwng categorïau gwahanol o gynhyrchion â llawer o siwgr, er enghraifft melysion siocled a melysion siwgr. Mewn cyferbyniad, nodwyd cydberthynas negyddol yn amlach rhwng cynhyrchion 'llai iach' fel siocled a chynhyrchion â nodweddion mwy iach fel ffrwythau a salad.

10. Ar sail y dadansoddiad hwn, mae'n ymddangos yn annhebygol y byddai'r cynnydd yng ngwerthiant cynhyrchion â llawer o siwgr yn dilyn hyrwyddiad pris yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiad yng ngwerthiant cynhyrchion eraill sydd â llawer o siwgr.

11. Mae Ffigur 3 yn amcangyfrif y cynnydd mewn gwerthiant o ganlyniad i gynigion gostyngiadau pris a chynigion amleitem, wedi'u rhannu yn ôl maint y disgownt.

Ffigur 3 Dadansoddiad o ganran y cynnyrch a hyrwyddir yn ôl math o hyrwyddiad pris a maint y disgownt[82]





12. Fel y gwelir yn y data ar gyfer y ddau fath o hyrwyddiad, wrth i faint y disgownt gynyddu, felly hefyd cyfran y gwerthiant sy'n deithiau ychwanegol neu'n ehangu (h.y. gwerthiant ychwanegol i gategori'r cynnyrch). Yn ogystal, mae cynigion amleitem yn arwain at gyfran uwch o werthiant ychwanegol na gostwng prisiau dros dro. Mae hyn i'w ddisgwyl, gan fod angen i ddefnyddwyr brynu symiau ychwanegol o'r cynnyrch er mwyn elwa ar y gostyngiad.

13. Mae Ffigur 4 yn dangos sut mae cyfeintiau cynyddol ymhlith categorïau â mwy o siwgr yn tueddu i fod yn fwy yn gyfrannol lle mae cynhyrchion yn rhywbeth mwy dewisol neu amheuthun ac yn ymwneud ag achlysuron arbennig. Mae categorïau nodedig yn cynnwys melysion, diodydd ysgafn a chynnyrch siopau bara. Ategir hyn gan dystiolaeth o'r Alban a nododd y canlynol: “discretionary, less healthy food and drink categories are more frequently purchased on promotion compared to the staple, healthier categories”[83].

82 An analysis of the role of price promotions on the household purchases of food and drinks high in sugar, a research project for Public Health England conducted by Kantar Worldpanel UK, 2020. Ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/sugar-reduction-from-evidence- into-action
Mae'n ddiweddariad o Sugar Reduction: The evidence for action - Annexe 4: An analysis of the role of price promotions on the household purchases of food and drinks high in sugar, Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2015. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/470175/Annexe_4._Analysis_of_ price_promotions.pdf

83 Foods and drinks purchased into the home in Scotland using data from Kantar Worldpanel, Safonau Bwyd yr Alban, 2016. http://www.foodstandards.gov.scot/downloads/Food_and_Drinks_Purchased_into_The_Home_in_Scotland_report.pdf

Ffigur 4 Cyfrannau cynyddrannol yn ôl categori ar gyfer hyrwyddiadau mewn categorïau siwgr uwch[84]




14. Mae categorïau o'r fath yn tueddu i fod wedi cynnal hyrwyddiadau sydd wedi bod yn fwy cynyddrannol fel sbardunau cyfaint ychwanegol, ac yn gyffredinol mae categorïau mwy byrbwyll a dewisol yn tueddu i fod â mwy o botensial i siopwyr gynyddu faint o gynnyrch maent yn ei brynu i'r cartref fel arfer a'i ddefnyddio'n gynt.

**Effaith hyrwyddiadau ar elw gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr**

15. Mae hyrwyddiadau unigol yn sicrhau cynnydd clir yng ngwerthiant cynhyrchion gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr. Fodd bynnag, nid yw hyrwyddiadau ar gyfer brand penodol yn digwydd ar wahân – maent yn rhan o gategori cynnyrch lle gellir disgwyl i frandiau eraill gynnig disgowntiau mewn modd tebyg.


---

[84] An analysis of the role of price promotions on the household purchases of food and drinks high in sugar, a research project for Public Health England conducted by Kantar Worldpanel UK, 2020. Ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/sugar-reduction-from-evidence- into-action
Mae'n ddiweddariad o Sugar Reduction: The evidence for action - Annexe 4: An analysis of the role of price promotions on the household purchases of food and drinks high in sugar, Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2015. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/470175/Annexe_4._Analysis_of_ price_promotions.pdf

16. Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â busnesau a chyrff masnach yn y sectorau manwerthu a gweithgynhyrchu er mwyn deall yn well y berthynas rhwng gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr o ran strategaethau hyrwyddo. Yn gyffredinol, mae busnesau wedi bod yn amharod i rannu gwybodaeth fanwl am sut mae strategaethau hyrwyddo yn cael eu penderfynu a sut mae'r berthynas rhwng gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr yn gweithio. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae busnesau yn cydnabod bod hyrwyddiadau'n cael eu cytuno rhwng gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr trwy drafod. Mae manylion strategaeth hyrwyddo yn dibynnu ar lawer o ffactorau, fel y math o gynnyrch, y tymor penodol, ac amcangyfrif o werthiant. Yn aml, maent yn cael eu penderfynu fisoedd ymlaen llaw a'u cytuno mewn contractau rhwng gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr.

17. Fe aeth Kantar ati i asesu effaith lefelau gwahanol o ddisgownt ar refeniw gweithgynhyrchwyr, siopau a chategorïau. Mae'r canlyniadau hyn wedi'u crynhoi yn Ffigur 5 isod.

Ffigur 5 Effeithiau cyfartalog ar wariant siopwyr yn ôl disgownt[85]




18. Waeth beth yw lefel y disgownt a gynigir, fel arfer mae cyflwyno disgownt yn cynyddu refeniw gweithgynhyrchwyr a siopau. Fodd bynnag, unwaith y bydd lefel y disgownt yn mynd yn uwch na 45%, mae'r enillion gwariant o hyrwyddiadau ar gyfer y categori cynnyrch yn gostwng. Mae Kantar yn amcangyfrif bod hyn yn digwydd ar gyfer tua 4 o bob 10 hyrwyddiad.

19. Gan fod 4 o bob 10 hyrwyddiad yn lleihau gwariant categori (ond yn cynyddu faint o'r cynnyrch sy'n cael ei werthu yn sylweddol), mae hyrwyddiadau yn rhoi pwysau amlwg ar faint elw manwerthwyr a gweithgynhyrchwyr. Mae'n bosibl y bydd colledion ar hyrwyddiadau unigol yn cael eu derbyn fel rhan o benderfyniadau a strategaethau prisio ehangach. Mae'r syniad o 'abwyd'('loss leaders') yn strategaeth brisio adnabyddus sy'n cael ei defnyddio i ddenu cwsmeriaid i siopau a'u hannog i brynu eitemau mwy proffidiol. Hefyd, efallai y bydd angen hyrwyddiadau er mwyn

[85] An analysis of the role of price promotions on the household purchases of food and drinks high in sugar, a research project for Public Health England conducted by Kantar Worldpanel UK, 2020. Ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/sugar-reduction-from-evidence- into-action
Mae'n ddiweddariad o Sugar Reduction: The evidence for action - Annexe 4: An analysis of the role of price promotions on the household purchases of food and drinks high in sugar, Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2015.

sicrhau amlygrwydd brand mewn siopau, a bydd presenoldeb hyrwyddiadau gan gystadleuwyr yn annog hyrwyddiadau dilynol.

20. Fodd bynnag, wrth edrych ar y sefyllfa o safbwynt categori ehangach (gan gwmpasu'r holl fanwerthwyr a gweithgynhyrchwyr sy'n gweithredu mewn marchnad fwyd neu ddiod benodol), mae'n annhebygol y bydd gweithgynhyrchwr yn elwa'n sylweddol ar ddwyn o frandiau cystadleuwyr. Bydd symud o un brand i frand arall (h.y. o ddewisiadau pris llawn i ddewisiadau amgen rhatach) yn tueddu i arwain at ostyngiadau yng nghyfanswm gwariant y categori oni bai bod yr enillion hyn yn cael eu gwrthbwyso gan gynnydd cyffredinol yn y gwerthiant.

21. I fanwerthwyr, mae'r gystadleuaeth rhwng gweithgynhyrchwyr gwahanol mewn categorïau cynnyrch yn llai pwysig, gan y bydd siopau sy'n stocio ystod o frandiau yn gwneud elw o werthiant yr holl gynhyrchion. Fodd bynnag, maent yn elwa ar rywfaint o wariant a drosglwyddir o'u cystadleuwyr manwerthu. Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o siopwyr yn siopa mewn amrywiaeth o siopau gwahanol, felly os ydynt yn cael eu denu i brynu eitem sy'n cael ei hyrwyddo, maent yn tueddu i brynu llai mewn siopau cystadleuwyr. Nid yw hyrwyddiadau yn arwain at lai o werthiant i weithgynhyrchwyr bob tro, ond mewn chwarter o achosion, mae'r hyrwyddiad yn arwain at golled i'r manwerthwr[86].

[86] An analysis of the role of price promotions on the household purchases of food and drinks high in sugar, a research project for Public Health England conducted by Kantar Worldpanel UK, 2020. Ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/sugar-reduction-from-evidence- into-action
Mae'n ddiweddariad o Sugar Reduction: The evidence for action - Annexe 4: An analysis of the role of price promotions on the household purchases of food and drinks high in sugar, Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2015. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/470175/Annexe_4._Analysis_of_ price_promotions.pdf

## Atodiad H: Diffiniad o Lefelau Uchel o Fraster, Siwgr a Halen

1. Mae sawl ffordd bosibl o asesu cynnwys maethol bwyd. At ddibenion yr Asesiad Effaith hwn, rhagdybir y bydd Model Proffilio Maetholion (NPM) 2004/5 yr Asiantaeth Safonau Bwyd[87] yn cael ei ddefnyddio i ddiffinio pa mor iach yw cynnyrch.

2. Datblygwyd NPM gan yr ASB i ddarparu adnodd i Ofcom, y rheoleiddiwr darlledu, allu gwahaniaethu rhwng bwydydd ar sail eu cynnwys maethol. Mae Ofcom yn defnyddio'r allbynnau o'r model er mwyn rheoleiddio hysbysebion bwydydd i blant ar y teledu.

3. Mae'n pennu sgôr ar gyfer bwydydd ar sail eu cynnwys maethol. Mae'r maetholion a ystyrir yn cael eu rhannu'n ddau gategori – A ac C. Mae'r sgôr ar gyfer maetholion 'C' yn cael ei dynnu o'r sgôr ar gyfer maetholion 'A' er mwyn rhoi sgôr derfynol. Mae sgôr uwch yn nodi cynnyrch sydd â lefelau uwch o fraster, siwgr a halen.

4. Mae maetholion 'A' yn cynnwys egni, braster dirlawn, cyfanswm siwgr a sodiwm. Mae maetholion 'C' yn cynnwys ffrwythau, llysiau, cnau, ffibr a phrotein. Felly, nid yw bwyd sydd â sgôr uchel ar gyfer maetholion 'A' yn cael ei ddosbarthu'n awtomatig fel bwyd sydd â lefelau uwch o fraster, siwgr a halen, oni bai bod ganddo sgôr isel ar gyfer maetholion 'C' hefyd.

5. Mae bwydydd sydd â sgôr o 4 pwynt neu fwy, neu ddiodydd sydd â sgôr o 1 pwynt neu fwy, yn cael eu dosbarthu fel bwydydd "llai iach”. Mae'r cynhyrchion 'llai iach' hyn yn darparu'r diffiniad ar gyfer cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen a ddefnyddir yma.

6. Pennir sgôr ar gyfer bwyd a diod o bob math. Nid oes unrhyw eithriadau.

**Cyfrifiadau**

7. Mae'r broses o gyfrifo'r sgôr yn cynnwys tri cham: cyfrifo pwyntiau 'A', cyfrifo pwyntiau 'C' a'u cyfuno i greu sgôr gyffredinol.

Cyfrifo pwyntiau 'A

8. Cyfrifir cyfanswm pwyntiau 'A' trwy ddefnyddio'r fformiwla ganlynol: (pwyntiau ar gyfer egni) + (pwyntiau ar gyfer braster dirlawn) + (pwyntiau ar gyfer siwgrau) + (pwyntiau ar gyfer sodiwm). Mae'r pwyntiau ar gyfer pob maeth yn cael eu pennu ar sail pob 100g o'r bwyd neu'r ddiod, yn ôl Tabl B.1 isod.

Tabl B.1 Pwyntiau maetholion categori 'A' fesul 100g

| Pwyntiau | Egni (kJ) | Braster Dirlawn (g) | Cyfanswm Siwgr (g) | Sodiwm (mg). |
|---|---|---|---|---|

[87] https://www.gov.uk/government/publications/the-nutrient-profiling-model

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 0 | ≤335 | ≤1 | ≤4.5 | ≤90 |
| 1 | >335 | >1 | >4.5 | >90 |
| 2 | >670 | >2 | >9.0 | >180 |
| 3 | >1005 | >3 | >13.5 | >270 |
| 4 | >1340 | >4 | >18.0 | >360 |
| 5 | >1675 | >5 | >22.5 | >450 |
| 6 | >2010 | >6 | >27.0 | >540 |
| 7 | >2345 | >7 | >31.0 | >630 |
| 8 | >2680 | >8 | >36.0 | >720 |
| 9 | >3015 | >9 | >40.0 | >810 |
| 10 | >3350 | >10 | >45.0 | >900 |

9. Gellir dyfarnu uchafswm o ddeg pwynt ar gyfer pob maetholyn.

Cyfrifo pwyntiau ‘C'

10. Defnyddir y fformiwla ganlynol i gyfrifo cyfanswm pwyntiau 'C': (pwyntiau ar gyfer canran cynnwys ffrwythau, llysiau a chnau) + (pwyntiau ar gyfer ffibr [naill ai NSP neu AOAC]) + (pwyntiau ar gyfer protein). Mae'r pwyntiau ar gyfer pob maeth yn cael eu pennu ar sail symiau pob maetholyn fesul 100g/canran o gynnwys maethol y bwyd neu'r ddiod, yn unol â Thabl B.2 isod.

Tabl B.2 Pwyntiau maetholion categori 'C' fesul 100g

| Pwyntiau | Ffrwythau, Llysiau a Chnau (%) | Ffibr NSP (g) | neu Ffibr AOAC (g) | Protein (g) |
|---|---|---|---|---|
| 0 | ≤40 | ≤0.7 | ≤0.9 | ≤1.6 |
| 1 | >40 | >0.7 | >0.9 | >1.6 |
| 2 | >60 | >1.4 | >1.9 | >3.2 |
| 3 | - | >2.1 | >2.8 | >4.8 |
| 4 | - | >2.8 | >3.7 | >6.4 |
| 5 | >80 | >3.5 | >4.7 | >8.0 |

a Dylid defnyddio gwybodaeth ffibr NSP os oes modd. Fodd bynnag, os nad yw'r wybodaeth hon ar gael, dylid defnyddio gwybodaeth ffibr AOAC.
b Os oes gan fwyd neu ddiod sgôr o 11 pwynt neu fwy ar gyfer maetholion 'A', ni all

gael sgôr ar gyfer protein oni bai bod y sgôr ar gyfer ffrwythau, llysiau a chnau yn 5 pwynt.

11. Gellir dyfarnu uchafswm o bum pwynt ar gyfer pob maetholyn/cyfansoddyn. Nodwch y cyfyngiadau ar bwyntiau ar gyfer protein.

Cyfuno pwyntiau i greu sgôr gyffredinol

12. Mae'r sgôr gyffredinol ar gyfer bwyd yn dibynnu ar gyfanswm ei bwyntiau 'A' a chyfanswm ei bwyntiau ar gyfer ffrwythau, llysiau a chnau. Mae tair sefyllfa bosibl.

Llai nag 11 o bwyntiau 'A'
13. Os yw bwyd yn bodloni'r maen prawf hwn, mae'r sgôr gyffredinol yn cael ei chyfrifo fel a ganlyn:

14. Cyfanswm pwyntiau 'A' llai cyfanswm pwyntiau 'C' = (egni + braster dirlawn + siwgrau + sodiwm) - (ffrwythau, llysiau a chnau + ffibr + protein)

11 neu fwy o bwyntiau 'A' a 5 pwynt ar gyfer ffrwythau, llysiau a chnau

15. Os yw bwyd yn bodloni'r maen prawf hwn, mae'r sgôr gyffredinol yn cael ei chyfrifo fel yn yr achos uchod.

11 neu fwy o bwyntiau 'A' a llai na 5 pwynt ar gyfer ffrwythau, llysiau a chnau

16. Os yw bwyd yn bodloni'r maen prawf hwn, mae'r sgôr gyffredinol yn cael ei chyfrifo fel a ganlyn:

17. Cyfanswm pwyntiau 'A' llai pwyntiau ar gyfer ffrwythau, llysiau a chnau a phwyntiau ar gyfer ffibr = (egni + braster dirlawn + siwgrau + sodiwm) - (ffrwythau, llysiau a chnau + ffibr)

18. Noder na chaniateir i fwydydd gael sgôr protein yn yr achos hwn.

# Atodiad I: Categorïau Cynnyrch sydd wedi'u cynnwys

| **Opsiwn 1- cyhyrchion bwyd a diod sydd wedi'u cynnwys yn Rhaglen Lleihau Siwgr Iechyd Cyhoeddus Lloegr ac Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn** | **Opsiwn 2 – bwydydd sy'n peri'r pryder mwyaf o safbwynt gordewdra ymhlith plant (rhestr symlach)** |
|---|---|
| Diodydd ysgafn | Diodydd ysgafn |
| Melysion siocled | Melysion siocled |
| Melysion siwgr | Melysion siwgr |
| Cacennau | Cacennau |
| Hufen ia | Hufen ia |
| Bwydydd bore (crystiau) | Bwydydd bore (crystiau) |
| Pwdinau a phwdinau llaeth | Pwdinau a phwdinau llaeth |
| Bisgedi melys | Bisgedi melys |
| Grawnfwydydd brecwast | Grawnfwydydd brecwast |
| Iogwrt | Iogwrt |
| Diodydd llaeth sy'n cynnwys siwgr ychwanegol | Diodydd llaeth sy'n cynnwys siwgr ychwanegol |
| Diodydd sudd sy'n cynnwys siwgr ychwanegol | Diodydd sudd sy'n cynnwys siwgr ychwanegol |
| Pitsa | Pitsa |
| Creision a byrbrydau sawrus | Creision a byrbrydau sawrus |
| Prydau parod a chanolbwynt prydau bwyd (e.e. byrgyrs, nygets cyw iâr, cyw iâr/pysgod mewn briwsion bara) | Prydau parod a chanolbwynt prydau bwyd (e.e. byrgyrs, nygets cyw iâr, cyw iâr/pysgod mewn briwsion bara) |
| Sglodion a chynhyrchion tatws | Sglodion a chynhyrchion tatws |
| Bara garlleg | |
| Pasteiod a quiche | |
| Bisgedi sawrus, craceri a bara cras | |
| Sawsiau a phastau coginio | |

Sawsiau bwrdd a dresin

Cynhyrchion cig wedi'u prosesu

Sbred melys

Cwrs cyntaf, prydau bach, prydau ochr

# Atodiad J: Adolygiad Llenyddiaeth o Gyfyngiadau ar Ddiodydd Llawn Siwgr

Mae sefydliadau meddygol a phartïon eraill wedi dangos cefnogaeth gadarn i gyfyngu ar faint dognau diodydd ac ail-lenwi diodydd llawn siwgr am ddim er mwyn sicrhau manteision iechyd sylweddol i'r boblogaeth.

Er bod y gwaith ymchwil yn cefnogi cynigion o'r fath ar y cyfan, mae angen sicrhau bod y cynigion yn cael eu hystyried yn drylwyr er mwyn eu rhoi ar waith yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl, gan fod potensial i fusnesau osgoi'r cyfyngiadau; ceir tystiolaeth o hyn mewn polisïau tebyg blaenorol.

Mae'r adolygiad llenyddiaeth, ynghyd â data ar faint y farchnad yng Nghymru a Lloegr, yn darparu sylfaen i ddatblygu rhagdybiaethau ar gyfer yr asesiad effaith.

**Enghreifftiau o Bolisïau Tebyg mewn Lleoedd Eraill**

- **Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr): 'Promotions of unhealthy foods restricted from April 2022'**
- Bydd ail-lenwi diodydd ysgafn llawn siwgr am ddim hefyd yn cael ei wahardd yn y sector bwyta oddi allan i'r cartref
- https://www.gov.uk/government/news/promotions-of-unhealthy-foods-restricted-from-april-2022

- **Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr): 'Restricting promotions of products high in fat, sugar and salt by location and by price: enforcement'**
- Rhaid i fusnes cymwys beidio â chynnig hyrwyddiad ail-lenwi am ddim ar gyfer diodydd y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddynt
- Ystyr hyrwyddiad ail-lenwi am ddim yw hyrwyddiad sy'n cynnig i'r defnyddiwr yr un ddiod neu ddiod arall y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi (gan gynnwys ychwanegiadau am ddim at unrhyw ddiod o'r fath)
- https://www.gov.uk/government/consultations/restricting-promotions-of-products-high-in-fat-sugar-and-salt-enforcement/restricting-promotions-of-products-high-in-fat-sugar-and-salt-by-location-and-by-price-enforcement#free-refills

- **LégiFrance (Ionawr 2017)**
- Gwahardd darparu diodydd diderfyn, am ddim neu am bris sefydlog, sy'n cynnwys siwgrau neu felysyddion synthetig ychwanegol
- https://www.legifrance.gouv.fr/loda/id/JORFTEXT000033922943/

- **Cyhoeddiadau'r Gymdeithas Frenhinol: 'Towards environmentally sustainable human behaviour: targeting non-conscious and conscious processes for effective and acceptable policies' (2017)**
- Ceisiodd Dinas Efrog Newydd gyflwyno terfyn 16-owns (454 ml) ar faint diodydd wedi'u melysu â siwgr ar safleoedd bwyd. Cafwyd cryn wrthwynebiad i'r cynnig

a bu’n aflwyddiannus yn y pen draw. Yn ôl arolwg papur newydd o drigolion Efrog Newydd, roedd 60% o bobl yn gwrthwynebu'r cynnig. (tudalen 8)

- https://royalsocietypublishing.org/doi/pdf/10.1098/rsta.2016.0371

**Sefydliadau sydd o blaid y cynnig**

- **Iechyd Cyhoeddus Lloegr: ‘Calorie Reduction: The scope and ambition for action’**

- Mae'r sector bwyta oddi allan i'r cartref (e.e. caffis, bwytai, tafarndai etc.), yn darparu 20-25% o gymeriant egni oedolyn (tudalen 10)
- Mae 2% o galorïau yn dod o ddiodydd ysgafn llawn siwgr, sydd wedi'u cynnwys yn yr ardoll siwgr (tudalen 32)
- Mae dadansoddiad wedi dangos bod pobl yn bwyta ac yn yfed mwy yn gyson os ydynt yn cael cynnig dognau mwy o faint, na phan fyddant yn cael cynnig fersiynau llai. Mae cynyddu maint dognau yn arwain at bobl yn bwyta mwy o galorïau, ac roedd yr astudiaeth yn amcangyfrif y gallai dileu dognau mwy o faint o'r deiet yn gyfan gwbl leihau cymeriant egni hyd at 16% ymhlith oedolion yn y DU. (tudalen 25)
- Mae'r prif ffynonellau egni mewn deiet yn y DU yn debyg ar gyfer plant ac oedolion (tudalen 16)
- https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/800675/Calories_Evidence_Document.pdf

- **Camau Gweithredu ar Siwgr (cyn cyflwyno ardoll y diwydiant ar ddiodydd ysgafn)**

- Mae diodydd pop wedi'u melysu â siwgr yn gwneud cyfraniad mawr at siwgr mewn deiet, yn enwedig i blant, ac maent yn ffynhonnell gudd o galorïau. Ar gyfartaledd, mae 16% o gymeriant siwgr ychwanegol dyddiol oedolion yn dod o ddiodydd ysgafn. Ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau, mae diodydd ysgafn yn gyfrifol am bron i draean (29%) o'u cymeriant siwgr ychwanegol dyddiol ac mae'n cyfrannu at 4.8% o gyfanswm eu cymeriant egni. Byddai dros hanner y diodydd llawn siwgr a arolygwyd yn cynnwys mwy o siwgr fesul can nag a argymhellir ar gyfer plentyn, person ifanc yn ei arddegau ac oedolyn am ddiwrnod cyfan ar sail canllawiau drafft newydd Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer siwgr
- Mae can arferol o cola yn cynnwys cymaint o siwgr â thair a hanner Toesen Krispy Kreme
- Mae 79% o ddiodydd swigod llawn siwgr yn cynnwys 6 llwy de neu fwy o siwgr fesul can (330ml) – sef yr uchafswm dyddiol a argymhellir gan Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer siwgr
- http://www.actiononsugar.org/surveys/2014/sugar-sweetened-beverages/

- **Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr): ‘Consultation on restricting promotions of products high in fat, sugar and salt by location and by price’**
- Rydym yn cynnig y dylai'r cyfyngiadau ar brisiau fod yn gymwys hefyd i ail-lenwi diodydd wedi'u melysu â siwgr am ddim yn y sector oddi allan i'r cartref, os ydynt o fewn cwmpas yr SDIL, gan mai diodydd ysgafn yw'r ffynhonnell fwyaf o siwgr mewn deietau plant. Rydym yn cynnig y dylid caniatáu ail-lenwi diodydd am ddim ar gyfer diodydd nad ydynt yn cynnwys lefelau uchel o fraster, siwgr a halen yn unig. (tudalen 13)
- https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/770704/consultation-on-restricting-price-promotions-of-HFSS-products.pdf

**Canfyddiadau ymchwil mewn mwy o fanylder**

- **BMJ: ‘Downsizing: policy options to reduce portion sizes to help tackle obesity’ (2015)**
- Yn ôl yr erthygl, ar hyn o bryd, er bod tystiolaeth gadarn bod dognau mwy o faint o fwyd a diodydd di-alcohol yn cynyddu cymeriant, nid oes tystiolaeth gadarn tebyg ynghylch sut i leihau'r effaith hon. Er mwyn gwneud hyn, mae angen gwerthusiad annibynnol a thrylwyr o ymyriadau sy'n ceisio lleihau maint, argaeledd ac apêl dognau mwy. Os yw ymyriadau llwyddiannus yn cael eu rhoi ar waith ar raddfa ddigonol, mae ganddynt y potensial i helpu i atal gordewdra fel rhan o strategaeth ordewdra ehangach (tudalen 3)
- Mae’r erthygl hefyd yn dweud y bydd angen i ymyriadau effeithiol ystyried arloesi posibl yn y diwydiant i ddod o hyd i ffyrdd o osgoi effeithiau arfaethedig y polisi. Er enghraifft, arweiniodd cytundeb gweithgynhyrchwyr melysion i roi’r gorau i gynhyrchu bariau siocled mawr (‘king size’) yn raddol yn 2005 at gyflwyno bariau sy'n cynnwys sawl dogn, ar gyfer eu rhannu neu eu bwyta ar adegau gwahanol i bob golwg. (tudalen 2)
- https://www.bmj.com/content/bmj/351/bmj.h5863.full.pdf

- **Llywodraeth EF (Lloegr): ‘Childhood Obesity – A Plan for Action’**
- Dywed y cynllun mai’r nod yw atal hyrwyddiadau sy'n annog swmp brynu a gorfwyta cynhyrchion nad ydynt yn iach. (tudalen 22)
- https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/718903/childhood-obesity-a-plan-for-action-chapter-2.pdf

- **Canlyniad Ymgynghoriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr):**
- Bydd y cyfyngiadau hefyd yn gymwys i ail-lenwadau diodydd sydd wedi'u melysu â siwgr am ddim yn y sector oddi allan i'r cartref. Mae data yn dangos bod plant yn bwyta/yfed hyd at 3 gwaith yn fwy o siwgr na'r lefel a argymhellir bob dydd, ac mae tystiolaeth gadarn yn dangos bod bwyta/yfed gormod o siwgr yn cyfrannu at fagu pwysau a, thros amser, gordewdra. Yn ogystal, rydym yn

gwybod bod bwyta oddi allan i'r cartref yn gyfrifol am tua chwarter caloriau dyddiol oedolion, felly mae'n gallu bod yn ffactor pwysig mewn bwyta gormod o galoriau.
- https://www.gov.uk/government/consultations/restricting-promotions-of-products-high-in-fat-sugar-and-salt-enforcement/outcome/restricting-promotions-of-products-high-in-fat-sugar-and-salt-consultation-response-on-policy-enforcement#policy-summary

- **Asesiad Effaith Llywodraeth Lloegr: 'Restricting volume promotions for high fat, sugar, and salt (HFSS) products (13011)' (Cam Ymgynghori, 16/11/2018)**
- Asesiad Effaith Lloegr ar hyrwyddiadau maint cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen, gan gynnwys cyfyngu ar ail-lenwadau diodydd wedi'u melysu â siwgr am ddim
- https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/770705/impact-assessment-for-restricting-volume-promotions-for-HFSS-products.pdf

- **Asesiad Effaith Llywodraeth Lloegr: 'Restricting volume promotions for high fat, sugar, and salt (HFSS) products (9560)' (Cam Terfynol, 11/11/2020)**
- Asesiad Effaith Lloegr ar hyrwyddiadau maint cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen, gan gynnwys cyfyngu ar ail-lenwadau diodydd wedi'u melysu â siwgr am ddim
- Diffyg tystiolaeth a data yn y diwydiant i gyfrifo'r gost i fusnes a'r manteision
- https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1003921/impact-assessment-for-restricting-volume-promotions-for-HFSS-products.pdf

- **Iechyd Cyhoeddus Lloegr: 'Attitudes to Obesity'**
- Roedd 49% o'r ymatebwyr o blaid lleihau maint safonol byrbrydau neu ddiodydd nad ydynt yn iach, roedd 28% yn erbyn, ac nid oedd 23% o blaid nac yn erbyn
- Roedd 54% o fenywod o blaid, ond dim ond 44% o ddynion
- Roedd 56% o bobl â chymhwyster gradd neu uwch o blaid, o'i gymharu â 44% heb unrhyw gymhwyster
- Roedd 46% o bobl 18-34 oed a 48% o bobl dros 55 oed o blaid (tudalen 17)
- https://www.bsa.natcen.ac.uk/media/39132/attitudes-to-obesity.pdf

- **Llyfrgell Cochrane: ''Portion, package or tableware size for changing selection and consumption of food, alcohol and tobacco' (2015)**
- Roedd y dadansoddiad hwn wedi dangos bod pobl yn bwyta ac yfed mwy yn gyson os ydynt yn cael cynnig dognau, pecynnau neu lestri bwyd mwy, na phan maent yn cael fersiynau llai. Mae hyn yn awgrymu bod polisïau ac arferion sy'n llwyddo i leihau maint, argaeledd ac apêl dognau, pecynnau,

unedau unigol a llestri bwrdd mwy o faint yn gallu cyfrannu at ostyngiadau ystyrlon yn y symiau o fwyd (gan gynnwys diodydd di-alcohol) y mae pobl yn eu dewis a'u bwyta/yfed yn y fan a'r lle ac yn y tymor byr. (tudalen 2)

- https://www.cochrane.org/CD011045/PUBHLTH_portion-package-or-tableware-size-changing-selection-and-consumption-food-alcohol-and-tobacco

- **PLoS One: 'Regulating the Way to Obesity: Unintended Consequences of Limiting Sugary Drink Sizes' (2013)**

- Efelychu Ymddygiad: Roedd un fwydlen yn cynnig diodydd 16 oz, 24 oz, neu 32 oz. Mae ail fwydlen yn cynnig diodydd 16 oz, bwndel o ddwy ddiod 12 oz, neu fwndel o ddwy ddiod 16 oz. Roedd trydedd fwydlen yn cynnig diodydd 16 oz yn unig.
- Prynodd y cyfranogwyr fwy o lawer o ownsys o bop wrth brynu'r bwndeli o'i gymharu â diodydd o faint amrywiol. Hefyd, roedd cyfanswm refeniw busnes yn uwch gyda bwndeli yn hytrach na phan werthwyd diodydd bach yn unig.
- Awgrymodd yr ymchwil fod gan fusnesau gymhelliant cryf i gynnig bwndeli o bop os oes cyfyngiad ar faint diodydd. Gall cyfyngu ar ddiodydd mwy o faint gael y canlyniad anfwriadol o gynyddu lefelau yfed soda yn hytrach na'u lleihau.
- https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC3622664/pdf/pone.0061081.pdf

- **Iechyd Cyhoeddus Lloegr: 'Sugar reduction: Report on progress between 2015 and 2018' (2019)**

- Mae gwerthiant (mewn litrau) o ddiodydd ysgafn o fewn dosbarthiad yr ardoll siwgr wedi cynyddu 10.2%, o 3,559,309 mil yn 2015, i 3,967,748 mil yn 2018 (tudalen 52)
- Fodd bynnag, roedd cyfanswm cynnwys siwgr yn y diodydd ysgafn a werthwyd wedi gostwng 21.6% o 139,718 tunnell yn 2015, i 109,585 tunnell yn 2018 (tudalen 52)
- Mae hyn yn golygu bod cynnwys siwgr diodydd y mae'r ardoll yn gymwys iddynt wedi gostwng ar gyfartaledd https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/839756/Sugar_reduction_yr2_progress_report.pdf

- **Cymdeithas Diodydd Ysgafn Prydain: Adroddiad Blynyddol 2021**
- https://www.britishsoftdrinks.com/write/MediaUploads/BSDA_Annual_Report_2021_FINAL.pdf

- **Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn**

- Roedd dros 50% o weithgynhyrchwyr wedi lleihau cynnwys siwgr diodydd a gafodd eu heffeithio gan yr ardoll o fewn y ddwy flynedd gyntaf i gyhoeddi'r polisi

- Bydd refeniw sy'n deillio o'r ardoll yn cael ei fuddsoddi mewn rhaglenni a chyfleusterau chwaraeon ysgol, yn ogystal â chlybiau brecwast iach
- https://www.gov.uk/government/news/soft-drinks-industry-levy-comes-into-effect
- Gostyngiad o 43.7% yng nghyfanswm y cynnwys siwgr fesul 100ml rhwng 2015 a 2019 ar gyfer diodydd ym mae'r ardoll yn gymwys iddynt (tudalen 10)
- Mae gwerthiant cyffredinol (mewn litrau) o ddiodydd y mae'r ardoll yn gymwys iddynt wedi cynyddu 14.9%, ond roedd cyfanswm gwerthiant siwgr o'r diodydd ysgafn wedi gostwng 35.4% (tudalen 10)
- Roedd nifer y calorïau sy'n debygol o gael eu hyfed ar un achlysur wedi gostwng 35.2% rhwng 2015 a 2019 (tudalen 10)
- Yn y Sector Oddi Allan i'r Cartref, roedd gostyngiad o 38.5% yng nghyfanswm y cynnwys siwgr cyfartalog syml ar gyfer diodydd y mae'r SDIL yn gymwys iddynt a gostyngiad o 37.7% yn y calorïau ar gyfer diodydd a oedd yn debygol o gael eu hyfed ar un achlysur (tudalen 10)
- https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/984282/Sugar_reduction_progress_report_2015_to_2019-1.pdf
- Y gofynion yw isafswm o 5 gram o siwgr fesul 100ml
- https://www.gov.uk/guidance/check-if-your-drink-is-liable-for-the-soft-drinks-industry-levy

- **Psychological Science, ‘Psychologically Informed Implementations of Sugary-Drink Portion Limits’**

- Rhannwyd cyfranogwyr yn dri grŵp: Dogn Arferol (TP), Ail-lenwad gan Weinydd (WSR), Ail-lenwad Hunan-wasanaeth (SSR)
- Roedd cyfranogwyr yn y grŵp WSR wedi yfed 83% yn fwy o galorïau na'r rhai yn y grŵp TP
- Roedd cyfranogwyr yn y grŵp SSR wedi yfed 30.7% yn fwy o galorïau na'r rhai yn y grŵp TP
- Roedd cyfranogwyr yn y grŵp WSR wedi yfed 40% yn fwy o galorïau na'r rhai yn y grŵp SSR
- Casgliad: Mae ail-lenwi diodydd yn arwain at yfed mwy o galorïau, ond mae'r gwahaniaeth yn llai o lawer yn y sector hunanwasanaeth, hyd yn oed os nad yw’r peiriant hunanwasanaeth yn bell.

- **Public Health Nutrition, ‘Package size and manufacturer-recommended serving size of sweet beverages: a cross-sectional study across four high-income studies’ (2015)**

- Yn ôl Asiantaeth Arolygu Bwyd Canada, y swm cyfeirio rhagnodedig ar gyfer diodydd ysgafn yw 355 ml, gydag ystod dderbyniol rhwng 250 a 375 ml.
- https://www.cambridge.org/core/services/aop-cambridge-core/content/view/821C5DD21951B689649854B0AB8AF04A/S1368980015001974a.pdf/package-size-and-manufacturer-recommended-serving-size-of-

sweet-beverages-a-cross-sectional-study-across-four-high-income-countries.pdf (tudalen 1009)

**Enghreifftiau o beiriannau a ddefnyddir ar gyfer ail-lenwi diodydd am ddim**

Peiriant Coca Cola Freestyle sydd i'w weld ar safleoedd Burger King, Five Guys a Sinemâu Vue sy’n ail-lenwi diodydd wedi'u melysu a heb eu melysu am ddim. Mae gwaith ymchwil ddesg wedi dangos bod saith o'r peiriannau hyn yn gweithredu yng Nghymru: yng Nghaerdydd, Abertawe a Wrecsam. Mae'r peiriannau hyn yn cynnig dros 30 o ddiodydd gwahanol - tua hanner ohonynt yn ddiodydd heb siwgr.



Peiriant Pepsi Max sy'n cynnig ail-lenwi diodydd di-siwgr ar gyfer saith allan o'r wyth opsiwn sydd ar gael yn Costco.

